# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 10 Mehefin 2026 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa’r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod***
***15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi’u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,*
*Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,*
*Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi’u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi’u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,*
*Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Cadeirydd**<br>Ethol Cadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf | |
| 2. | **Is-gadeirydd**<br>Ethol Is-gadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf | |
| 3. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 4. | **Diweddariad Corfforaethol**<br>Cyflwyno diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr. | |
| 5. | **Hawl i'r Cyhoedd Holi**<br>Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.<br>Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod. | |
| 6. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 7. | **Aelodaeth o'r Awdurdod**<br>Cofnodi aelodaeth yr Awdurdod yn ffurfiol. (Copi yma) | 4 - 5 |
| 8. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2026 fel rhai cywir. (Copi yma) | 6 - 12 |
| 9. | **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion** | |
| 10. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 13 |
| 11. | **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) | 14 - 18 |
| 12. | **Presenoldeb Aelodau**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma) | 19 - 21 |

13. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod** 22 - 24
Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (Copi yma)

14. **Safonau'r Iaith Gymraeg** 25 - 40
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma)

15. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26** 41 - 79
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma)

16. **Dangosyddion Perfformiad** 80 - 97
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

17. **Prosiect Datblygu Plas Tan y Bwlch** 98 - 100
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir (Copi yma)

18. **Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026-31** 101 - 124
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo (Copi yma)

19. **Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu 2026-31** 125 - 133
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu (Copi yma)

20. **Cyfyngiad Parcio Dros Nos ym Meysydd Parcio APCE** 134 - 136
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Eiddo. (Copi yma)

21. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** 137 - 141
Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026 er gwybodaeth. (Copi yma)

22. **Adroddiadau Gweithgor Aelodau** 142 - 147
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 13 Mai 2026. (Copi yma)

23. **Adroddiad y Pwyllgor Safonau** 148 - 150
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2026. (Copi yma)

24. **Adroddiad y Cyd-bwyllgor Lleol** 151 - 154
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Cyd-bwyllgor Lleol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2026. (Copi yma)

25. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Eitem Rhif 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Aelodaeth o'r Awdurdod** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, ac mae 9 o'r rhai hyn yn cael eu penodi gan Gyngor Gwynedd, 3 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a 6 gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Aelodaeth fel a ganlyn:-

**9 Aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd**

1. Cynghorydd Elwyn Edwards Cynghorydd.ElwynEdwards@eryri.llyw.cymru
2. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths Delyth.Griffiths@eryri.llyw.cymru
3. Cynghorydd Annwen Hughes Cynghorydd.AnnwenHughes@eryri.llyw.cymru
4. Cynghorydd Louise Hughes Cynghorydd.LouiseHughes@eryri.llyw.cymru
5. Cynghorydd Edgar Wyn Owen Cynghorydd.EdgarOwen@eryri.llyw.cymru
6. Cynghorydd Elfed Powell Roberts Cynghorydd.ElfedRoberts@eryri.llyw.cymru
7. Cynghorydd John Pughe Roberts Cynghorydd.JohnPugheRoberts@eryri.llyw.cymru
8. Cynghorydd Meryl Roberts Cynghorydd.MerylRoberts@eryri.llyw.cymru
9. Cynghorydd Einir Wyn Williams Cynghorydd.EinirWynWilliams@eryri.llyw.cymru

**3 Aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Conwy**

10. Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd Cynghorydd.IforGlynLloyd@eryri.llyw.cymru
11. Cynghorydd Jo Nuttall Cynghorydd.JoNuttall@eryri.llyw.cymru
12. Cynghorydd Nia Owen Cynghorydd.niaowen@eryri.llyw.cymru

**6 Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

13. Mr. Rhys Evans Rhys.evans@eryri.llyw.cymru
14. Dr. Salamatu Fada salamatu.fada@eryri.llyw.cymru
15. Mr. Tim Jones Tim.Jones@eryri.llyw.cymru
16. Ms. Naomi Luhde-Thompson Naomi.Luhde-Thompson@eryri.llyw.cymru

17. Ms. Delyth Lloyd Delyth.Lloyd@eryri.llyw.cymru

18. Mr. Wyn Thomas Wyn.thomas@eryri.llyw.cymru

**Manylion Cyswllt y Wefan**

Byddai swyddogion yn ddiolchgar pe gallech roi caniatâd i'ch enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt dewisol, a chyfeiriad e-bost corfforaethol gael eu gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**COFNODION**
**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
DYDD MERCHER 29 EBRILL 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Bethan Hughes, Rhys Owen, Elin Smith, Gwenno Jones, Eifion Jones.

**Hefyd yn bresennol:**
Matthew Edwards (Archwilio Cymru) a Daniel Price (Archwilio Cymru)

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu, ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes a Naomi Luhde-Thompson.

Adroddodd y Cadeirydd ar rai gweithgareddau oedd wedi cymryd rhan ynddynt ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, gan gynnwys:

- plannu coeden – gyda'r Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd ac Elfed Roberts – a gymerwyd o doriadau o'r goeden 'Sycamore Gap' (a gafodd ei thorri i lawr yn anghyfreithlon 2 flynedd yn ôl) yn yr Ysgwrn;
- mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Uchelgais Gogledd Cymru gyda'r Prif Weithredwr;
- mynychu cynhadledd Cynllun LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor;
- mynychu cyfarfod o'r tri Parc Cenedlaethol.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* diweddariad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr yn nodi rhai o'r materion allweddol oedd wedi codi ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

*Adroddwyd* ymhellach:

- bod Bethan Hughes wedi ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ôl paratoi'r adroddiad ysgrifenedig, a llongyfarchodd hi ar ei phenodiad.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn oedd yn cyd-fynd â gofynion y protocol.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

*Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026.

*Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Prif Weithredwr.

*Adroddwyd*:

- bod yr eitem gyntaf ar y daflen weithredu – *Y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad diweddaru ar y protocol enwebu Aelodau gan Awdurdodau lleol* – bellach wedi ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru; byddai diweddariad ar y mater yn dod gerbron yr Aelodau'n fuan, a gellid ei dynnu oddi ar y daflen; a
- bod yr ail eitem – *Y Prif Weithredwr i gyflwyno ffigyrau ar "Faint llai o arian mae'r Awdurdod wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf?"* – wedi ei gwblhau, a byddai e-bost yn cael ei anfon yn union ar ôl Etholiad y Senedd.

*Argymhellwyd*: – tynnu'r ddwy eitem oddi ar y Daflen.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

8. **Calendr o Gyfarfodydd 2026/27**

*Cyflwynwyd* amserlen o gyfarfodydd am y cyfnod 2026-27.

9. **Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Eryri**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Swyddog Bioamrywiaeth

*Adroddwyd*:

- bod y ddogfen yn statudol ofynnol, ei bod yn ddogfen ddeinamig a allai newid, ei bod yn cyd-fynd â *Chynllun Eryri*, a'i bod yn gosod sylfaen gref y gellid adeiladu arni;
- ar strwythur y ddogfen;
- ar 6 prif amcan CGAN Cymru;
- bod drafft cyntaf wedi ei greu yn 2024 a bod grŵp tasg wedi ei ffurfio yn dilyn hynny;
- mai prif nod CGAN Eryri oedd "cynyddu amrywiaeth a helaethrwydd byd natur a gwella gwytnwch ecolegol ledled Eryri" a bod hwn yn cyd-fynd â Chynllun Eryri ac yn plethu'r ddau gynllun gyda'i gilydd;
- ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ar y drafft yn 2025;
- mai'r bwriad oedd:

  - cyhoeddi'r ddogfen
  - creu amserlen oedd yn rhoi trosolwg o'r targedau i'w cyrraedd dros y pum mlynedd nesaf
  - datblygu camau gweithredu penodol ar gyfer pob "Proffil Cynefin Eryri".

*Nodwyd*:

- mai adferiad natur oedd prif bwrpas yr Awdurdod;
- y byddai rhywogaethau o ddiddordeb arbennig yn cael eu hychwanegu i'r cynllun gyda chymorth partneriaid ac y byddai rhestr ohonynt yn cael ei ychwanegu fel atodiad i'r cynllun;
- bod cael ffigyrau o'r sefyllfa bresennol yn anodd oherwydd diffyg data ac adnoddau, ond roedd yn fwriad cael data gan gymdeithasau cyhoeddus eraill;
- bod cydweithredu gydag amaethwyr wrth ddatblygu'r gweithredoedd hyn yn bwysig;
- dylid ystyried beth allai ymwelwyr wneud i gyfrannu at adfer natur;

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n trafod y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun ar gyfer ei gyflwyno a'i fabwysiadu.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

10. **Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol

*Adroddwyd*:

- nad oedd y Strategaeth yn ddogfen statudol, ei bod yn cael ei chreu law yn llaw â Chynllun Eryri a Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod i greu fframwaith clir, cynaliadwy a fyddai'n cynorthwyo staff i atal dyblygu a defnyddio terminoleg gyson ar draws yr Awdurdod;
- bod y gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen ers mis Mai 2025 a bod mewnbwn a chyngor wedi'i dderbyn gan ystod eang o adrannau, gan gynnwys aelodau staff, y Tîm Arweinyddiaeth a Fforwm Eryri;
- bod fersiwn o'r Strategaeth wedi ei gyflwyno i gyfarfod Gweithgor Aelodau'r Awdurdod ym mis Ionawr 2026 a bod rhai newidiadau wedi eu mewnbynnu i'r ddogfen yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gan gynnwys:
  - nodi rhanddeiliaid ychwanegol
  - cyfeirio at Gonfensiwn Aarhus 1998
  - hyfforddiant i Aelodau a staff fel rhan o'r broses
- bod atodiadau wedi'u cynnwys ar ddiwedd y ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn ddogfen fyw a gweithredol.

*Nodwyd*:

- dylid cydweithio gyda grwpiau unigol gan ddarganfod angenrheidiau pob grŵp unigol yn hytrach na gweithio gyda'r holl grwpiau fel torf;
- bod gan yr Awdurdod Swyddog Pobl Ifanc i gryfhau ymgysylltu gyda phobl ifanc.

*Argymhellwyd*: – bod yr aelodau'n derbyn y ddogfen iddi gael ei mabwysiadu fel Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Datganiad Cyfrifon 2023/24**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid

*Adroddwyd*:

- mai'r rhain oedd cyfrifon terfynol 2023/24;
- bod oedi wedi bod oherwydd llithriad yn y gorffennol a'i fod yn her fawr i ddal i fyny;
- mai tîm bychan oedd yr adran gyllid a'u bod wedi gweithio'n galed i baratoi'r cyfrifon, a'u bod hefyd wedi cael cymorth allanol.

*Argymhellwyd*: – bod:

1. yr Aelodau'n derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.
2. yr Aelodau'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.
3. yr Aelodau'n awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau.

*Gwahoddwyd* swyddogion o Archwilio Cymru i gyflwyno eu hadroddiad cyn pleidleisio ar yr argymhelliad.

12. **ISA 260**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan Matthew Edwards a Daniel Price o Archwilio Cymru

*Adroddwyd*:

- eu diolchgarwch i'r adran gyllid am eu cydweithrediad drwy'r holl broses;
- eu bod yn cyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon;
- bod ansawdd y cyfrifon wedi gwella eleni a bod hynny'n rhoi'r Awdurdod mewn lle gwell i ddal i fyny wrth baratoi cyfrifon 24/25 a 25/26.

*Nodwyd*:

- bod adroddiad Archwilio Cymru ar dudalen 8 o'u hadroddiad Saesneg yn datgan eu bod yn bwriadu cyhoeddi "a **qualified** audit opinion on this year's accounts", ond mai'r cyhoeddiad cywir oedd "an **unqualified** audit opinion". (Roedd yr adroddiad Cymraeg yn gywir.)
- mewn ymateb i sylw ei fod yn hollbwysig i'r Awdurdod geisio sicrhau bod y cyfrifon yn amserol, nid lleiaf oherwydd enw da'r Awdurdod, *cynigiwyd* y dylid ychwanegu pwynt arall i'r Argymhelliad, sef bod adroddiad diweddaru ar gyfrifon 24/25 a 25/26 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2026.

*Argymhellwyd*: – bod:

1. yr Aelodau'n derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.
2. yr Aelodau'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.
3. yr Aelodau'n awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau.
4. Adroddiad diweddaru ar Gyfrifon 2024/25 a 2025/26 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Awdurdod mis Medi 2026.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

13. **Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

*Adroddwyd*:

- bod Archwilio Cymru wedi canfod fod yr Awdurdod yn brin o ddull cyson, wedi'i amserlennu, o adolygu ei bolisïau corfforaethol a'i ddogfennau llywodraethu, a oedd yn lleihau'r ddibyniaeth bod polisïau a dogfennau llywodraethu'r Awdurdod yn gyfredol;
- bod yr Awdurdod, mewn ymateb, wedi cynhyrchu Cofrestr o Bolisïau Corfforaethol gydag amserlen adolygu i bob polisi;
- mai'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth yma oedd y cyntaf o'r polisïau i gael ei adolygu;
- bod enghreifftiau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad i'w wneud yn fwy dealladwy.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n:

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi.
2. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd drafft diwygiedig i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

14. **Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

*Adroddwyd*:

- mai'r polisi yma oedd yr ail bolisi i gael ei adolygu a'i fod yn gysylltiedig â'r cyntaf;
- bod y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i hadolygu ac nad oedd angen newidiadau sylweddol i'r polisi, ond bod enghreifftiau wedi'u hychwanegu er mwyn eglurdeb.

*Awgrymwyd*:

- ystyried cael unigolyn yn Bencampwr y polisi a chael person unigol y gall pobl fynd ato gyda'u pryderon:
- bod yr Awdurdod yn ystyried creu cwrs hyfforddi ar-lein ar y mater.

*Nodwyd:*

- nad oedd y polisi yma'n glwm i'r polisi blaenorol yn unig, a bod modd seinio rhybudd ar faterion ehangach na materion gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n:

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi.
2. Cymeradwyo'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) drafft diwygiedig i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

15. **Llythyr Grant Strategol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr

*Adroddwyd*:

- nad oedd Rhaglen Llywodraethu benodol ar gyfer y flwyddyn nesaf eto oherwydd Etholiad y Senedd;

- bod y llythyr yn gosod allan yr un blaenoriaethau ag yr oedd yr Awdurdod wedi bod yn gweithredu dros y flwyddyn ddiwethaf.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad yn enwedig cynnwys y llythyr sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

16. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27 (Drafft)**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

*Adroddwyd*:

- bod y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn bwydo i mewn i Amcanion Llesiant yr Awdurdod ac i'r gwaith a wneid mewn ymateb i'r Llythyr Grant Strategol;
- ei bod yn rhaglen aeddfed gan fod yr Amcanion Llesiant wedi eu mabwysiadau ers rhai blynyddoedd bellach;
- bod yr Awdurdod wedi cytuno ymestyn cyfnod yr Amcanion Llesiant presennol er mwyn ymgorffori Amcanion Llesiant newydd yr Awdurdod i Gynllun Eryri y flwyddyn nesaf;
- byddai adroddiadau cynnydd ar weithredu'r Rhaglen yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn;
- byddai adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar ddiwedd y broses.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2026-27.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

17. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

*Adroddwyd*:

- mai hwn oedd yr ail adroddiad blynyddol mewn ymateb i ofyniad statudol i gynnwys undebau llafur yn natblygiad amcanion llesiant a chynlluniau strategol yr Awdurdod;
- nad oedd llawer i'w adrodd oherwydd bod yr Awdurdod wrthi'n adolygu'r amcanion llesiant;
- bod gan yr Awdurdod berthynas dda gyda'r undebau llafur eisoes a bod llawer o'r gwaith yma'n mynd rhagddo eisoes;
- bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am y Fforwm Staff gan ei fod yn ffordd dda i gysylltu â nifer o staff nad oeddent yn aelodau o undeb llafur.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n trafod cynnwys yr adroddiad hwn ac, os cytunir, y gellir ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau**

*Cyflwynwyd* adroddiadau cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr a 25 Chwefror 2026 er gwybodaeth.

*Penderfynwyd* **nodi'r** adroddiadau.

19. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

*Adroddwyd*:

- bod Salamatu Fada wedi mynychu cyfarfod o Banel Ffermio Bro, a bod y cyfarfod yn un da, cadarnhaol a rhyngweithiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:35**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

**CYFARFOD YR AWDURDOD –**

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Eitem Rhif 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Penodi Aelodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Gwahoddir yr Awdurdod i enwebu Aelodau i wasanaethu ar ei Bwyllgorau, ei Baneli, ei Weithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yng nghyfarfodydd sefydliadau eraill am y flwyddyn sydd i ddod.

1.2 Mae pob Pwyllgor, Panel a Gweithgor yn gwbl wag ac eithrio'r Pwyllgor Safonau, oherwydd penodwyd Aelodau'r Pwyllgor hwnnw am gyfnod o 4 blynedd. Cynhwysir enwau'r aelodau blaenorol (*mewn italics llwyd*), er gwybodaeth yn unig, i gynorthwyo'r aelodau.

1.3 Atgoffir yr Aelodau bod cyfansoddiad y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau wedi'i drefnu fel bod y gyfran o Aelodau Awdurdod Lleol ac Aelodau wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru ar yr un raddfa ag ar yr Awdurdod ei hun (2:1), cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol wrth weithio gyda rhifau cyfan.

## 2. ARGYMHELLIAD:

**Penodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau, y Paneli, y Gweithgorau a'r sefydliadau allanol sy'n dilyn.**

## 1. PWYLLGORAU

1.1 **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

1.2 **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (3 chyfarfod y flwyddyn)

1.3 **Pwyllgor Safonau** — 3 Aelod o'r Awdurdod – am gyfnod o 4 blynedd (2 gyfarfod y flwyddyn)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

(1) Cyng. Elfed Powell Roberts (hyd at 14/06/26)
(2) Cyng. Nia Owen (hyd at 12/11/28)

1 gan Lywodraeth Cymru:

(1) Ms Naomi Luhde-Thompson (hyd at 12/11/28)

3 Aelod Annibynnol:

(1) Mr Mark Jones (hyd at 25/04/28)
(2) Mr Robert Gwilym Evans (hyd at 29/04/29)
(3) Gwag

## 2. PANELI

2.1 **Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl** — 3 Aelod + 2 Aelod Wrth Gefn (cwrdd fel bo'r angen)

Dylid dethol yr Aelodau a'r Aelodau wrth gefn o'r Pwyllgor Safonau, a chael eu dewis gan y Pwyllgor hwnnw

2.2 **Paneli Ymweld**

*Gogledd*

*(1) Cyng. Edgar Wyn Owen*
*(2) Cyng. Einir Wyn Williams*
*(3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd*
*(4) Cyng. Jo Nuttall*
*(5) Cyng. Nia Owen*
*(6) Mr Rhys Evans*
*(7) Dr Salamatu Fada*
*(8) Ms Naomi Luhde-Thompson*
*(9) Mr Wyn Thomas*

*De*

*(1) Cyng. Elwyn Edwards*
*(2) Cyng. Delyth Lloyd Griffiths*
*(3) Cyng. Annwen Hughes*
*(4) Cyng. Louise Hughes*
*(5) Cyng. Elfed Powell Roberts*
*(6) Cyng. John Pughe Roberts*
*(7) Cyng. Meryl Roberts*
*(8) Mr Tim Jones*
*(9) Ms Delyth Lloyd*

**2.3 Panel Ymgynghorol Ffermio Bro**

*(1) Dr Salamatu Fada*
*(2) Mr Tim Jones (dirprwy)*

3. **GWEITHGORAU**

3.1 **Gweithgor Aelodau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

3.2 **Cyd Weithgor Lleol** — 4 Aelod (2 Gyfarfod y flwyddyn)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

*(1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd*
*(2) Cyng. Elwyn Edwards*
*(3) Cyng. Einir Wyn Williams*

1 gan Lywodraeth Cymru:

*(1) Ms Naomi Luhde-Thompson*

4 Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur wedi'u dyrannu yn ôl Cyfansoddiad y Gweithgor

3.3 **Bwrdd Rheoli Yr Ysgwrn** — 3 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

*(1) Cyng. Elfed Powell Roberts*
*(2) Cyng. Elwyn Edwards*

1 gan Lywodraeth Cymru:

*(1) Ms Naomi Luhde-Thompson*

3.4 **Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** — 3 Aelod o'r Awdurdod (Cwrdd fel bo'r angen)

*(1) Cyng. Meryl Roberts*
*(2) Mr Tim Jones*
*(3) Cyng. Elfed Powell Roberts*

**4. PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD**

4.1 **Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn** — 4 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

*(1) Cyng. Elwyn Edwards*
*(2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd*
*(3) Cyng. John Pughe Roberts*

1 gan Lywodraeth Cymru:

*(1) Mr Rhys Evans)*

4.2 **Fforwm Eryri** — 5 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

Cadeirydd

Is-gadeirydd

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

*(1) Cyng. Annwen Hughes*
*(2) Cyng. Meryl Roberts*

1 gan Lywodraeth Cymru:
*(1) Ms Delyth Lloyd*

4.3 **Fforymau Mynediad Lleol** — 2 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y De:
*(1) Cyng. John Pughe Roberts*

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y Gogledd:
*(1) Mr Tim Jones*

4.4 **Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (CBC)** — 1 Aelod o'r Awdurdod

Un aelod i'w ddewis o:

(i) Gadeirydd yr Awdurdod
(ii) Is-gadeirydd yr Awdurdod
(iii) Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
(1) Cadeirydd yr Awdurdod

4.5 **Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC)** — Cadeirydd yr Awdurdod

Mae'r Cadeirydd wedi ei gyfethol i'r is-bwyllgorau isod:

(i) Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant
(ii) Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

## 5. GRWPIAU TASG A GORFFEN A GRWPIAU LLYWIO

5.1 **Is-grŵp Asedau** — 6 Aelod o'r Awdurdod

*(1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd*
*(2) Cyng. Meryl Roberts*
*(3) Cyng. Einir Wyn Williams*
*(4) Cyng. Nia Owen*
*(5) Mr Tim Jones*
*(6) Mr Wyn Thomas*

5.2 **Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a Newid Hinsawdd** — 5 Aelod o'r Awdurdod

*(1) Cyng. John Pughe Roberts*
*(2) Cyng. Einir Wyn Williams*
*(3) Mr Tim Jones*
*(4) Ms Naomi Luhde-Thompson*
*(5) Dr Salamatu Fada*

5.3 **Grŵp Llywio Enwau Lleoedd** — 3 Aelod o'r Awdurdod

*(1) Cyng. Elwyn Edwards*
*(2) Ms Delyth Lloyd*
*(3) Cyng. Nia Owen*

**6. CYRFF ERAILL**

6.1 **Grŵp Budd-ddeiliad Safle Trawsfynydd** (1 Aelod) – *Ms Delyth Lloyd*

6.2 **Cyd Gyngor Cymru** (1 Aelod) – *Cyng. Louise Hughes*

6.3 **Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol** – Cytunwyd bod 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynrychioli gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru

6.4 **Y Gynghrair dros Dirweddau Dynodedig Cymru** (1 Aelod) – *Mr Tim Jones*

6.5 **Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** (1 Aelod) – *Cyng. Louise Hughes*

6.6 **AGA Pen Llŷn a'r Sarnau** (1 Aelod) – *Cyng. Louise Hughes*

6.7 **Grŵp Darparu Trafnidiaeth, Parcio a Theithio Llesol Eryri** (1 Aelod) – *Cyng. Einir Wyn Williams*

6.8 **Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni** (1 Aelod) – *Cyng. Elfed Powell Roberts*

6.9 **Partneriaeth Biosffer Dyfi** (1 Aelod) – *Cyng. Louise Hughes*

6.10 **Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** (1 Aelod) – *Cyng. Meryl Roberts (Cyng. Delyth Lloyd Griffiths wrth gefn)*

**Eitem Rhif 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Presenoldeb Aelodau** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Awdurdod wedi gofyn yn flaenorol i adroddiad blynyddol gael ei baratoi yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau. Isod, nodir manylion presenoldeb o'r fath ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 i'w hystyried gan yr Awdurdod. Mae'r manylion wedi'u torri lawr i ddangos presenoldeb aelodau unigol yn yr Awdurdod, y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Safonau. Lle nad yw aelod wedi gallu bod yn bresennol oherwydd ei fod ef neu hi wedi bod i ffwrdd ar fusnes yr Awdurdod, nodir hyn yn y cofnod presenoldeb.

## 2.0 PRESENOLDEB AELODAU 01.04.25 – 31.03.26

| Pwyllgor | Awdurdod | Cynllunio a Mynediad | Perfformiad ac Adnoddau |
|---|---|---|---|
| **Nifer y Cyfarfodydd:** | 5 | 9 | 3 |

| Aelodau | Mynychwyd | | |
|---|---|---|---|
| Cyng. Elwyn Edwards | 5 | 9 | 3 |
| Cyng. Delyth Lloyd Griffiths | 5 | 7 | 3 |
| Cyng. Annwen Hughes | 3 | 9 | 3 |
| Cyng. Louise Hughes | 4 | 4 | 1 |
| Cyng. Edgar Wyn Owen | 5 | 8 | 3 |
| Cyng. Elfed Powell Roberts | 4 | 9 | 3 |
| Cyng. John Pughe Roberts | 4 | 9 | 2 |
| Cyng. Meryl Roberts | 5 | 8 | 3 |
| Cyng. Einir Wyn Williams | 4 | 6 | 2 |
| Cyng. Ifor Glyn Lloyd | 4 | 4 | 2 |
| Cyng. Jo Nuttall | 4 | 6 | 3 |
| Cyng. Nia Owen | 4 | 8 | 3 |
| Mr. Brian Angell<br>*(gadawodd 30/06/25)* | 2<br>*(o 2 posib)* | 3<br>*(o 3 posib)* | 0<br>*(o 0 posib)* |
| Mr. Rhys Evans | 5 | 8 | 3 |
| Dr. Salamatu Fada<br>*(penodwyd 01/07/25)* | 3<br>*(o 3 posib)* | 5<br>*(o 6 posib)* | 1<br>*(o 3 posib)* |
| Mr. Tim Jones | 5 | 6 | 3 |
| Ms. Naomi Luhde-Thompson | 3 | 7 | 3 |
| Ms. Delyth Lloyd | 5 | 9 | 3 |
| Mr. Wyn Thomas | 5 | 7 | 3 |

| Pwyllgor | Safonau 11/04/25 | Safonau 19/09/25 | Safonau 27/03/26 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyng. Elfed Powell Roberts | ✓ | ✓* | ✓ | 3 |
| Cyng. Nia Owen | ✓ | ✓ | ✓* | 3 |
| Ms Naomi Luhde-Thompson | ✓* | ✓ | ✓ | 3 |

* Gofynnwyd i'r Aelod beidio â mynychu er mwyn sicrhau cworwm ond caiff ei ystyried fel yn bresennol ar gyfer yr ystadegau.

## 3.0 PRESENOLDEB CYFARTALOG 01.04.25 – 31.03.26

3.1 Fel rhan o'r adroddiad hwn rwyf hefyd wedi casglu gwybodaeth am y presenoldeb cyfartalog cyffredinol mewn termau canrannol yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau a nodir hyn isod. Rwyf hefyd wedi cynnwys canran presenoldeb ar gyfer blynyddoedd blaenorol at ddibenion cymharu.

**PRIF GYFARFODYDD A DREFNWYD / WEINYDDWYD 01.04.25 – 31.03.26**

| CYFARFOD | CYNHALIWYD | PRESENOLDEB GANRIF |
|---|---|---|
| Awdurdod | 5 | 88% |
| Cynllunio a Mynediad | 9 | 82% |
| Perfformiad ac Adnoddau | 3 | 87% |
| Pwyllgor Safonau | 3 | 100% |
| **CYFANSWM** | **20** | **85%** |

| CYFARFOD | NIFER | 25-26 | 24-25 | 23-24 | 22-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod | 5 | 88% | 90% | 86% | 81% |
| Cynllunio a Mynediad | 9 | 82% | 89% | 86% | 81% |
| Perfformiad ac Adnoddau | 3 | 87% | 68% | 80% | 85% |
| Pwyllgor Safonau | 2 | 100% | 100% | 83% | 67% |
| **CYFANSWM** | **20** | **85%** | **84%** | **85%** | **81%** |

3.2 Fel y gwelir mae'r canran presenoldeb cyffredinol yn amrywio o 82% ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i 88% ac 87% ar gyfer yr Awdurdod a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau gyda chyfartaledd cyffredinol o 85%. Mae'r ffigyrau'n dangos cysondeb mewn presenoldeb o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

**Eitem Rhif 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS** | Cytuno a nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol |

**CEFNDIR**

1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dwy swyddogaeth gyffredinol sef:
   1.1. Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod
   1.2. I gynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod i gydymffurfio â chod ymddygiad yr Awdurdod.
2. Mae gan y Pwyllgor Safonau y swyddogaethau penodol canlynol hefyd:
   2.1. Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu, neu ddiwygio, codau ymddygiad yr Awdurdod
   2.2. Monitro gweithrediad codau ymddygiad yr Awdurdod
   2.3. Cynghori ar hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod
   2.4. Ystyried a lle bo'n briodol penderfynu ar faterion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
   2.5. Ystyried Cwynion yn erbyn Aelodau ac Aelodau cyfetholedig
   2.6. Rhoi goddefebau i aelodau neu aelodau cyfetholedig sydd â buddiant personol mewn unrhyw fusnes yr Awdurdod
   2.7. Awdurdodi taliadau gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â lwfansau a threuliau i bersonau sydd wedi cynorthwyo mewn ymchwiliad gan y Swyddog Monitro
   2.8. Sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gŵynion a gyfeirir ato i'w hystyried.
3. Yn olaf, mae gan y Pwyllgor Safonau rai swyddogaethau staff hefyd, sef fel apêl fewnol derfynol ar faterion disgyblu ac fel apêl derfynol ar gwynion neu ar amodau gwasanaeth.
4. Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Awdurdod Lleol, un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a thri Aelod Annibynnol sef Mr Mark Jones (Cadeirydd) a Mr Robert Gwilym Lewis (Is-gadeirydd) gydag un swydd wag rydym yn ceisio penodi iddi ar hyn o bryd. Yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu

Pwyllgorau Safonau, mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi'u penodi o blith yr Aelodau Annibynnol.

## DYLETSWYDD STATUDOL YCHWANEGOL

5. O fis Mai 2022 ymlaen, mae cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dyletswydd statudol ychwanegol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni a rhoi trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.
6. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi paratoi'r adroddiad hwn, ac mae drafft wedi'i ddosbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Awdurdod.
7. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod neu yn ei absenoldeb bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cyflwyno'r adroddiad.
8. Cyhoeddwyd canllawiau mewn perthynas â pharatoi’r Adroddiad Blynyddol sy’n nodi bod yn rhaid i’r adroddiad:
    - 8.1. ddisgrifio sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.
    - 8.2. gynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch ymchwilio i honiadau o dorri cod ymddygiad yr aelodau , ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor.
    - 8.3. gynnwys crynodeb o hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, yn ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri cod ymddygiad yr aelodau.
    - 8.4. ddisgrifio'r cyngor y mae wedi'i ddarparu ar hyfforddiant i bob aelod a sut y mae hynny wedi'i weithredu.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

9. Mae’r Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn, ac wedi ystyried hyfforddiant aelodau ar y ddau achlysur.
10. Nid oes unrhyw faterion wedi’u cyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i honiadau o dorri’r cod ymddygiad aelodau fel aelodau o’r Awdurdod hwn.
11. Nid oes unrhyw achosion wedi bod yn ystod y flwyddyn lle mae gweithdrefn Datrysiad Lleol Aelodau'r Awdurdod wedi'i defnyddio.
12. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn codi o hynny, ystyriodd y Pwyllgor Safonau y dylid anfon gwybodaeth at aelodau ar fater penodol a oedd wedi codi mewn Awdurdod arall i godi ymwybyddiaeth ac i hysbysu aelodau bod hyfforddiant pellach ar y materion a godwyd ar gael ar gais. Yn dilyn hynny, dosbarthwyd e-bost i holl aelodau'r Awdurdod.
13. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau hefyd Adroddiad Monitro Cwynion a roddodd gipolwg ar natur y cwynion a dderbyniwyd ac a oedd unrhyw batrymau sefydledig yn dod i'r amlwg.
14. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ostyngiadau i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar faterion mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig.

15. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau hefyd adroddiad yn monitro datganiadau o fuddiannau a wnaed gan aelodau fel rhan o'i gylch gwaith o fonitro gweithrediad y cod ymddygiad.

16. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau ddau bolisi drafft wedi'u diweddaru a rhoddwyd cyfle iddynt awgrymu gwelliannau iddynt cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan yr Awdurdod sef y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r Polisi Chwythu'r Chwiban/Seinio Rhybudd.

17. Yn olaf, mynychodd aelodau'r Pwyllgor Safonau sesiwn hyfforddi ar Apeliadau Statws Sengl hefyd.

**ARGYMHELLIAD**

1. Trafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.

**Eitem Rhif 14**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Safonau'r Iaith Gymraeg** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Adroddiad Monitro Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar 30 Medi 2015, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y safonau yn unol â gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1. Safonau'r Iaith Gymraeg: Adroddiad Monitro 2025/26.

# Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad Monitro 2025/26

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.

1.2 Fel sy'n ofynnol bob blwyddyn, mae'r Adroddiad Monitro hwn yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ariannol 2025-26, ac yn adrodd ar sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda, ac wedi perfformio yn erbyn bob un o'r 162 o'r Safonau a osodwyd arno.

1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin bob blwyddyn ar gyfer cael ei gymeradwyo, cyn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei rhoi i'r Adroddiad Blynyddol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.

1.4 Y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer sydd gyda'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weithredu'r safonau, a dylid cysylltu yn uniongyrchol trwy yrru e-bost at parc@eryri.llyw.cymru neu drwy ffonio 01766 772530 i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn.

## 2. Crynodeb Gweithredol

2.1. Yn ystod 2025-26, hysbysebwyd 40 o swyddi newydd neu wag yn ystod y flwyddyn, a chafodd pob un ohonynt eu dosbarthu fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Ar ôl cael eu penodi, roedd gan bawb ond un y lefelau sgiliau iaith Gymraeg gofynnol ar gyfer eu rolau priodol. I'r unigolyn nad oedd wedi cyrraedd y lefel ofynnol, roeddent wedi gallu gwneud hynny erbyn diwedd eu cyfnod prawf.

2.2 Ar y 31ain o Fawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod 139 o staff, ac roedd 132 ohonynt yn gallu cyflawni dyletswyddau eu swydd yn ddwyieithog, sef 95%.

2.3 Rydym yn parhau i weithio'n rhagweithiol i sicrhau ein bod yn cynnal y lefelau sgiliau gofynnol o fewn ein gweithlu, boed yn uniongyrchol trwy swyddi hyfforddeion graddedig neu drwy waith uniongyrchol, gyda phwyslais arbennig ar y genhedlaeth iau, i hyrwyddo gwerth datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.

2.4 Eleni, fel aelod gweithredol o is-grŵp yr Iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Rhanbarth y Gogledd, dechreuon ni weithio ar brosiect Chwalu Mythau.

2.5 Casglodd y prosiect y mythau a'r rhagdybiaethau sy'n bodoli ynglŷn â gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, boed mewn sefydliadau cyhoeddus neu yn y gymuned ehangach. Yn dilyn casglu profiadau pobl o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, crëwyd adnoddau creadigol a hygyrch sy'n dangos profiadau gwirioneddol pobl sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

2.6 Yn aml, mae pobl yn teimlo nad yw eu Cymraeg yn "ddigon da" i weithio mewn amgylchedd Cymraeg, i wneud cais am swydd sy'n gofyn am yr iaith Gymraeg, neu nad oes unrhyw werth gwirioneddol mewn defnyddio'r iaith yn broffesiynol. Trwy gyfres o weithdai, cyfweliadau a grwpiau ffocws, mae Herio Mythau yn rhoi llwyfan i leisiau lleol rannu eu profiadau a herio'r canfyddiadau hynny.

2.7 Bydd y prosiect yn cael ei lansio'n swyddogol yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn ar ddydd Llun, 25ain o Fai 2026, ac yna gall yr Awdurdod ddefnyddio'r deunyddiau hyrwyddo ochr yn ochr â'n hymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol.

2.8 Mae'r gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo defnydd enwau Cymraeg drwy safoni enwau lleoedd Eryri wedi parhau eleni. Mae dros 6,000 o enwau tirwedd wedi'u casglu hyd yma drwy amrywiol ffynonellau gan gynnwys sesiynau cyhoeddus. Comisiynwyd arddangosfa gelf i ddehongli arwyddocâd yr enwau, a fydd yn teithio ledled Gogledd Cymru o fis Ionawr 2026 ymlaen.

2.9 Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, cynhaliwyd gweithdy ar y 26ain o Ionawr 2026 ar Berthyn, lle'r oedd yn galonogol gweld bod yr iaith Gymraeg yn amlwg iawn. Fe'i nodwyd fel un o'r meysydd allweddol sy'n cysylltu pobl â'u cymuned, ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i'r adolygiad o Gynllun Eryri ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod a fydd yn digwydd yn ystod 2026/27.

2.10 Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn ystyried Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg o'r enw 'Cyfle ein Cenhedlaeth: Sefyllfa'r Gymraeg 2021-25' ac yn benodol sut y gallwn ymgorffori'r tri phrif gyfle a nodwyd yn yr adroddiad.

2.11 Ar wahân i'r ychydig uchafbwyntiau a amlinellwyd uchod sy'n rhoi blas o'r ystod o waith a wneir gan yr Awdurdod wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg, mae'r Awdurdod yn parhau i gofleidio a gweithredu gofynion safonau'r iaith Gymraeg yn llawn.

2.12 Mae'r iaith Gymraeg wedi'i hymgorffori yn niwylliant a gwead yr Awdurdod ers ei sefydlu. Mae'r staff yn ymfalchïo yn y gallu i weithio bob dydd drwy'r iaith Gymraeg ac maent bob amser yn gefnogol i'w hyrwyddo a'i datblygiad o fewn Eryri.

## 3. Safonau Cyflawni Gwasanaeth

3.1 Gohebiaeth (Safonau 1-7): Mae'r Awdurdod yn anfon gohebiaeth yn iaith ddewisol y derbynnydd, neu mewn achosion pan nad yw hyn yn hysbys, anfonir fersiwn ddwyieithog o'r ohebiaeth.

3.2 Pan anfonir gohebiaeth ddwyieithog, ymdrinnir â'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal drwy sicrhau eu bod yn ymddangos ochr yn ochr (pan fo hyn yn bosibl), gyda'r un ffont a maint yn cael eu defnyddio yn y ddwy iaith. Ar adegau prin pan gynhyrchir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn union yr un fath o ran ffont a maint, gan gynnwys manylion cyswllt, llofnodion ac ati.

3.3 Galwadau Ffôn (Safonau 8-22): Mae'r holl staff sy'n gweithio ym mhrif dderbynfeydd yr Awdurdod a'r Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog ac yn unol â hynny, yn gallu ymdrin â phob ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg fel pwynt cyswllt cyntaf.

3.4 Mae gan yr Awdurdod ddewislen awtomatig ar y prif rif cyswllt, sy'n rhoi dewis i symud ymlaen yn Gymraeg neu’n Saesneg. Yna rhoddir dewisiadau ar y ddewislen yn yr iaith a ddewiswyd. Mae'r neges a recordiwyd ymlaen llaw ar gyfer galwadau y tu allan i oriau gweithio arferol yn ddwyieithog gyda'r neges yn Gymraeg yn cael ei throsglwyddo yn gyntaf.

3.5 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gyfarch y sawl sy'n ffonio gyda chyfarchiad dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf) neu gyda chyfarchiad niwtral, gan sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

3.6 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i adael neges ddwyieithog ar eu peiriannau ateb, gyda’r neges yn y Gymraeg yn cael ei chwarae yn gyntaf. I'r rhai nad ydynt wedi gosod neges ar y peiriant ateb, chwaraeir cyfarchiad Cymraeg safonol, a recordiwyd gan un o staff y dderbynfa, yn gofyn i'r galwr adael neges yn lle hynny.

3.7 Gan fod y rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, ymdrinnir gydag unrhyw alwadau gan siaradwyr Cymraeg ar y pwynt cyswllt cyntaf. O ran y staff nad ydynt yn gwbl abl i gynnal sgwrs lawn yn y Gymraeg yn hyderus, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr yn ddi-oed.

3.8 Cyfarfodydd (Safonau 23-38): Rhaid i bob cyfarfod a drefnir gydag unigolyn gael ei gynnal yn iaith ddewisol yr unigolyn, a bydd y trefniant hwn yn parhau. Ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer grŵp o unigolion, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw rai di-Gymraeg sy'n bresennol (oni bai bod yr holl wahoddedigion yn ddi-Gymraeg, ac os felly, cynhelir y cyfarfod yn Saesneg).

3.9 Rhaid i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Awdurdod gael ei gynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a bydd y trefniant hwn yn parhau.

3.10 Mae holl bwyllgorau'r Awdurdod yn hybrid, gan roi'r dewis i'r Aelodau a'r staff i fynychu'n bersonol neu ar-lein. Ar gyfer aelodau'r cyhoedd, mae ganddynt bellach y dewis o arsylwi'r pwyllgorau hyn yn bersonol neu drwy gyfrwng y gwe-ddarllediad byw ar gyfer yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad neu'n ddiweddarach drwy'r sianel YouTube.

3.11 Mae pob cyhoeddusrwydd, deunyddiau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennaeth a gynhyrchir gan yr Awdurdod sy'n cael ei ddosbarthu mewn digwyddiadau cyhoeddus neu mewn cyfarfodydd yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

3.12 Dogfennaeth Gyhoeddus (Safonau 40-51): Mae holl ddogfennau cyhoeddus yr Awdurdod, gan gynnwys ffurflenni, naill ai'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf neu ar ochr chwith y ddogfen neu'n ddwy ddogfen – gyda'r Gymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn dogfennau ar wahân fel arfer pan gyhoeddir y dogfennau ar y wefan, ac mae brawddeg yn cael ei chynnwys ar y fersiwn Saesneg, yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael.

3.13 Y Wefan, Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol (Safonau 52-59): Mae gwefan ac apiau'r Awdurdod yn gwbl ddwyieithog gyda'r defnyddiwr yn gallu dewis iaith ar y dudalen gartref. Mae botwm togl ar bob tudalen ar y wefan y gellir ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad at yr iaith arall. Mae pob tudalen yn cyfateb yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith.

3.14 Nid oes gan yr Awdurdod fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol mwyach, ond yn hytrach un cyfrif dwyieithog ar gyfer pob platfform cyfryngau cymdeithasol. Mae pob postiadau yn ddwyieithog neu'n cael ei hailadrodd yn union yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae unrhyw negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg trwy gyfryngau cymdeithasol bob amser yn cael eu hateb yn Gymraeg.

3.15 Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 60): Mae holl beiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod yn y meysydd parcio yn gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg. Yr iaith ddiofyn sy'n cael ei harddangos yw Cymraeg bob amser gyda botwm ar y peiriant i newid i'r Saesneg.

3.16 Arwyddion (Safonau 61-63): Mae'r holl arwyddion a godir gan yr Awdurdod yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddwy iaith.

3.17 Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 64-68): Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r holl staff sy'n gweithio yn y prif dderbynfeydd neu yn y Canolfannau Croeso yn ddwyieithog. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos ym mhob derbynfa i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mae gan bob un o staff y dderbynfa fathodynnau 'Iaith Gwaith'.

3.18 Hysbysebion Swyddogol (Safonau 69-70): Pan fo'r Awdurdod yn cyhoeddi neu'n arddangos Hysbyseb Swyddogol maen nhw'n hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.

3.19 Cynlluniau Grant (Safonau 71-75): Mae'r Awdurdod wedi dod a nifer o gynlluniau grant at ei gilydd o dan faner gyfunol Cronfeydd Cymunedol Eryri, gyda'r prif bwrpas o gefnogi cymunedau bywiog a gwydn yn Eryri. Mae 3 haen i'r cronfeydd:

- Haen 1: Digwyddiadau lleol, gweithgareddau lles a mentrau cymunedol bach;
- Haen 2: Prosiectau seilwaith a datblygu cymunedol ar raddfa ganolig, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i effaith twristiaeth; a
- Haen 3: Prosiectau cyfalaf mawr sy'n cefnogi blaenoriaethau strategol cymunedau Eryri.

3.20 Mae'r holl ddogfennau, gan gynnwys y ffurflenni cais a'r nodiadau cyfarwyddyd yn gwbl ddwyieithog, ac mae'r ohebiaeth yn cael ei chynnal yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.

3.21 Yn ogystal, ar gyfer y grantiau hynny sydd ar gyfer prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gosodir amodau ar y grant i sicrhau bod yr holl weithgareddau a dogfennaeth a ariennir gan y grantiau yn gwbl ddwyieithog. Mae gan yr Awdurdod Bolisi Dyfarnu Grantiau ffurfiol mewn perthynas â'r goblygiadau iaith Gymraeg yn ei le.

3.22 Tendrau Cytundebau/ Contractau: Mae pob Hysbysiad Cyhoeddus fel Gwahoddiadau i Dendro neu ar gyfer Mynegi Diddordeb yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru.

3.23 Mae'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi cael eu prosesu a'u trin yn yr un modd â'r ceisiadau yn Saesneg, a gohebir yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.

3.24 Hunaniaeth Gorfforaethol a Hyrwyddo Gwasanaethau (Safonau 81-83): Mae hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod yn Gymreig ers mis Tachwedd 2024 pan gyflwynwyd logo newydd. Mae asedau electronig wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ail-frandio. Gan ystyried yr angen i wneud defnydd da o arian cyhoeddus, bydd asedau ffisegol yr Awdurdod yn cael eu diweddaru gyda'r logo newydd wrth iddynt ddod yn amser adnewyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

3.25 Nid yw’r Awdurdod yn darparu'r un gwasanaethau ar wahân yn y Gymraeg a’r Saesneg, ond yn hytrach yn cynnig gwasanaeth dwyieithog gydag un pwynt cyswllt. Mae unrhyw waith hyrwyddo’r gwasanaethau felly yn cael ei wneud yn ddwyieithog, oni bai eu bod yn defnyddio rhai sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd wedi ailadrodd postiadau yn y ddwy iaith, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb.

3.26 Cyrsiau Addysg (Safonau 84-86): Nid yw’r Awdurdod bellach yn rhedeg cyrsiau addysg gyhoeddus ym Mhlas Tan y Bwlch. Felly nid yw'r safon hon yn berthnasol i'r Awdurdod mwyach.

3.27 Y System Annerch Gyhoeddus (Safon 87): Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod unrhyw systemau annerch cyhoeddus ar waith ar draws ei adeiladau.

3.28 Cwynion perthnasol i Gydymffurfio â’r Safonau Cyflawni Gwasanaeth
Yn ystod y flwyddyn ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflawni Gwasanaethau.

## 4. Safonau Gwneud Polisi

4.1 Ffurfio Polisi a’r Ymgynghori Cysylltiol (Safonau 88-93): Gyda phob polisi strategol newydd* a ddatblygir (neu os caiff polisi presennol ei adolygu a'i ddiweddaru), bellach cynhelir Asesiad annibynnol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn llawn ar ddechrau'r broses llunio polisi. Mae'r asesiad effaith hwn wedyn yn rhan o'r broses ymgynghori gyhoeddus ar y polisi.

4.2 Yna caiff ei ddiwygio ymhellach os yw ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu ardrawiadau pellach a'u heffeithiau. Fel y bu erioed, bydd Aelodau'r Awdurdod hefyd yn cael cyfle i graffu ar y polisi arfaethedig ar wahanol adegau yn ystod y broses hon. Os canfyddir unrhyw effeithiau negyddol, gwneir gwaith pellach i nodi mesurau lliniaru. Byddai gan yr aelodau ran lawn yn y penderfyniad sydd a wnelo a yw'r mesurau lliniaru yn debygol o fod yn ddigonol a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r polisi neu beidio.

**Mae Polisi yn cael ei ddiffinio yn ei gyd-destun ehangach i gynnwys cynlluniau a strategaethau.*

4.3 Mae Dogfen Ganllaw ar gyfer staff yn ei lle sy'n amlinellu'r gofyniad i ofyn cwestiynau penodol ynglŷn ag ardrawiad / effaith (naill ai cadarnhaol neu negyddol) unrhyw gynnig ar y Gymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd i hybu'r iaith, ac fe aiff hwn allan gyda'r copi o'r asesiad effaith. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys enghreifftiau o eiriad priodol i'w ddefnyddio mewn gwahanol ddogfennau ymgynghori, sydd wedi'u dosbarthu i holl wasanaethau'r Awdurdod.

4.4 Dyfarnu Grantiau a Chomisiynu Ymchwil a Phrosiectau (Safonau 94-97): Mae'r angen i ystyried yr effaith (boed hynny'n negyddol neu'n gadarnhaol) ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei integreiddio'n llawn i mewn i brosesau'r Cronfeydd Cymunedol Eryri. Bydd amodau ychwanegol o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg, yn parhau i fod yn rhan o ofynion y gronfa.

4.5 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi
Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi.

## 5. Safonau Gweithredu

5.1 Ar yr 31ain o Fawrth 2026, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 139 o staff, gyda 132 ohonynt yn cael eu hystyried yn ddwyieithog ac yn gallu cyflawni gofynion ieithyddol eu rôl, sef 95%.

5.2 Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol (Safon 98): Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Awdurdod wedi sefydlu trwy arferiad a gweithrediad mai'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu fewnol, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel bo'r angen. Mae polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn awr yn ei le, sy'n ffurfioli'r arfer ac i gynorthwyo staff newydd gyda disgwyliadau gweithredol.

5.3 Dogfennaeth Staff (Safonau 99-104): Mae gan yr Awdurdod bolisi cwbl ddwyieithog yn ei le ar gyfer yr holl faterion adnoddau dynol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg yn safonol a'i rhoi i bob aelod o staff. Mae staff yn gallu gwneud cais i gael fersiwn Saesneg os dymunant. Mae unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan o bryd i'w gilydd gan y gwasanaeth adnoddau dynol at aelodau unigol o staff hefyd yn cael ei pharatoi'n Gymraeg yn unig fel rheol, ac yn achlysurol yn ddwyieithog.

5.4 Polisïau Adnoddau Dynol (Safonau 105-111): Mae pob polisi adnoddau dynol yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol.

5.5 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu (Safonau 112-119): Mae croeso i staff ohebu trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac ni fyddai unrhyw oedi cyn ymateb i ohebiaeth sy'n dod i law yn y naill iaith na'r llall. Mae pob gwrandawiad disgyblu neu apeliadau yn cael eu cynnal yn iaith ddewisol yr aelod o staff dan sylw, ynghyd â phob dogfennaeth a gohebiaeth berthnasol.

5.6 Meddalwedd Cyfrifiadurol (Safon 120): Mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod yn safonol ar bob cyfrifiadur a gliniadur staff, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg.

5.7 Mewnrwyd Staff (Safonau 121-126): Mae’r holl bolisïau a dogfennau sy’n cael eu uwchlwytho ar y fewnrwyd yn ddwyieithog neu gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân.

5.8 Asesiad Sgiliau (Safon 127): Ceir data o’r asesiad sgiliau staff yn Atodiad 1.

5.9 Hyfforddiant (Safonau 128-133): Darperir cyrsiau hyfforddiant cyffredinol trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser lle bo'n bosibl. Yn ystod 2025-26, mynychodd 42 aelod o staff gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

5.10 Rhoddir cymorth i weithwyr nad ydynt yn gallu cyfathrebu’n llawn yn Gymraeg neu sydd angen gwella eu sgiliau er mwyn bodloni gofynion y swydd i fynychu cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg, y gellir eu cyflawni yn ystod amser gwaith. Mynychodd un aelod o staff hyfforddiant ar-lein yn ystod y flwyddyn.

5.11 Llofnodion E-byst a Manylion Cyswllt (Safonau 134-135): Mae’r Awdurdod yn defnyddio bathodyn ‘Iaith Gwaith’ ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i’w osod fel rhan o’r llofnod e-bost. Mae’r holl fanylion cyswllt sy’n cael eu darparu fel rhan o’r llofnod yn hollol ddwyieithog, fel sy’n ofynnol yn y daflen ‘Cyfathrebu’n Glir’, yr arweinlyfr staff ar safonau gwasanaeth cwsmeriaid ac arddull safonol.

5.12 Swyddi Gwag a Recriwtio (Safonau 136-140): Yn ystod 2025-26, hysbysebwyd 39 o swyddi gwag. O’r rhain, dosbarthwyd pob un yn Gymraeg yn hanfodol, er bod yr union lefel sgil ar gyfer pob un o’r pedwar gofyniad (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu) yn amrywio ar gyfer pob rôl.

5.13 Mae gan yr Awdurdod fframwaith sgiliau iaith Gymraeg, sy’n graddio’r lefel sgil sydd ei hangen ym mhob swydd o 0 hyd at 5+ mewn 4 prif gategori, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth bellach yn sgorio pob swydd newydd neu wag gan ddefnyddio templed cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â dogfen ganllaw. Yna caiff y sgôr ei safoni gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, cyn derbyn cymeradwyaeth derfynol gan y Tîm Arweinyddiaeth. Mae ymgeiswyr bellach yn ymwybodol cyn gwneud cais, yr union lefel sgil sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

5.14 Mae pob hysbyseb recriwtio yn cael ei hyrwyddo ar wahanol sianeli cyfryngau cymdeithasol a safleoedd recriwtio fel Lleol.Cymru. Yn dibynnu ar y sianel, mae'r swyddi naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn defnyddio Webrecruit i dderbyn a phrosesu ceisiadau, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau ar-lein. Mae’r holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog e.e. ffurflen gais, disgrifiad swydd, manyleb person a ffurflen monitro cydraddoldeb. Cynhelir cyfweliadau swyddi yn Gymraeg.

5.15 Mae system Webrecruit yn anfon e-bost at ymgeiswyr am swyddi os ydynt wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais ac nad ydynt wedi cael eu dewis ar gyfer cyfweliad. Mae'r e-bost hwn yn Gymraeg a Saesneg. Anfonir llythyrau neu e-byst at ymgeiswyr am swyddi yn eu hysbysu o ganlyniad eu cyfweliad yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

5.16 Arwyddion Mewnol ac Anerchiadau (Safonau 141-144): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Nid oes gan yr Awdurdod system anerchiadau mewnol ar hyn o bryd.

5.17 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â Safonau Gweithredu
Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

## 6. Safonau Hybu

6.1. Hybu'r Iaith Gymraeg (Safonau 145-146): Ar yr 22ain o Fawrth 2023 mabwysiadodd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod Strategaeth newydd ar gyfer Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd.

6.2 Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i "o leiaf gynnal y nifer presennol o siaradwyr Cymraeg yn Eryri, ac i weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus i gynyddu'r niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf".

6.3 Fel y dangosodd ein Strategaeth flaenorol, er na allwn gysylltu effaith ein gweithgareddau hybu'r Gymraeg yn uniongyrchol gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn Eryri, mae digon o waith cadarnhaol y gallwn ei wneud o hyd a fydd yn dylanwadu ar y nifer cyffredinol. Gyda hyn mewn golwg, rydym hefyd wedi gosod ail darged o gynyddu nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Eryri. Mae'r targed hwn yn ystyrlon ac yn fesuradwy ac o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

6.4 Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â Chynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod sy'n cydnabod bod hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg yn elfen hanfodol o sicrhau cymunedau gwydn yn Eryri.

## 7. Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

7.1 Cadw Cofnodion am Gydymffurfiaeth gyda'r Safonau (Safonau 147-176): Cynhyrchwyd dogfen o'r enw 'Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', sydd ar gael yn swyddfeydd yr Awdurdod ac ar y wefan. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r holl Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod lynu atynt ac mae'n nodi sut y gall aelodau o'r cyhoedd gwyno ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau neu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth iaith Gymraeg a gynigir gan yr Awdurdod.

7.2 Mae'r Awdurdod wedi cadw cofnodion o’r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r Safonau, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

7.3 Mae’r Awdurdod bob amser yn ymateb yn brydlon i bob cais gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth pan gynhelir archwiliadau cydymffurfio.

## ATODIAD 1

### 1. Lefelau Sgiliau Staff - Trosolwg

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfarwyddiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Corfforaethol | 56 | 54 | 96% |
| Cynllunio a Phartneriaethau | 28 | 25 | 89% |
| Rheoli Tir | 55 | 53 | 96% |

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl graddfa'r swydd | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Tîm Arweinyddiaeth | 4 | 4 | 100% |
| Penaethiaid Gwasanaeth | 12 | 12 | 100% |
| Graddfa 7+ | 64 | 58 | 90% |
| Hyd at Radd 6 | 59 | 58 | 98% |

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys | 111 | 105 | 95% |
| Canolfannau Croeso | 7 | 7 | 100% |
| Staff Allanol | 17 | 17 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 4 | 3 | 75% |

## 2. Lefelau Sgiliau Staff yn ôl Gwasanaeth

### Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Tîm Arweinyddiaeth | 3 | 3 | 100% |
| Cyllid | 4 | 4 | 100% |
| Adnoddau Dynol | 4 | 4 | 100% |
| Gweinyddol & Gofal Cwsmer | 11 | 11 | 100% |
| Systemau Gwybodaeth | 5 | 4 | 80% |
| Eiddo | 8 | 8 | 100% |
| Cyfreithiol | 1 | 1 | 100% |
| Cyfathrebu | 9 | 9 | 100% |
| Canolfannau Gwybodaeth | 7 | 7 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 4 | 3 | 75% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Chief Executive | 1 | 1 | 100% |
| Director | 1 | 1 | 100% |
| Heads of Service | 6 | 6 | 100% |
| Grade 7+ | 21 | 20 | 95% |
| Up to Grade 6 | 27 | 26 | 96% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys | 45 | 44 | 98% |
| Canolfannau Croeso | 7 | 7 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 4 | 3 | 75% |

**Cyfarwyddiaeth Cynllunio a Phartneriaethau**

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Cyfarwyddwr | 1 | 1 | 100% |
| Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth | 14 | 11 | 79% |
| Polisi Cynllunio | 6 | 6 | 100% |
| Partneriaethau | 7 | 7 | 100% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth, yn ôl graddfa’r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Director | 1 | 1 | 100% |
| Heads of Service | 3 | 3 | 100% |
| Grade 7+ | 17 | 14 | 82% |
| Up to Grade 6 | 7 | 7 | 100% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys | 28 | 25 | 89% |

**Cyfarwyddiaeth Rheoli Tir**

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Cyfarwyddwr | 1 | 1 | 100% |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | 8 | 8 | 100% |
| Wardeiniaid | 24 | 24 | 100% |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 22 | 20 | 91% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Director | 1 | 1 | 100% |
| Heads of Service | 3 | 3 | 100% |
| Grade 7+ | 26 | 24 | 92% |
| Up to Grade 6 | 25 | 25 | 100% |

| Nifer a % y staff o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys<br>Allanol | 38<br>17 | 36<br>17 | 95%<br>100% |

### 3. Lefelau Sgiliau Staff – Derbynfa

| Nifer a % y swyddi yn y prif dderbynfeydd sydd wedi'u dynodi'n 'Cymraeg yn hanfodol' ac a gafodd eu llenwi gan staff dwyieithog. | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys<br>Plas Tan y Bwlch<br>Canolfannau Croeso | 6<br>2<br>7 | 6<br>2<br>7 | 100%<br>100%<br>100% |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I gymeradwyo'r Datganiad a chaniatáu iddo gael ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ymhlith y gofynion a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yw'r angen i gynhyrchu Datganiad ar Reolaeth Fewnol (SIC) blynyddol.

1.2 Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn ymgorffori'r gofynion statudol fel yr amlinellir yn y Rheoliadau. Er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd, dilynwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol megis CIPFA a SOLACE.

1.3 Wrth ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'n hanfodol fod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn fod y ddogfen yn cael ei gyhoeddi. Wrth ddarparu'r datganiad yma, adolygwyd prif Strategaethau, Chynlluniau, Polisïau, Gweithdrefnau, Codau Ymarfer a Chanllawiau, fel manylir yn y Datganiad.

1.4 Mae systemau rheoli risg hefyd wedi cael eu hadolygu a'u hadrodd ynghyd â'r holl adroddiadau a dogfennau cysylltiedig a gyflwynwyd gerbron pwyllgorau, paneli/byrddau a gweithgorau'r Awdurdod.

## 2. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025-26

Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol
yn unol â Rheoliad 5(4) o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad rheolaeth fewnol hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru, fel rhan o adolygiad mwy ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn 2021/22. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

## 2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

## 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2025/26 cynhaliwyd 6 cyfarfod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 4 gwaith yn ystod 2025/26. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 9 gwaith yn ystod 2025/26. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod 3 gwaith yn ystod 2025/26. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Arweinyddiaeth

Mae strwythur arweinyddiaeth yr Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a 3 Gyfarwyddwr. Mae Tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda’r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi’u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o’r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau’r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i’w bwyllgorau a’i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi’i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Arweinyddiaeth a’r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae’r Gofrestr Risg a’r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a’i ddiweddaru’n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae’r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy’n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy’n gweithredu fel archwilydd allanol i’r Awdurdod, ac felly sy’n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi’i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw’r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021-26 yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth
1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio
1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant

cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.

3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu’r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2025/26 i’w chymeradwyo fel dogfen waith gan yr Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 19eg o Fawrth 2025.  Mae’r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd ar gynnydd y Rhaglen adrodd i’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 26ain o Dachwedd 2025 a’r 11eg o Fawrth 2026.

## 5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.  Mae’r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a’r uwch arweinwyr o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

| | |
|---|---|
| **Cod Llywodraethu Corfforaethol** | Cafodd llywodraethu ei graffu'n fanwl yn ystod 2021/22 gan Grŵp Tasg a Gorffen o Swyddogion ac Aelodau a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn.<br><br>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.<br><br>Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig yn ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2022. |
| | |
| **Pwyllgor Safonau** | Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.<br><br>Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ebrill 2025, ystyriwyd a chytunwyd ar yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2024/25 i'w gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, a oedd yn cynnwys trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.<br><br>Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch y monitro a oedd wedi digwydd ar weithrediad y cod ymddygiad ac yn benodol y Datganiadau o Fuddiannau Aelodau.<br><br>Yn ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 19eg o Fedi 2025, ystyriwyd busnes arferol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl, Caniatáu Goddefebau ac ystyried Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol yr Awdurdod yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod ar y 27ain o Fawrth 2026, a ystyriwyd a chytunwyd ar yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2025/26 i'w gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, a oedd yn cynnwys trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.<br><br>Yn yr un cyfarfod, adroddodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod adolygiad o'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) a'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd wedi'i gynnal. Diweddarwyd y polisïau drafft newydd a gyflwynwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth |

| | |
|---|---|
| | gyfredol a hefyd ymgorfforwyd arfer da cyfredol. Yn ogystal, roedd enghreifftiau bellach wedi'u cynnwys yn y polisïau i gynorthwyo dealltwriaeth.<br><br>Ystyriwyd a chymeradwywyd y polisïau drafft i'w cyflwyno i'r Awdurdod i'w mabwysiadu'n ffurfiol.<br><br>Ar y 30ain o Ebrill 2025, adroddwyd i'r Awdurdod fod panel cyfweld wedi'i gynnal i recriwtio Aelod annibynnol newydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Cyflwynwyd argymhelliad ar gyfer penodiad a gafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, cododd ail swydd wag Aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mae ymdrechion hyd yn hyn i recriwtio ar gyfer y swydd wedi bod yn aflwyddiannus. |
| | |
| **Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)** | Yn ystod 2025/26, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan Bolisi Seinio Rhybudd.<br><br>Yn dilyn adolygiad ffurfiol o'r polisi hwn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau, cyflwynwyd y polisi drafft newydd i'r Awdurdod ar y 29ain o Ebrill 2026 a thrwy hynny cafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol. |
| | |
| **Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd** | Yn ystod 2025/26 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dwyll neu lygredigaeth honedig mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.<br><br>Yn dilyn adolygiad ffurfiol o'r polisi hwn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau, cyflwynwyd y polisi drafft newydd i'r Awdurdod ar y 29ain o Ebrill 2026 a thrwy hynny cafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol. |
| | |
| **Cod Ymddygiad Enghreifftiol** | Yn ystod 2025/26, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. |
| | |
| **Cwynion – Swyddogion** | Yn ystod 2025/26, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 14 cwyn ffurfiol.<br><br>Ni chyfeiriwyd yr un o'r cwynion hyn yn ddiweddarach at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio iddynt. |

| | |
|---|---|
| | Ni fu’r Awdurdod felly yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2025/26. |
| | |
| **Cwynion – Aelodau** | Yn ystod 2025/26, ni dderbyniodd Swyddog Monitro’r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â’r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| | |
| **Rheolau Sefydlog** | Adolygwyd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn parhau â'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid sy'n rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod). |
| | |
| **Rheolau Sefydlog parthed Chontractau** | Daeth fersiwn ddiwygiedig newydd o’r Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â Chontractau i rym ar y 1af o Ebrill 2025.<br><br>Mae’r adolygiad yn ymgorffori mân newidiadau i derfynau trothwy sydd bellach yn ymgorffori TAW, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023.<br><br>Ochr yn ochr â'r adolygiad i'r Rheolau Sefydlog, cofrestrodd yr Awdurdod ar y Llwyfan Digidol Canolog (LIDC) newydd. Mae'n ofynnol i bob awdurdod yn y DU gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â chaffael ar y LIDC, a wneir yng Nghymru drwy gyhoeddi gwybodaeth ar blatfform GwerthwchiGymru sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol. |
| | |
| **Cynllun Dirprwyo** | Adolygwyd y Cynllun Dirprwyo fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau. |

| | |
|---|---|
| **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau** | Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.<br><br>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddaru eu cofnod buddiannau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt ei adolygu a'i ddiweddaru os yn berthnasol. |

**Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

| | |
|---|---|
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025.<br><br>Hwn oedd yr adroddiad cynnydd cyntaf ar y cynllun gweithredu o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2024 – 28. Adroddwyd ar gynnydd y gwaith a wnaed a sut y cyfrannodd hyn at gyrraedd yr Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff. |
| | |
| **Ymgynghori Uniongyrchol** | Yn ystod 2025/26 parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau, cyfarfodydd ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithdai a chymorthfeydd ymgynghori.<br><br>Mae ymgynghori yn rhan annatod o'r ystod eang o lifoedd gwaith a phrosiectau yr ydym yn ymgymryd â hwy fel Awdurdod, boed hynny trwy broses statudol ffurfiol, yn anffurfiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid neu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill. Fel Awdurdod bach, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ac yn ystyried eu barn o'r cychwyn cyntaf, os ydym am lwyddo gyda'n prosiectau.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o symposia a gweithdai yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r broses ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr gyda chymunedau Eryri a rhanddeiliaid, ar ddatblygu Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) newydd ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Bydd y mewnbynnau gwerthfawr a gafwyd gan yr holl ddigwyddiadau hyn bellach yn bwydo i mewn |

| | |
|---|---|
| | ac yn llywio'r gwaith datblygu pellach gan Swyddogion ac Aelodau dros y flwyddyn nesaf.<br><br>Yn ogystal, mae gwaith ymgynghori yn parhau ym mhob cam datblygu allweddol o Gynllun Datblygu Lleol Eryri, drwy ymgynghori uniongyrchol a thrwy'r Fforwm Cymunedol.<br><br>Mae'r cynlluniau datblygu Plas Tan y Bwlch yn parhau ar gyflymder. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd sesiynau galw heibio, negeseuon e-bost a diweddariadau trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac mae Cyfarwyddwr Rheoli Tir wedi mynychu cyfarfodydd y 6 Chyngor Cymuned a Thref sydd agosaf at Blas Tan y Bwlch (Maentwrog, Ffestiniog, Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Talsarnau a Llanfrothen).<br><br>Tua diwedd y flwyddyn ariannol, adroddwyd i staff am gynnydd adroddadwy gan gynnwys proses ceisiadau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyflwyno cynlluniau pensaernïol. Yn ogystal, cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Aelodau i fynd trwy'r cynlluniau manwl ar y safle. Bydd Digwyddiad Cymunedol yn dilyn hyn ar 12fed o Fai 2026.<br><br>Er mwyn rhoi cyfeiriad a chanllawiau ffurfiol i waith ymgysylltu ac ymgynghori'r Awdurdod yn y dyfodol, mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Ymgysylltu Gymunedol yn ffurfiol yn ei gyfarfod ar y 29ain o Ebrill 2026, a ddatblygwyd dros y flwyddyn ariannol 2025/26 blaenorol. Bydd y strategaeth hon yn rhoi ffocws a chanllawiau clir i'r holl staff ar waith ymgysylltu yn y dyfodol ac fe'i bwriedir fel dogfen fyw a fydd yn esblygu dros amser. |
| | |
| **Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu** | Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae’r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad le i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.<br><br>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad i’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025. |

| | |
|---|---|
| | Adroddwyd bod sylwedd y cynnwys cyhoeddedig wedi cynyddu a bod dilynwyr ar draws llwyfannau digidol wedi cynyddu 5% yn ystod y flwyddyn. Parhaodd y Swyddog Cynnwys Digidol i ddatblygu ffyrdd arloesol newydd o ymgysylltu'n llwyddiannus â chynulleidfa eang. |
| | |
| **Dyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol** | Nod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yw rhoi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru.<br><br>Mae gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol yn y cyd-destun hwn yn golygu, pan fydd yr Awdurdod yn datblygu Amcanion Llesiant ac yn gwneud penderfyniadau strategol, fod yn rhaid sicrhau bod consensws neu gyfaddawd yn cael ei geisio gydag undebau llafur ynghylch y camau rhesymol y bwriedir eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd i'r Awdurdod ar yr 11eg o Fehefin 2024, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. |
| | |
| **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.<br><br>Yn ystod 2025, derbyniwyd 50 o geisiadau ac o'r rhain derbyniodd 32 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (64%). O'r 18 cais arall, gwrthodwyd 10 neu fe'u gwrthodwyd yn rhannol gan nad oedd y wybodaeth a ofynnwyd amdani yn bodoli neu nad oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth, roedd 5 cais yn cynnwys data personol trydydd parti (yr oedd 2 o'r rhain hefyd wedi'u heithrio gan y byddai'r wybodaeth yn adnabod aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd am dorri rheolaeth gynllunio bosibl), roedd 1 cais am wybodaeth nad oedd ar gael eto gan nad oedd cynlluniau wedi'u cwblhau, gwrthodwyd 1 cais gan fod cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol, a gwrthodwyd 1 cais gan ei fod yn wybodaeth a oedd eisoes yn rhesymol hygyrch trwy ddulliau eraill.<br><br>O'r 50 cais, atebwyd bob un o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig** | Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod, i fodloni gofynion amser statudol.<br><br>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan am y 3 blynedd olaf, gyda'r rhaglenni hyn ar gael drwy gais. Mae Cyfrol Cofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ar y wefan. |

**Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa** | Mae'r gwaith o weithredu Cynllun Yr Wyddfa wedi parhau ers lansio'r cynllun diwygiedig ar y 15fed o Orffennaf 2025. Ers hynny, mae ystod eang o waith wedi'i gyflawni ar draws saith thema'r cynllun diwygiedig.<br>• Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i wefan Partneriaeth y Tri Chopa;<br>• Mae ymgyrchoedd cyfathrebu pellach ynglŷn â theithio cynaliadwy wedi'u cynnal cyn y tymor prysur;<br>• Cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi Mentra'n Gall ym Mhlas Tan y Bwlch a'r Bermo, ar y cyd â Chyngor Gwynedd;<br>• Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith rhwng gwirfoddolwyr Yr Wyddfa a'r timau achub mynydd, i gefnogi eu hymdrechion achub lle bo hynny'n briodol;<br>• Agorwyd arddangosfa ddehongli newydd ym Mhen y Pass;<br>• Ychwanegwyd rhwystr sensitif i'r amgylchedd ar y llwybr rhwng Crib Goch a'r Garnedd Ugain i annog cerddwyr i ddilyn y llwybr mwyaf diogel; a phrosiectau ffensio i gefnogi pori gohiriedig ar dir Rheilffordd Yr Wyddfa, er budd Chwilen yr enfys; ac<br>• Mae arolwg defnyddwyr Yr Wyddfa wedi'i ychwanegu at wefan y Parc ar gyfer monitro parhaus; comisiynwyd modiwl treftadaeth ddringo Eryri ac Yr Wyddfa ar gyfer rhaglen Llysgennad Eryri - i'w lansio ddiwedd Mehefin 2026; a bydd ap Llwybrau'r Wyddfa yn cael ei ail-frandio i gyd-fynd â brand y cynllun newydd. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Eryri** (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) | Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Mae'n cynnwys cynllun gweithredu 5 mlynedd a ddaeth i ben yn 2025.<br><br>Ers 2025 mae'r Awdurdod wedi bod yn adolygu ei bolisïau, amcanion a chamau gweithredu. Cynhaliwyd cyfres o Symposia rhwng Mehefin 2025 ac Ionawr 2026 i drafod a chraffu ymhellach ar y blaenoriaethau a nodwyd, a dechrau'r broses o greu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Eryri 2026-2031.<br><br>Mae cynllun gweithredu drafft bellach yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda Phartneriaid a mewnbwn staff ac aelodau'r Awdurdod. Bydd ymgynghori ar hwn, gyda'r nod o'i fabwysiadu gan yr Awdurdod yn 2026.<br><br>Fel rhan statudol o adolygiad y Cynllun Rheoli – cynhyrchwyd Adroddiad Cyflwr y Parc a'i gyhoeddi ar ffurf micro-safle. Mae'r broses hon wedi adnabod 5 blaenoriaeth i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ganolbwyntio arnynt ar gyfer y Cynllun Eryri newydd. |
| | |
| **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031** | Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLl) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.<br><br>Cymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2024-25 gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 15fed o Hydref 2025, a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhai o brif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys:<br>• Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sy'n tanseilio pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol;<br>• Mae polisïau CDLl Eryri wedi bod yn effeithiol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau;<br>• Mae caniatadau a chwblhau tai wedi bod yn is na'r targed gofyniad tai blynyddol cyfartalog am sawl blwyddyn yn olynol. Er y gwelwyd cynnydd yn y nifer a gafodd ganiatâd cynllunio (45 uned) yn ystod y 5ed flwyddyn fonitro, bu gostyngiad i 17 uned yn ystod 2024/25.<br>• Mae'r Llwybr Tai yn dangos diffyg blynyddol yn erbyn y Gofyniad Tai Blynyddol a Ragwelir (AAR) yn ystod 2024/25 gyda chwblhau 34 uned yn ystod y blynyddoedd islaw'r hyn a ragwelwyd. Mae diffyg o -41% ar gyfer y |

| | |
|---|---|
| | gyfradd adeiladu gronnus ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun;<br>• Rhwng 2024 a 2025, cymeradwywyd 5 cais i wella cyfleusterau cymunedol.<br>• Mae 4,537 m2 o ofod llawr cyflogaeth newydd (gan gynnwys addasiadau/trosiadau) wedi'i ganiatáu yn ystod 2024/2025 o fewn y Parc Cenedlaethol. |
| | |
| **Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy** | Ers mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr 8fed o Chwefror 2023, mae swyddogion APC a Chyngor Gwynedd wedi bod yn ffurfioli strwythurau gweithredu. Mae Cyngor Conwy bellach wedi ymrwymo i fynd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drwy eu prosesau democrataidd ac mae Conwy wledig wedi dod yn aelodau swyddogol o'r Cynllun ers Mai 2025.<br><br>Mae dau gynllun gweithredu blynyddol bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r broses o ddrafftio trydydd ar y gweill.<br><br>Gyda'r cyfnod ymgynghori ar Ardoll Dwristiaeth bosibl ar waith, mae'r Bartneriaeth (sy'n cynnwys y Sector Twristiaeth a chymunedau lleol) wedi bod yn allweddol wrth gasglu adborth a deall mwy am obeithion a phryderon yr ardal. Mae'r Bartneriaeth yn esblygu'n gyson ac ar hyn o bryd mae'n cael ei symleiddio o ran nifer y cyfarfodydd mewn ymateb i adborth gan aelodau. Y Bartneriaeth yw'r gyntaf o'i math yng Nghymru ac ynghyd â chynllun gweithredu blynyddol y cytunwyd arno, mae'n ffurfio sail gref ar gyfer blaenoriaethu gwariant pe bai ardoll dwristiaeth yn cael ei mabwysiadu yn yr ardal hon.<br><br>Ymhellach, mae yna Fwrdd Strategol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a Grŵp Cyflawni Partneriaeth yn ogystal â grwpiau Tasg a Gorffen sy'n arwain ar brosiectau penodol. |
| | |
| **Rhaglen Waith Corfforaethol** | Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; ni fydd angen adolygiad blynyddol.<br><br>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Ystyriwyd yr adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2024/25 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025. |

| | |
|---|---|
| | Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2025/26 yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 19eg o Fawrth 2025.<br><br>Rhoddwyd diweddariadau i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2025/26.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 26ain o Dachwedd 2025. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd y trydydd a'r pedwerydd chwarter (lle'r oedd ar gael) i'r un pwyllgor ar yr 11eg o Fawrth 2026. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026. |
| | |
| **Strategaeth Carbon Isel Eryri 2024-29** | Mae'r Awdurdod wedi drafftio Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer Eryri fel tirwedd, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, gan werthuso risg a modelu senarios hinsawdd trwy lens Rhinweddau Arbennig y Parc. Bydd yr asesiad hwn yn sail i Strategaeth Addasu'r Awdurdod ac yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y bennod Newid Hinsawdd yn y Cynllun Eryri diwygiedig.<br><br>Gan ddefnyddio cyllid grant, mae'r Awdurdod hefyd wedi cychwyn ar brosiect Datgarboneiddio, gan gyd-fynd â'r amcanion a osodwyd gan Small World Consulting (2023). Mae'r 'ap twristiaeth gynaliadwy' yn gwobrwyo ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd am gymryd rhan mewn gweithredu gwyrdd, boed yn gwirfoddoli ar brosiectau adfer natur, teithio'n gynaliadwy neu fonitro bioamrywiaeth.<br><br>Mae grŵp ffocws mewnol wedi cyfarfod i gytuno ar y camau nesaf yn ymdrech yr Awdurdod i leihau allyriadau sefydliadol. Cyhoeddir cynllun cyflawni i gadarnhau'r blaenoriaethau nesaf ar gyfer datgarboneiddio asedau a chadwyn gyflenwi sy'n eiddo i'r Awdurdod. |
| | |
| **Strategaeth Coed a Choetiroedd** | Ar y 30ain o Ebrill 2025 mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Coed a Choetiroedd, sy'n anelu at roi canllawiau i randdeiliaid a'r cyhoedd ar reoli a sefydlu coed a choetiroedd yn y dirwedd.<br><br>Er bod y strategaeth yn cael ei harwain gan yr Awdurdod, mae'n dibynnu ar ddull partneriaeth a chydweithio gan nifer o bartneriaid, cymunedau ac unigolion. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r strategaeth ffurfiol yn ychwanegiad pwysig i arwain gwaith a phrosiectau penodol o fewn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n cyfrannu at Amcan Llesiant Amgylchedd Gwydn yr Awdurdod. |

**Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

| | |
|---|---|
| **Strategaeth y Gyllideb 2025-26** | Adroddwyd ar yr Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025, a oedd yn nodi sefyllfa derfynol y Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol.<br><br>Cadarnhawyd cyllideb refeniw a chyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 5ed o Chwefror 2025. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.<br><br>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 10fed o Fedi 2025 ac ar y 10fed o Ragfyr 2025 yn ogystal ag i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 11eg o Fawrth 2026.<br><br>Amlinellodd adroddiad mis Mawrth fod Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2026 wedi dyrannu £1,003,300 ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ar draws 29 o brosiectau, a £30,600 ychwanegol wedi'i dderbyn mewn cyllid refeniw i gefnogi pwysau capasiti, yn ogystal â chyllid ychwanegol o £635k hefyd a ddyrannwyd ar ddechrau mis Mawrth er mwyn diwallu'r diffyg o fewn y flwyddyn.<br><br>Cadarnhawyd hefyd fod y grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) wedi'i ymestyn am 2 flynedd arall ar gyfer 2025/26 - 2026/27 ac mae'n werth £500,000 ar gyfer 2025/26, yn ogystal â chyllideb gyfalaf cyffredinol o £330,000.<br><br>Amlinellodd yr adroddiad hefyd drosglwyddiadau sylweddol dros £30k a gymeradwywyd eisoes a gofynnwyd am gymeradwyo trosglwyddiad pellach o £103K ar gyfer Ffiniau Traddodiadol. |

| | |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2026-27** | Cadarnhaodd y Gyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2026/27, a gyflwynwyd i'r Awdurdod yng nghyfarfod 10fed o Ragfyr 2025, fod darpariaeth wedi'i gwneud yn y gyllideb ar gyfer chwyddiant cyflogau o 3% yn 2026/27, bod cynnydd o 2% i setliad grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 wedi'i ragweld, ac y byddai'r ailbrisio diweddar o gronfa bensiwn llywodraeth leol yn fuddiol iawn i'r Awdurdod yn y flwyddyn 2026/27.<br><br>Fodd bynnag, cadarnhaodd yr adroddiad yn amlinellu Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfer 2026/27 gan y Prif Swyddog Cyllid yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 4ydd o Chwefror 2026, fod y sefyllfa'n llawer gwell nag a ragwelwyd ond y byddai diffyg sylfaenol yn parhau.<br><br>Mae'r setliad drafft a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2026 yn cadarnhau cynnydd o tua 4% i gyllid craidd yr Awdurdod. Mae hyn yn cyfateb i godiad o £173,000, sydd yn ei dro yn cynyddu'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol o £58,000. Er bod y sefyllfa well hon yn cael ei chroesawu ac yn rhoi'r Awdurdod ar sail ariannol gadarnach nag a ragwelwyd, mae diffyg sylfaenol o £139,000 yn parhau.<br><br>Yn dilyn y setliad drafft ffafriol ar gyfer 2026/27, rhoddwyd cymeradwyaeth i adfer cyllideb sylfaenol ar gyfer Plas Tan y Bwlch, gan ddisodli'r ddibyniaeth bresennol ar gronfeydd wrth gefn, am hyd y cyfnod pontio wrth i geisiadau grant gael eu symud ymlaen gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri. |
| | |
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2027/28** | Cyflwynodd y Prif Weithredwr trosolwg o heriau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 10fed o Fedi 2025.<br><br>Nodwyd nad oedd unrhyw arwydd y byddai setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn cynyddu dros y tair blynedd nesaf. Byddai setliad 'gwastad' yn achosi heriau sylweddol i'r Awdurdod, ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â'r diffyg anochel y mae'r Awdurdod yn ei wynebu.<br><br>Amlinellodd y cynllun y mesurau canlynol a chadarnhaodd eu bod yn cael eu dilyn yn weithredol:<br>➢ Cynyddu ffioedd parcio ceir;<br>➢ Cynyddu cynhyrchu incwm mewn Canolfannau Croeso, yn benodol ym Metws y Coed; a<br>➢ Ystyried toriadau i rai llinellau cyllideb er mwyn creu arbedion. |

| | |
|---|---|
| | Cadarnhaodd yr adroddiad, oherwydd newid posibl yn y llywodraeth ym mis Mai 2026, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth y gellid ei dehongli i amcangyfrif ffigur y setliad.<br><br>Cytunwyd i fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel dogfen waith, ac i'w adolygu a'i ddiweddaru wrth i wybodaeth berthnasol ddod ar gael. Yn ogystal, cytunwyd i weithio'n agos gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad ar gyllidebau dangosol yn y dyfodol ac i geisio sicrhau darpariaeth tuag at gostau chwyddiant, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.<br><br>Yn y Gweithgor Aelodau ym mis Hydref 2025, cyflwynwyd adroddiad pellach i'w ystyried gyda chynlluniau ar sut i ymateb i'r diffyg. Yn dilyn ystyriaeth fanwl, cytunwyd ar y canlynol:<br>➢ Egwyddor cynyddu ffioedd parcio ceir a gorfodi diffyg talu i ddod â £500,000 ychwanegol y flwyddyn i mewn (gyda £100,000 pellach wrth gefn);<br>➢ Gosod targed o £40,000 ychwanegol y flwyddyn o incwm manwerthu;<br>➢ Cytuno i gadw ffioedd cynllunio wedi'u cyllidebu ar y lefelau presennol a monitro'r sefyllfa hon dros y 12 mis nesaf;<br>➢ Archwilio ffynonellau posibl eraill o incwm masnachol, gan gynnwys recriwtio Rheolwr Masnachol; ac i<br>➢ Adnabod arbedion yn y gyllideb sylfaenol o £130K oherwydd cyflwr iach y gronfa bensiwn presennol. |
| | |
| **Rheoli Perfformiad** | Cafodd y mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a’r Rhaglen Waith Gorfforaethol eu nodi’n ffurfiol yn 2021/22.<br><br>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.<br><br>Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 a gymeradwywyd i’w fabwysiadu a’i gyhoeddi gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 10fed o Fedi 2025, yn adrodd ar gynnydd Blwyddyn 4 o ran cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.<br><br>Er ei fod wedi'i gynllunio'n wreiddiol i adolygu Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn 2025 gyda'r bwriad o'u |

| | |
|---|---|
| | mabwysiadu erbyn mis Ebrill 2026, rhoddodd yr Awdurdod gymeradwyaeth ar yr 11eg o Fehefin 2025 i ymestyn yr amcanion presennol am flwyddyn i 2027. Byddai hyn yn caniatáu i'r adolygiad parhaus o Gynllun Eryri ragflaenu adolygu'r Amcanion Llesiant, gyda'r bwriad o ddarparu sylfaen llawer cryfach a mwy cynhwysol i ddechrau adolygiad o'r Amcanion Llesiant yn 2026-27.<br><br>Yn ogystal, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dargedau a mecanwaith adrodd newydd fel rhan o'r broses o gyhoeddi'r Llythyr Grant Strategol blynyddol eleni.<br><br>Adroddwyd ar y broses i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 10fed o Fedi 2025. Byddai'r fframwaith newydd yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn gyda diweddariadau 6 mis yn ofynnol. Adroddwyd ar y canlyniadau 6 mis cychwynnol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025. |

**Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

| | |
|---|---|
| **Rôl Disgrifiadau Aelodau** | Cafodd y disgrifiadau diwygiedig ar gyfer rôl Aelodau a’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022.<br><br>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl. |
| | |
| **Presenoldeb Aelodau** | O’r 1af o Hydref 2024, mae holl bwyllgorau a chyfarfodydd yr Awdurdod wedi eu cynnal yn y Brif Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth, gan fanteisio’n llawn ar y buddsoddiad technolegol newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid sydd wedi gwreiddio’n dda.<br><br>Gall aelodau'r cyhoedd arsylwi'r pwyllgorau mewn person neu wylio gweddarllediad byw, ac eithrio'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar hyn o bryd. Gellir gweld recordiadau pwyllgorau yn ddiweddarach hefyd drwy sianel YouTube yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2025/26 yn 85%, sy'n gyson gyda'r 85% o bresenoldeb yn y ddwy flynedd flaenorol, sef 2024/25 a 2023/24. |
| | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | Yn 2025/26, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 67.6% (48% yn 2024/25).<br><br>Yn ogystal â rhaglen hyfforddi Aelodau'r Awdurdod, eleni cynhaliwyd Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru ar thema Adfer Natur gan yr Awdurdod yn Eryri, a chafodd gefnogaeth dda gan Aelodau'r Awdurdod. |
| | |
| **Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff** | Nodir anghenion dysgu a datblygu mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>Mae cyfraddau gwerthuso staff yn parhau i fod yn isel, gydag ond 45% o staff yn derbyn gwerthusiad yn ystod 2025/26.<br><br>Mae adolygiad o'r broses arfarnu gyfan ar y gweill ar hyn o bryd a fydd yn adnewyddu ac yn ailffocysu'r weithdrefn, gan ei diweddaru ag arfer da. Ar y cyd â hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i sicrhau perchnogaeth dros y broses ac i'w helpu i adnabod ei werth. |
| | |
| **Strategaeth Adnoddau Dynol** | Cyflwynwyd diweddariad cynhwysfawr ar weithgarwch Adnoddau Dynol ar gyfer y cyfnod deuddeg mis o fis Tachwedd 2024 i fis Hydref 2025 i'r Cyd-weithgor Lleol ar yr 28ain o Dachwedd 2025, fel rhan o'r ymrwymiad parhaus i dryloywder, cydweithio, a gwelliant parhaus mewn rheoli'r gweithlu.<br><br>Mae'r adroddiad yn amlinellu datblygiadau allweddol mewn polisi AD, mentrau lles staff, data recriwtio a chadw, gweithgaredd hyfforddi a datblygu, a chysylltiadau diwydiannol. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol yr Awdurdod wrth feithrin diwylliant gweithle cynhwysol, cefnogol, a pherfformiad uchel, sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd sefydliadol a'n cyfrifoldebau statudol. |
| | |
| **Gallu Tîm Arweinyddiaeth** | Penderfynodd yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol ddiwygio strwythur y Tîm Arweinyddiaeth a chynyddu ei niferoedd i fynd i'r afael â'r risg gynyddol o ran gwydnwch sefydliadol. |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod 2025/26, cwblhawyd yr ailstrwythuro a llwyddwyd i recriwtio i swyddi gwag. Dyma'r strwythur newydd: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (gan ymgorffori rôl y Swyddog Monitro), Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau a Chyfarwyddwr Rheoli Tir.<br><br>Yn unol â hynny, mae'r risg hon bellach wedi'i dileu o Gofrestr Risg yr Awdurdod. |
| | |

**Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | Cyflwynwyd a chymeradwywyd y Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2022/23 yn ffurfiol, ynghyd ag Adroddiad ISA 260 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025.<br><br>Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod angen nifer o welliannau, ac oherwydd hyn roedd angen mwy o amser ar Archwilio Cymru i archwilio'r cyfrifon a fyddai'n arwain at ffi uwch i'r Awdurdod. Fodd bynnag, rhoddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon terfynol ar ôl i gywiriadau gael eu gwneud.<br><br>Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i lofnodi Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol gan yr Archwilydd Penodedig gan Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.<br><br>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 10fed o Ragfyr 2025, cyflwynodd Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio sy'n nodi'r cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2023/24 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2025/26.<br><br>Nododd y Cynllun y bwriad i osod amserlen o ddeunaw mis ar gyfer archwilio cyfrifon 2024/25 a 2025/26, mewn ymgais i ddal i fyny ar oediadau blaenorol.<br><br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd y Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2023/24 yn ffurfiol, ynghyd ag Adroddiad ISA 260 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 29ain o Ebrill 2026. |

| | |
|---|---|
| | Awdurdodwyd y Cadeirydd a’r Prif Swyddog Cyllid i lofnodi Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol gan yr Archwilydd Penodedig gan Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.<br><br>Adroddwyd, oherwydd oedi yn Natganiad Cyfrifon y blynyddoedd blaenorol, ei bod yn profi'n heriol iawn dal i fyny er gwaethaf cymorth ychwanegol gan gwmni allanol. Mewn ymateb i bryderon, cymeradwywyd cynnig i dderbyn adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2026 gyda diweddariad ar y gwaith i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2024/25 a 2025/26. |
| | |
| **Rheoli Risg** | Mae newidiadau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn i sut mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru. Mae adolygu a diweddaru bellach yn digwydd bob deufis gan y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth.<br><br>Mae risgiau adnabyddedig fel y'u nodir yn y Gofrestr Risg bellach wedi'u dyrannu fel cyfrifoldeb i Gyfarwyddwyr er mwyn gwella goruchwyliaeth ac atebolrwydd. Mae'r Gofrestr Risg yn parhau i gael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy’n cael eu dileu o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau'n flynyddol mewn cyfarfod Awdurdod. |
| | |
| **Archwilio Allanol** | Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ar Hybu Mynediad gan Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2025, a gyflwynwyd yn ddiweddarach i'r Aelodau i'w drafod yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025, ynghyd ag ymateb y sefydliad i'r 4 argymhelliad.<br><br>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu hadroddiad terfynol hefyd (a dderbyniwyd ym mis Medi 2025) ar eu hasesiad o'r graddau yr oedd yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod yr amcanion llesiant. Roedd Archwilio Cymru yn fodlon yn gyffredinol bod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy ond gwnaeth 2 argymhelliad ar sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol. Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r cyfarfod hefyd. |

| | |
|---|---|
| | Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 10fed o Ragfyr 2025, adroddodd y Prif Weithredwr ar yr argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru o ganlyniad i'w Hasesiad Sicrwydd a Risg a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mai 2025.<br><br>Y prif fater arwyddocaol cyntaf a nodwyd oedd diffyg trefniadau ffurfiol ar gyfer diogelu oedolion a phlant y gallai staff ryngweithio â nhw. O ganlyniad, mabwysiadodd yr Awdurdod Bolisi Diogelu yn yr un cyfarfod.<br><br>Yr ail fater oedd yr angen i sefydlu trefniadau i adolygu polisïau corfforaethol a dogfennau llywodraethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Cadarnhawyd bod trefniadau ffurfiol bellach wedi'u rhoi ar waith sy'n bodloni'r argymhelliad.<br><br>Mae manylion llawn y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Sylweddol) yn y Datganiad hwn. |
| | |
| **Archwiliad Mewnol** | Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24 ar unrhyw adeg yn ystod 2024/25. O ganlyniad, adroddodd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025 ar waith Archwilio Mewnol 2023/24 a 2024/25.<br><br>Adroddwyd bod 3 archwiliad wedi'u cynnal, sef Trefniadau Cyfathrebu'r Gwasanaeth Cynllunio, Cymorth i Aelodau, a Gwirfoddolwyr.<br><br>Rhoddwyd sgôr "Boddhaol" i'r ddau archwiliad ar Drefniadau Cyfathrebu'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwirfoddolwyr - mae rheolaethau ar waith i gyflawni'r amcanion ond mae agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.<br><br>Rhoddwyd sgôr "Uchel" i'r archwiliad ar Gymorth i Aelodau - gellir mynegi sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd ar waith i gyflawni amcanion. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd yr Aelodau anfodlonrwydd ynghylch dyfarnu lefel sicrwydd "Uchel" i Gymorth i Aelodau gan mai dim ond 4 ymateb i'r holiadur a dderbyniwyd allan o 18. Yn ogystal, er bod y cynllun gwaith ar gyfer 2025/26 yn honni ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o risgiau, nid oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad am unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr, ac awgrymwyd y gellid gwehyddu rhai o risgiau uchel Proffil Risg yr Awdurdod i'r adroddiad hwn. Yn unol â hynny, ni chyflwynwyd unrhyw gynnig i gymeradwyo'r adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn galluogi ailedrych ar y cynllun gwaith.<br><br>Yng nghyfarfod pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025, ailgyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 i'w ystyried. Adroddwyd, yn dilyn trafodaethau gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, fod dau faes risg wedi'u nodi a'u cynnig i'w hintegreiddio i waith Archwilio Mewnol, sef: Rheolaeth Wael ac Aneffeithiol o Brosiectau gan yr Awdurdod a risgiau ariannol ac i enw da ynghylch dyfodol Plas Tan y Bwlch. Derbyniwyd y Cynllun Archwilio diwygiedig. |
| | |
| **Iechyd a Diogelwch** | Cyflwynodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025.<br><br>Yn ystod 2024/25, mynychodd 131 o staff gyrsiau hyfforddi yn ymwneud ag iechyd a diogelwch gyda 426 o gyrsiau eraill yn ymwneud ag iechyd a diogelwch wedi eu hymgymryd gan staff ar-lein yn ystod yr un cyfnod.<br><br>O fewn yr un cyfnod adrodd, adroddwyd am 26 o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys digwyddiadau bron â digwydd, ac nid oedd yr un ohonynt yn adroddadwy o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).<br><br>Yn ystod 2024, Straen, Pryder ac Iselder oedd y prif reswm dros absenoldebau yn y gweithle, gan gyfrif am 47% o'r holl ddyddiau a gollwyd. O'r rhain, roedd straen yn y gweithle yn cyfrif am 15% o'r absenoldebau. Er bod y cynnydd yn rhannol oherwydd cofnodi gwell, cadarnhawyd bod mesurau lliniaru eisoes ar waith. |

| | |
|---|---|
| **Canolfannau Gwybodaeth** | Mae gan yr Awdurdod 3 Canolfan Gwybodaeth, sef ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Twristiaeth Gynaliadwy, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn fasnachol hyfyw / hunangynhaliol. Yn ogystal, roedd gofod manwerthu newydd wedi'i agor ym Mhen y Pass.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Gwybodaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2025. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r flwyddyn 2025/26 hyd yma.<br><br>Y prif faterion i'w nodi oedd bod y tymor cyffredinol wedi gweld cynnydd o 5% mewn ymholiadau ymwelwyr ond gostyngiad o 3% mewn trosiant; bod rhagolygon yn edrych yn addawol ar gyfer ehangu Canolfan Hwb Pen y Pass, fodd bynnag ni ellid cwblhau rhwymedigaethau cyllidebol ar gyfer tymor 2026/27 ar hyn o bryd. |
| | |
| **Strategaethau Benthyca a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol, sy'n darparu Rheolaeth y Trysorlys (benthyca a buddsoddi) gwirioneddol yr Awdurdod yn ystod 2024/25, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025.<br><br>Adroddwyd, yn ystod 2024/25, fod gweithgaredd yr Awdurdod wedi aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, nad oedd unrhyw fenthyciadau wedi digwydd, ac nad oedd unrhyw fanciau a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.<br><br>Yn 2024/25, cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau oedd £386,792, yn erbyn cyllideb o £120,000.<br><br>Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, ac ariannwyd refeniw a gwariant cyfalaf yn ystod 2024/25 gydag incwm grant a chronfeydd refeniw.<br><br>Felly, o safbwynt Rheoli'r Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn rhydd o ddyled.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026/27 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 4ydd o Chwefror 2026. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Parciau Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut mae risg gysylltiedig yn cael ei rheoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn dechrau 2026/27 yn rhydd o ddyled. Mae gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yn cyfateb i £2.926M ac mae £2.3M ohono wedi'i ariannu gan ffynonellau allanol a £626K wedi'i ariannu gan adnoddau'r Awdurdod ei hun. Nid oes disgwyl y bydd angen i'r Awdurdod ariannu unrhyw waith cyfalaf trwy fenthyca.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau beidio â newid y terfyn benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwyasant y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2026/27, a nodasant y cynnwys mewn perthynas â'r Cod Darbodus. |
| | |
| **Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch** | Yn dilyn adroddiad i'r Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025 lle cymeradwyodd yr Aelodau'n ffurfiol i Swyddogion fynd ar drywydd cadw Plas Tan Y Bwlch yn amodol ar sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda'r bwriad o adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i'r Plas, gan gynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo, dechreuwyd ar y gwaith.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Awdurdod ar y 10fed o Fedi 2025, lle adroddwyd bod:<br>➢ Penseiri Donald Insall Associates wedi cael eu comisiynu i gynorthwyo'r Awdurdod;<br>➢ Roedd Cadw yn gefnogol iawn a chyfeiriodd at eu proses ymgeisio am grant ar gyfer posibiliadau cyllid cyfatebol;<br>➢ Cyflwyno cais cyfnod datblygu o £325K ym mis Chwefror 2026;<br>➢ Cyflwyno'r prif gais (cais cyfnod cyflawni) am £9M yn 2027 yn amodol ar lwyddo i gael cais cyfnod datblygu; a<br>➢ Mae adborth gan y gymuned leol wedi bod yn gadarnhaol.<br><br>Oherwydd cyfle i gydweithio ag Amgueddfa Cymru a'r hanesydd Peter Lord i sefydlu oriel ym Mhlas Tan y Bwlch, mae'r bwriad i gyflwyno'r cais cyflawni yn 2027 bellach wedi cynyddu o ran gwerth i £15m. Cyflwynwyd datganiad o |

| | |
|---|---|
| | ddiddordeb newydd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyda'r ffigur diwygiedig, sydd wedi'i gymeradwyo.<br><br>Mae Cofrestr Risg yr Awdurdod yn parhau i gael ei hadolygu a'i diweddaru drwy gydol y broses hon, i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran lliniaru risgiau. |
| | |
| **Yr Ysgwrn** | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ar gyfer 2024/25 i'r Awdurdod ar yr 10fed o Fedi 2025.<br><br>Nododd yr adroddiad bod y prosiect cydweithredol Geiriau Diflanedig wedi dod i ben ym mis Mehefin 2024. Agorwyd arddangosfa newydd 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' ym mis Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys nifer o weithiau celf gan artistiaid blaenllaw Cymru.<br><br>Cynhaliwyd cyfanswm o 15 o weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddenodd 250 o fynychwyr. Derbyniwyd grantiau ar gyfer rhai o'r gweithgareddau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Gwynedd a Llywodraeth Cymru.<br><br>Yn ogystal, derbyniwyd tri grant ar gyfer gwaith hirdymor. Y cyntaf oedd grant gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru i gwblhau comisiynau marchnata, gan gynnwys hysbysebion Google a ffilm hyrwyddo Yr Ysgwrn, a chwblhawyd y rhain yng ngwanwyn 2025. Derbyniwyd grant pellach gan Artfund ar gyfer prosiect The Herds, prosiect cyfiawnder hinsawdd artistig. Yn olaf, derbyniwyd grant gan Sefydliad Ulrike Michal ar gyfer y Celfyddydau (UMFFTA) ar gyfer prosiect celfyddyd weledol, yn seiliedig ar Y Gadair Ddu ac ail gadair farddonol gan Eugene Van Fleteren a gomisiynwyd ar gyfer yr eisteddfod genedlaethol ym 1918.<br><br>Cyflwynir cais i adnewyddu statws achredu amgueddfa'r Ysgwrn ym mis Ionawr 2026. |

**Egwyddor 7:** Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Tâl** | Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 a Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025 ond fe'i tynnwyd yn ôl yn y cyfarfod oherwydd bod ffigurau anghywir wedi'u cyflwyno. Fe'i hailgyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2026 gyda'r ffigurau cywir lle gafodd ei gymeradwyo. |
| | |
| **Adroddiad Blynyddol 204/25** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 10eg o Fedi 2025, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddosbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, a rheoli perfformiad. |
| | |
| **Pwyllgorau Hybrid a Darlledu** | O'r 1af o Hydref 2024, mae holl gyfarfodydd swyddogol yr Awdurdod bellach yn cael eu cynnal ym Mhrif Swyddfa Penrhyndeudraeth, gan fanteisio'n llawn ar y buddsoddiad mewn technoleg cyfarfodydd hybrid sydd wedi'i osod yn yr ystafelloedd cynadledda.<br><br>Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hefyd yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar sianel YouTube yr Awdurdod, yn ogystal â hynny mae recordiad o'r cyfarfod i'w weld ar unrhyw adeg. Felly gall aelodau'r cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn bersonol neu gallant gael mynediad o bell.<br><br>Mae hyn nid yn unig yn gwella mynediad i Aelodau a Swyddogion ond hefyd yn gwella mynediad, tryloywder ac adrodd ar fusnes yr Awdurdod i aelodau'r cyhoedd. |
| | |
| **Cyllido Grant** | Ariennir y rhan fwyaf o waith prosiect yr Awdurdod trwy gyllid grant allanol. |

| | |
|---|---|
| | Rhoddir diweddariadau Cyllid Grant, gan gynnwys unrhyw ailbroffilio a newidiadau i ddyddiadau gorffen lle bo'n berthnasol, i Aelodau drwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Rhoddir gwybodaeth fanwl am brosiectau a ariennir gan gyfalaf yn ogystal â phrosiectau byw.<br><br>Mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau'n flynyddol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r amserlenni sy'n gysylltiedig â rhai rhwymedigaethau grant, ac o ganlyniad yn cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol.<br><br>Mae’r aelodau wedi cadarnhau’n flaenorol bod angen eu cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>• Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.<br>• Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â'r hyn y cytunwyd arno fel blaenoriaeth strategol.<br>• Unrhyw gynnig a gyfeiriwyd at aelodau gan y Cadeirydd neu Brif Swyddog Gweithredol.<br>• Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw’r terfyn cyllid y cytunwyd arno (cytunwyd ar £150,000)<br><br>Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 9fed o Orffennaf 2025 ar amrywiol gynlluniau grant byw. Yn ogystal, rhoddwyd adroddiad yn amlinellu cyflawniadau'r Awdurdod gan ddefnyddio cyllid grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru o 2022-25 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd 2026.<br><br>Ar y 4ydd o Ebrill 2026, darparodd y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth adroddiad trosolwg ar ddau brosiect a oedd wedi derbyn grantiau o dan Gynllun Grant CANI, sef:<br>➢ Y goeden gywir yn y lle cywir; a<br>➢ Ffermio adfywiol.<br><br>Trafodwyd ac ystyriwyd dibenion, goblygiadau a risgiau'r ddau gynllun. Rhoddwyd cymeradwyaeth i dderbyn y cyllid grant ond i fod yn ddeffro i'r risgiau. |
| | |
| **Safonau’r Iaith Gymraeg** | Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>Fel sy'n ofynnol gan y Safonau, cynhyrchodd yr Awdurdod Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn |

| | |
|---|---|
| | amlinellu'n fanwl sut y cydymffurfiodd yr Awdurdod â'r holl Safonau yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cymeradwyodd yr Awdurdod yr Adroddiad Blynyddol yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 11eg o Fehefin 2025, ac awdurdododd gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. |
| | |

## 6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau y Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2025/26

Archwilio Cymru: Hybu Mynediad
Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Archwilio Cymru eu hadroddiad ar sut mae'r awdurdod yn hybu mynediad yn Eryri. Amcan yr archwiliad oedd:

- Rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau i hyrwyddo mynediad i'r Parc Cenedlaethol.
- Esbonio pwysigrwydd pobl o bob cefndir yn archwilio ac yn ymweld â thirweddau cenedlaethol ac amlinellu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Sicrhau pobl bod yr Awdurdod yn annog ystod eang o ymwelwyr amrywiol, yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid allweddol, ac i benderfynu pa mor dda y mae'n cyflawni cyfrifoldebau statudol.

Nododd yr adroddiad fod:

- Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn deall pwy sy'n ymweld â'r Parc.
- Mae'r Awdurdod yn deall rhwystrau posibl i fynediad y mae rhai ymwelwyr yn eu hwynebu. Mae ei Strategaeth Hamdden yn nodi rhai rhwystrau mynediad corfforol ac yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.
- Nid yw'r Awdurdod yn dadansoddi'n ganolog y ffactorau ehangach a allai atal neu ei gwneud hi'n anodd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gael mynediad i'r Parc.
- Mae'r Awdurdod wedi gosod uchelgais i hyrwyddo mynediad yn ei gynlluniau strategol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn cysylltu ei amcanion strategol hirdymor yn glir â'r canlyniadau y mae'n ceisio'u cyflawni o ran gwella mynediad.
- Mae'r Awdurdod wedi darparu adnoddau strategol i rai prosiectau i hyrwyddo mynediad. Mae'r Awdurdod wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwario cyllid grant ac mae'n adolygu'r blaenoriaethau hyn yn flynyddol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi nodi a chymryd camau i liniaru rhai o'r risgiau o gyllid tymor byr.
- Nid yw'r Awdurdod yn monitro na gwerthuso effaith ei weithgarwch i hyrwyddo mynediad.

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod, sef y rhai a nodwyd gan Archwilio Cymru wrth gynnal yr adolygiad ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R1 | Canfuom wendidau yn nhrefniadau'r Awdurdod i gasglu a dadansoddi data ar ymwelwyr. I wneud y gorau o'r data y mae'r Awdurdod yn ei gasglu gan ymwelwyr, grwpiau a chymunedau, dylai'r Awdurdod sefydlu trefniant mwy cyson i goladu a dadansoddi gwybodaeth ddemograffig, data ar weithgarwch ac adborth. |
| **Ymateb APC Eryri** | |
| | Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn datblygu Strategaeth Ymgysylltu a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer sut rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a'n grwpiau yn y dyfodol. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd yr Awdurdod yn edrych i ddatblygu system i gasglu data cydraddoldeb yn ganolog o weithgarwch ymgysylltu, i ddadansoddi a ydym yn cyrraedd pob rhan o'n cymdeithas.<br><br>Yn y cyfamser, mae micro safle ar gael o wefan yr Awdurdod yn adrodd ar Gyflwr y Parc 2025, sy'n cynnwys data a dadansoddiad cynhwysfawr ar bob agwedd ar fywyd yn Eryri. Mae hwn yn adnodd canolog a chyhoeddus sydd ar gael i bawb.<br><br>Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, o hyn ymlaen bydd data ar gael i'r Awdurdod i'w adolygu a'i ddadansoddi o'r arolwg blynyddol o drigolion yng Ngwynedd. Gobeithir y bydd y data hwn yn darparu dangosyddion cymharol dros amser ar gyfer y Cynllun Partneriaeth Strategol ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy.<br><br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn edrych ar ddatblygu casglu data mewnol ar raddfa lai yn rheolaidd ar ymwelwyr trwy ein prif bwyntiau cyswllt, a fydd yn rhoi data cymharol inni dros amser, er mwyn dadansoddi tueddiadau. Mae angen taro cydbwysedd rhwng yr adnoddau sydd eu hangen i gasglu'r data hwn, ymarferoldeb ei gasglu a defnydd terfynol y data. |

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R2 | Nid yw'r Awdurdod wedi mapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i wella mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod fapio'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i adnabod a oes cyfleoedd i wella gwerth am arian. |

| Ymateb APC Eryri | |
|---|---|
| | Cynhelir Symposiwm Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh) ym mis Ionawr 2026, lle bydd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd â'r Bartneriaeth Awyr Agored i drafod Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant yn Eryri, a fydd yn ymgorffori gwaith Mapio Rhanddeiliaid ac adnabod partneriaid eraill posibl i symud y gwaith hwn ymlaen.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn bwydo i ddatblygu polisi ar gyfer Cynllun Eryri, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. |

| Argymhelliad | |
|---|---|
| R3 | I helpu i wneud yn siŵr bod ei weledigaeth ar gyfer hybu mynediad yn sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys dros y tymor hwy, dylai'r Awdurdod eglurhau a mynd ati wedyn i gyfrifo cost ei gamau gweithredu arfaethedig i wireddu ei weledigaeth. |
| **Ymateb APC Eryri** | |
| | Mae blaenoriaethau mynediad a nodwyd o dan Amcanion Llesiant yr Awdurdod a Chynllun Eryri yn cwmpasu cyfnod o dros 5 mlynedd.<br>Gall yr Awdurdod edrych i ddatblygu a mireinio ymhellach y broses o gynllunio ymlaen llaw a chostio prosiectau cyfalaf ac untro sy'n barod i'w cyflwyno pan fydd cyfleoedd ariannu'n codi.<br><br>Dros y cyfnod adolygu nesaf yn 2026, bydd amcangyfrif o'r cyllid craidd a ddefnyddir i gwblhau prosiectau penodol a nodwyd yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau gweithredu. |

| Argymhelliad | |
|---|---|
| R4 | Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau i fynd ati'n rheolaidd i fonitro na gwerthuso ei waith i hybu mynediad at y Parc. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Awdurdod:<br>➢ Nodi sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian prosiectau unigol a'i ddull strategol ar y cyfan ar gyfer hybu mynediad.<br>➢ Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau ar gynnydd a gwerth am arian ei waith i hybu mynediad at y Parc. |
| **Ymateb APC Eryri** | |
| | Cynnal Gweithgor rhwng Swyddogion ac Aelodau i gytuno ar:<br>i) Y diffiniad o 'werth am arian';<br>ii) Pa ddata sydd angen ei gasglu i asesu'r 'gwerth am arian' a ddiffiniwyd uchod;<br>iii) Nodi rhwystrau i gasglu data h.y. adnoddau ac ymarferoldeb; a<br>iv) Cytuno ar beth a pha mor aml y caiff ei adrodd i fynd i'r afael ag argymhelliad 4.<br><br>Wedi hynny, cytunir ar y weithdrefn. |

Archwilio Cymru: Gosod Amcanion Llesiant

Ym mis Medi 2025 cyhoeddodd Archwilio Cymru ganfyddiadau eu harchwiliad ar y cwestiwn 'I ba raddau y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant'.

Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant ond y gall wella'r sail dystiolaeth y mae'n ei defnyddio ar gyfer hyn a sut mae'n monitro ei gynnydd wrth eu cyflawni. Yn unol â hynny, gwnaed dau argymhelliad.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R1 | Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau ar gyfer asesu ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys gosod mesur perfformiad strategol i gydfynd â'i amcanion llesiant sy'n casglu'r effaith tymor byr a hirdymor y mae'n anelu ati. |
| **Ymateb APC Eryri** | |
| | Bydd mesurau'n cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o amcanion llesiant yn 2026. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, rhoddir pwyslais ar ganlyniadau (yn hytrach na gweithgareddau) ar gyfer y tymor byr a'r hir dymor. Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried integreiddio ei Gynllun Rheoli (Cynllun Eryri) â'r amcanion llesiant. Bydd hyn yn cryfhau'r gallu i fonitro perfformiad - mae gan Gynlluniau Rheoli canllawiau helaeth ar asesu data/tystiolaeth sylfaenol a gofynion monitro parhaus. Felly, dylai hyn helpu'r broses fonitro gyffredinol. |

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R2 | Wrth adolygu ei amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i helpu i benderfynu a yw'r amcanion yn parhau i fod yn briodol. Gallai ffynonellau o'r fath ymwneud â newidiadau yn ei amgylchedd mewnol ac allanol. Gallai enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>➢ Deddfwriaeth a pholisi newydd, gan gynnwys newidiadau i'r nodau llesiant.<br>➢ Gwybodaeth am dueddiadau gan gynnwys, er enghraifft, adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.<br>➢ Cyngor a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>➢ Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru – Asesiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>➢ Unrhyw weithgaredd ymgysylltu perthnasol a wneir gan eraill a allai fod yn ddefnyddiol neu'n berthnasol.<br>➢ Amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus. |

<table>
<tr><th colspan="2">Ymateb APC Eryri</th></tr>
<tr><td></td><td>Trefnwyd sesiwn ddechrau mis Hydref 2025 gyda Chynghorydd Datblygu Cynaliadwy Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Sesiwn i atgoffa’r Tîm Arweinyddiaeth o’r Ddeddf. Mae'n debygol y cynhelir sesiwn hyfforddi bellach gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod yn gynnar yn 2026.<br><br>Er mwyn ffurfioli'r broses flynyddol bresennol o adolygu'r amcanion lles:<br>➢ Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn asesu os bydd angen adolygu'r amcanion llesiant gan ystyried dogfennau perthnasol (fel sydd wedi'u rhestru gan AC).<br>➢ Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i Aelodau'r Awdurdod yn rhestru'r dogfennau ac ati sydd wedi'u hystyried fel rhan o adolygiad blynyddol ac yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer adolygu'r amcanion lles.<br><br>Bydd integreiddio cynhyrchu Cynllun Eryri â'r Amcanion Llesiant hefyd yn sicrhau mecanweithiau pellach i sicrhau bod ystod eang o wybodaeth yn cael ei defnyddio – gan sicrhau bod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol. Bydd swyddogion yn sicrhau bod fframwaith priodol ar waith i ganiatáu asesiad cynhwysfawr a pharhaus o wybodaeth a thystiolaeth.<br><br>Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd ac yn trafod gydag Aelodau yn ystod cyfarfod o Weithgor ac yn derbyn penderfyniad terfynol naill ai yn ystod cyfarfod o'r Awdurdod llawn neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</td></tr>
</table>

<u>Archwilio Cymru: Sicrwydd ac Asesiad Risg</u>
Cadarnhaodd Archwilio Cymru ganfyddiadau ei asesiad risg ym mis Mai 2025, a nododd ddau fater arwyddocaol:

1. Diffyg trefniadau ar gyfer diogelu oedolion a phlant agored i niwed y gallai ryngweithio â nhw, a
2. Dim hyfforddiant i swyddogion nac Aelodau yn eu cyfrifoldebau diogelu.

Nodwyd hefyd fod diffyg dull cyson, wedi'i drefnu ar gyfer adolygu ei bolisïau corfforaethol a'i ddogfennau llywodraethu yn broblem yn ystod yr asesiad.

<table>
<tr><th colspan="2">Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>R1</td><td>1. Cyflwyno polisi diogelu.<br>2. Sicrhau bod y polisi’n cael ei rannu gyda swyddogion a gwirfoddolwyr.<br>3. Darparu hyfforddiant i swyddogion ar ei gyflwyno.<br>4. Sefydlu trefniadau i adolygu polisïau corfforaethol a dogfennau llywodraethu yn rheolaidd.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Ymateb APC Eryri</th></tr>
<tr><td></td><td>Yn dilyn yr argymhellion uchod, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi arwain ar gynhyrchu Polisi Diogelu newydd gyda</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | mewnbwn sylweddol gan Swyddog Pobl Ifanc yr Awdurdod (dechreuodd y Swyddog Pobl Ifanc gyda'r Awdurdod ym mis Mehefin eleni). Derbyniwyd cyngor cyfreithiol allanol hefyd ar gynnwys y ddogfen. Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i chwblhau, a chafodd ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar y 10fed o Ragfyr 2025.<br><br>Rhannwyd y ddogfen ymhlith defnyddwyr, ac i gynorthwyo ei chyflwyno, bydd canllawiau pellach ar ei chymhwysiad ymarferol yn cael eu cynhyrchu wedi hynny, ynghyd â sesiynau hyfforddi i swyddogion, ac Aelodau a gwirfoddolwyr i ddilyn hyn. Bydd y canllawiau pellach hyn yn cael eu cynhyrchu'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd a'r nod yw cwblhau'r sesiynau hyfforddi cychwynnol erbyn Gwanwyn 2026. Bydd hyfforddiant yn parhau yn y maes hwn wrth gwrs.<br><br>Er mwyn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag absenoldeb y polisi hwn, dylid nodi bod yr Awdurdod wedi rhoi'r gorau i weithio gydag oedolion a phlant agored i niwed nes bod y mesurau hyn wedi'u gweithredu'n llawn. |

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R2 | Sefydlu trefniadau i adolygu polisïau corfforaethol a dogfennau llywodraethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. |
| **Ymateb APC Eryri** | |
| | Mae mesurau bellach wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl bolisi a chanllawiau'n cael eu cadw'n gyfredol, ac ystyrir bod hyn wedi'i gwblhau. |

<u>Proffil Risg yr Awdurdod</u>

Fel yr adroddwyd yn ffurfiol ym mis Mawrth 2026, dim ond 1 risg oedd gan yr Awdurdod a gafodd ei graddio'n uchel fel a ganlyn:

| **Risg** | **Canlyniad** | **Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|
| Etholiadau'r Senedd Mai 2026. | Gall newid arweinyddiaeth wleidyddol arwain at newid agwedd / dull o weithredu tuag at Barciau Cenedlaethol. | Mae Maniffesto wedi ei baratoi ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a'i rannu gyda'r prif bleidiau (gan gynnwys y cynnig o gyfarfod i'w drafod). Yn ogystal â hyn, unwaith mae'r Llywodraeth newydd wedi sefydlu, bydd swyddogion yn cysylltu gyda'r Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cabinet perthnasol er mwyn cael cyfle i drafod ein rhaglenni gwaith ac ein blaenoriaethau. Bydd hyn yn gyfle i werthu'r budd sylweddol mae'r dynodiad PC yn cael ar yr amgylchedd, yr economi ac ein cymunedau. |

## 7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â’r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r anghenion gwella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o’n hadolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **JONATHAN CAWLEY**<br>**PRIF WEITHREDWR**<br>**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI** | **CADEIRYDD**<br>**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI** |
| **DYDDIAD: 10.06.2025** | **DYDDIAD: 10.06.2025** |

**Eitem Rhif 16**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Dangosyddion Perfformiad** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | I gyflwyno canlyniadau Dangosyddion Rheoli Perfformiad yr Awdurdod |

**1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD**

2. Llynedd gosodwyd y Llywodraeth Dangosyddion Perfformiad er mwyn mesur eu 'Blaenoriaethau Strategol' ar gyfer y Parciau Cenedlaethol. Mae'n ddyletswydd i'r Awdurdod adrodd ar ein cynnydd yn erbyn rhain bob 6 mis. Mae disgwyliad bod uchafbwyntiau perfformiad cael eu cyflwyno 6 mis i mewn i'r flwyddyn ariannol (erbyn Yr Hydref), ac yna'r adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn (erbyn Mis Mai).

3. Mae'r adroddiad diwedd blwyddyn eisoes wedi ei gyflwyno i'r Llywodraeth mis diwethaf, ac mae hwn i'w weld yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

4. Fel unrhyw weithred o'i fath, mae'r dangosyddion yma dim ond yn rhoi trosolwg o ran o waith yr Awdurdod, ond mae yna ystadegau defnyddiol sy'n dangos rhan o gyfraniad yr Awdurdod yn y meysydd amgylcheddol, pobl a lleoedd, a llywodraethiant a chydweithredu. Ar y cyfan credaf fod canlyniadau'r flwyddyn gyntaf o fonitro'r gwaith yma yn galonogol iawn, a bydd yn sylfaen ddefnyddiol ar gyfer meincnodi yn y dyfodol.

5. Er bod y dangosyddion yma er gwybodaeth yn unig, byddaf yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiwn sydd gan Aelodau ar y cynnwys.

**6. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

7. Dim

**8. ARGYMHELLIAD:**

I Aelodau nodi'r cynnwys o'r Dangosyddion yn Atodiad 1.

## ATODIAD 1

**2025–26**

# BLAENORIAETHAU STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU (LIC):

# TEMPLED ADRODD

**Awdurdod Parc Cenedlaethol:**
**……………………………………………………….**

**Darllenwch y canllawiau ar wahân cyn cwblhau.**

**RHAN A: Yr Amgylchedd**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd | Y MATH o Dystiolaeth i'w chyflwyno bob blwyddyn PEIDIWCH Â CHOFNODI YMATEBION YN Y GOLOFN HON | Tystiolaeth, gan gynnwys Dangosyddion CWBLHEWCH YR ADRAN HON Â DATA MEINTIOL | Naratif ategol, tueddiadau wedi'u gweld, esboniadau o ddata meintiol CWBLHEWCH YR ADRAN HON Â DATA ANSODDOL |
|---|---|---|---|---|
| EN1 | Mynd ati i mewn modd gweithredol i gefnogi ymrwymiad LIC i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy waith bob dydd ac amrediad o ymyriadau datgarboneiddio | Data a roddwyd yn y mis Medi BLAENOROL + Naratif, GAN GYNNWYS unrhyw dueddiadau hirdymor | Cyfanswm allyriadau'r Awdurdod (kgCO2e) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol – os nad yw data llawn 2025–26 ar gael, yna gellir cyflwyno data 2024–25. Cyfeiriwch hefyd at ddata llinell sylfaen o adroddiadau Small World Consulting ac Aquaterra)<br>779,123kgCO2e (*Scope 1, 2 & 3*) allyriadau a 1,005,213kgCO2e wedi'i dileu (wedi'i dileu ar y tir) (tu allan i'r cwmpas)<br><br>2023/24:<br>815,188 kgCO2e (Scope 1, 2 & 3) allyriadau a 1,041,334 kgCO2e wedi'i dileu (wedi'i dileu ar y tir) (tu allan i'r cwmpas)<br><br>2024/25:<br>779,123kgCO2e (*Scope 1, 2 & 3*) allyriadau a 1,005,213kgCO2e wedi'i dileu (wedi'i dileu ar y tir) (tu allan i'r cwmpas)<br><br>2023/24:<br>815,188 kgCO2e (Scope 1, 2 & 3) allyriadau a 1,041,334 kgCO2e wedi'i dileu (tu allan i'r cwmpas)<br><br>£ wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau datgarboneiddio cymunedol (CYFANSWM) | Er y sefyllfa garbon negyddol ardderchog mae gwaith yn parhau i wella'r sefyllfa ymhellach ee<br><br>Wedi'i gyflawni gyda chyllid LIC:<br>➢ 40KWPV batris ASHP, gwydro triphlyg a gwelliannau inswleiddio ar adeilad y Pencadlys. Paneli solar ar ee Canolfannau Aberdyfi a Llyn Tegid.<br>➢ Gwaith gosod wedi'i gwblhau i ddisodli gwydrau sengl i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau colli gwres o adeiladau'r Awdurdod.<br>➢ Pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod ar feysydd parcio APCE yn Ogwen, Beddgelert, Betws y Coed ac yn y Pencadlys.<br>➢ Strategaeth Garbon Isel APCE 2024-29<br>➢ Polisi Caffael Gwyrdd APCE<br>➢ Polisi Plastig Untro APCE<br>➢ Sesiwn hyfforddi achredig Llythrennedd Carbon wedi'i ddarparu gan M-Sparc wedi'i gynnal ar gyfer Aelodau'r Awdurdod a staff allweddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2024 £138k<br>2025: £200k<br>+44.93%<br>Gostyngiadau KgCO2e a KWh o unrhyw brosiectau (CYFANSWM) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EN2 | Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd* pan fo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr (e.e. drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP))<br>*Mae hyn yn cwmpasu gorchudd canopi'r holl goed felly dylid ystyried perthi/gwrychoedd, coed-amaeth a'u tebyg. | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | Cyfanswm creu coetir a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol). Pan fo hynny'n bosibl, rhowch ddadansoddiad o rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol e.e. cyflawni, ariannu, o fewn ffiniau Awdurdod Parc Cenedlaethol.<br>Mae'r holl ffigyrau'n ardaloedd wedi'u cyflawni:<br>2024: 24.9ha<br>2025: 34.56ha (1.3ha Y Goedwig Genedlaethol, cyllid PC Eryri, 33.26ha Ffermio Bro)<br>+ 38.79%<br>Coetir a adferwyd (hectarau) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2025: 92.97ha gwaith cyfalaf (18 safle)<br>2025: 131.67ha wedi'i harolygu (16 safle)<br>+ 41.62%<br>Arwynebedd y Mawn sy'n bresennol yn y Parc (Nodwch mai ar gyfer cyd-destun mae hyn).<br>"Unified Peat Map" (old) 24,273ha (26.5%)<br>"Unified Peat Map" (2022) 18,743ha (20%)<br><br>Gwaith adfer mawndir a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol) drwy NPAP neu waith arall<br>2024: 2891ha mawn ym MHCE a 960ha tu allan i'r ffiniau.<br>Cyfanswm Mawn 3851ha<br><br>Wedi adolygu 1106ha ym MHCE + 692ha tu allan i ffiniau'r PC outside NP boundary<br>2024: Cyfanswm wedi'i adolygu 3851ha | Dim rhagolwg ar gael ar gyfer 2026 gan ei fod yn dibynnu ar ddatganiadau o ddiddordeb gan Ffermio Bro, INRS, pecynnau ariannu eraill a thirfeddianwyr sy'n fodlon cymryd rhan.<br><br>Er mai dim ond 12% o arwynebedd Eryri y mae yn ei orchuddio, mae mawn dwfn yn storio 17 miliwn tunnell o garbon, sef tua 52% o gyfanswm carbon y pridd y Parc Cenedlaethol a thraean o fawndiroedd Cymru.<br><br>Mae Prosiectau Mawndiroedd Cymru dan arweiniad APCEryri yn brosiect partneriaeth sy'n canolbwyntio ar adfer ar draws sawl safle. Mae swyddogion yn gweithio mewn cydweithrediad â |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2025: Wedi'i adolygu 1597ha ym MCE + 44ha tu allan i ffiniau'r PC cyfanswm wedi'i adolygu 1641ha<br><br>Wedi adfer 795ha (12 safle) (36ha tu allan i'r ffiniau ar 1 safle) Cyfanswm 831ha wedi'i adfer.<br><br>2026: Yn anelu at adolygu 900ha ar 8 safle, gwaith adfer ar 1750ha ar 19 safle OND, maent yn amodol ar gadarnhad tirfeddianwyr, derbyn caniatâd ac ati felly bydd yn amrywio.<br>Yn anelu at +110.59% o fawn wedi'i adfer yn 2026-27<br>Hyd (metrau) y perthi/gwrychoedd a blannwyd (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2024: 6.51Km<br>2025: 5.24Km<br>-19.5% wedi'u plannu<br>Nifer y coed a blannwyd (Noder: coed safonol/mewn caeau, ac eithrio coed a blannwyd mewn perthi/gwrychoedd neu goetir) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2024: 1,370<br>2025: 6,509<br>+ 375.11%<br>Arwynebedd (hectarau) y gweirgloddiau a blannwyd (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2024: 1.23ha<br>2025: 0.832ha<br>2026: Dim rhagamcan ar gael yn dibynnu ar Ddod Ffermio Bro (yn ystod y flwyddyn).<br>-32.52% | thirfeddianwyr, porwyr a phartneriaid eraill i flocio ffosydd artiffisial, ail broffilio clogwyni bach o fawn noeth, ail-blanhigio mawn noeth a thorri conwydd. Mae gweithio'n agos gyda ffermwyr a phorwyr yn sicrhau y gallant barhau i bori'r tir ac atal unrhyw un rhywogaeth rhag dominyddu.<br><br>Gostyngiad yn y cyllid ar gael a chostau cyfalaf uwch fesul uned yn lleihau'r allbwn. Mae'r galw'n parhau'n uchel.<br><br>Yn ddibynnol ar y diddordeb a fynegir gan berchnogion tir. |
| EN3 | Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir, gan gynnwys cymharu'r cyflawni â blaenoriaethau | tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â pherchnogion tir preifat (hectarau) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2024: 242.7ha<br>2025: 802.95ha (yn cynnwys Ffermio Bro)<br>+230.84% | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | Grŵp Arbenigol Bioamrywiaeth | tir sy'n eiddo i'r Awdurdod neu dir sy'n cael ei lesio gan yr Awdurdod a reolir ar gyfer bioamrywiaeth (hectarau) (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2025: 90ha<br>2026: Dim newid<br><br>Safleoedd dynodedig (SoDdGA, ACA) mewn cyflwr da neu ardderchog (%) *efallai na fydd data blynyddol ar gael* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EN4 | Cyflawni'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Natur a Charbon a chynlluniau eraill LIC i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | Cyfanswm y buddsoddiad ariannol mewn mentrau Natur a Charbon (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>Allbynnau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy pan fo hynny'n berthnasol<br><br>2024-25: Natur £195k 2025-26: Natur £120k<br><br>Carbon:<br>2024-25: Ystâd APCE £173k Y Gymuned: £200k = £373k<br>2025-26: Ystâd APCE £80k Y Gymuned £200k = £280k | Mae cyllid grant Cynllun TCLLC 2025-27 yn cefnogi 4 phrif brosiect i gefnogi nodau natur a datgarboneiddio:<br>➢ Eryri Nos (£170k)<br>➢ Coed a Choetiroedd Hynafol (£170k)<br>➢ Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy ar y safle (£160k)<br>➢ Datgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol (£200k)<br><br>Yn ogystal, mae cronfa gyfalaf cyffredinol o £660k yn cefnogi amryw o brosiectau gan gynnwys (Blwyddyn 1 o 2) £100k tuag at waith Cronfa Cymunedau Eryri i ariannu prosiectau datgarboneiddio cymunedol a chyllid ychwanegol tuag at brosiect datgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| EN5 | <u>Blaenoriaethau Ategol:</u><br>Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ymhlith staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif (Ansoddol)<br>• Mae coeden penderfyniadau teithio yn cael ei chreu i arwain staff drwy'r hierarchaeth teithio gynaliadwy a'r cynlluniau perthnasol (megis Cylch i Waith) er mwyn cefnogi dewisiadau teithio i'r gwaith a theithio bysus sy'n fwy ecogyfeillgar.<br>• Mae'r Awdurdod yn archwilio cynlluniau ceir aberthu cyflog, gyda phwyslais ar gerbydau hybrid a thrydanol (EV).<br>• Mae faniau EV wedi'u harchebu gan yr Awdurdod yn lle'r cerbydau ICE presennol a ddefnyddir gan ein technegwyr.<br>• Mae fideo tiwtorial wedi'i greu ar gyfer staff APCE ar archebu a defnyddio ceir trydan yn y fflyd ac wedi'i hyrwyddo ar fewnrwyd yr Awdurdod.<br>• Cyfrannau'n ariannol gyda Thrafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy tuag at rwydwaith Sherpa'r Wyddfa sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y teithwyr yn dilyn gwelliannau i'r rhwydwaith, ail-frandio ac ymgyrchoedd marchnata.<br>• Mae Grŵp Ogwen yn cynnwys NMWTRA, Traffig Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd, APCE, Cyngor Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion parcio a theithio. Mae'r grŵp wedi gweithio'n llwyddiannus ac wedi gweithredu gwelliannau fel llinellu melyn dwbl, arwyddion digidol, a rheolaeth well sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ardal.<br>• Grŵp Ogwen – yn edrych ar y posibiliadau o gynnal cynllun peilot parcio a theithio yn yr ardal, gan ddefnyddio safle Parc Busnes Bryn Cegin ar gyrion Bangor, rydym yn rhagweld y bydd y cynllun peilot yn weithredol yn 2026. |
| EN6 | Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas. | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br><br>Oherwydd amodau ffisegol nid oes gan PCEryri unrhyw laswellt y môr/cynefin posibl ond mae'n cefnogi rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig trwy ei gefnogaeth barhaus i swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae swyddogion wedi cefnogi Cyngor Gwynedd gyda gwirfoddolwyr (staff) i ymgymryd â gwaith ail-gylchdroi glaswellt y môr a chyfleoedd hyfforddi.<br><br>Nid oes unrhyw gyfle wedi codi i ymgymryd â gwaith morfa heli o fewn y flwyddyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| EN7 | Ymwneud â Chynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Mae'r broses o adolygu Cynllun Eryri (2026-2031) a'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd i ymgynghori ar ofynion y cyhoedd a gwahanol sectorau ar gyfer anghenion ynni.<br><br>Mae cyfraniad cynnar wedi ei roi i baratoi Cynlluniau Ynni Lleol Conwy a Gwynedd.<br><br>Gyda chyllid TCLIC, LIC, bydd prosiect dwy flynedd, 2025-27, yn ardal gadwraeth Dolgellau yn edrych yn benodol ar ddadgarboneiddio adeiladau traddodiadol. Bydd y prosiect yn hyrwyddo defnyddio ynni adnewyddadwy (ee trwy osod paneli ffotofoltaig solar, atgyweirio ffenestri a drysau traddodiadol, inswleiddio toeau, ôl-osod systemau gwresogi cynaliadwy addas, pwyntio a phlastro â chalch ac ati). |
| EN8 | Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastigau untro drwy annog pobl i beidio â'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>• Mae Polisi Plastig Untro ar waith yn yr Awdurdod, ynghyd â'r Polisi Caffael Gwyrdd (a fydd yn cael ei adolygu'n fuan).<br>• Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu'r Cynllun Busnes Di-blastig, gyda dros 40 o fusnesau'n cymryd rhan ac wedi ymrwymo i leihau gwastraff, gwella dulliau ailgylchu ac annog ymwelwyr i weithredu fel stiwardiaid amgylcheddol wrth ymweld ag Eryri.<br>• Mae prosiect TCLlC ar y gweill i ddatblygu platfform twristiaeth gynaliadwy tebyg i CopenPay, a fydd yn gwobrwyo ymwelwyr i gymryd camau cynaliadwy fel prynu'n lleol, defnyddio eitemau y gellir eu hailddefnyddio a chodi sbwriel. Mae'r ap yn cael ei adeiladu gan ddatblygwyr ar hyn o bryd ac mae cyfres gychwynnol o weithgareddau a gwobrau wedi'u cytuno gyda phartneriaid cyn defnyddio'r ap yn 2027. |

**RHAN B: Pobl a Lleoedd**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd: | Y MATH o Dystiolaeth i'w chyflwyno bob blwyddyn | Tystiolaeth, gan gynnwys Dangosyddion<br>CWBLHEWCH YR ADRAN HON Â DATA MEINTIOL | Naratif ategol, tueddiadau wedi'u gweld, esboniadau o ddata meintiol<br>CWBLHEWCH YR ADRAN HON Â DATA ANSODDOL |
|---|---|---|---|---|
| PP1 | Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro | Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor | Daliadau fferm a gefnogwyd (niferoedd)<br>2025: 41<br>Grwpiau ffermwyr a gefnogir (grwpiau neu gydweithrediadau presennol neu newydd)<br>2025: 12<br>Dylid adrodd am fanteision ecolegol o fewn EN3 | Enghreifftiau naratif, lle bo hynny'n berthnasol, o fecanweithiau adrodd presennol awdurdodau parc cenedlaethol.<br>Mae APCEryri yn gweithredu cynllun Ffermio Bro yn ardal y PC ac yn ardaloedd o AHNE Llŷn a Môn. Mae'n gadarnhaol nodi bod y diddordeb a ddangoswyd yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol uwch na'r cyllid sydd ar gael. Wrth i'r diddordeb gynyddu, mae'n debygol y bydd y prosiectau'n gwella dros amser. |
| PP2 | Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at ariannu Partneriaeth Galluogi Tai Gwledig yn ardal y PC ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Chymdeithasau Tai lleol sy'n weithredol yn yr ardal. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Galluogwr arolygon o anghenion tai lleol yng Ngellilydan, Maentwrog a Llanfachreth, a bydd rhaglen o arolygu yn parhau.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithio i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o unrhyw symiau cymudo tai fforddiadwy a dderbynnir i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol o fewn ardal y PC. Yn dilyn gwaith cymunedol yn ardal Penmachno a thrafodaethau rhwng Menter Iaith Conwy, mae'r Awdurdod yn parhau i ariannu swyddog tai dan arweiniad y gymuned ym Mhenmachno.<br>Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio symiau cymudo i ariannu Cynllun Prynu i Osod, Cyngor Gwynedd, sydd wedi galluogi prynu tair annedd, ac adnewyddu dwy annedd, sydd wedi arwain at gynnydd yn stoc y tai fforddiadwy.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cyfrannu, pan fo angen, at waith peilot LIC sy'n cael ei gynnal yn ardal Dwyfor.<br><br>Fel rhan o ymdrechion i atal unrhyw ostyngiad pellach yn y stoc tai bresennol sydd ar gael i gymunedau lleol, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn ardal Cynllunio APCE. Daeth y Cyfarwyddyd Erthygl 4 i rym ar 01.06.2025.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cyfathrebu'n rheolaidd â Landlordiad Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i helpu i hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy lle bo angen. Fodd bynnag, mae'n dod yn amlwg bod darparu cynlluniau tai fforddiadwy ar raddfa fach gan LCC yn dod yn fwyfwy heriol o ran hyfywedd. Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sefydlu Partneriaeth Tai Eryri i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Eryri newydd i ymateb i heriau tai o fewn y Parc Cenedlaethol. |
| PP3 | Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>• Cyfrannu'n ariannol ynghyd â phartneriaid tuag at rwydwaith Sherpa'r Wyddfa sydd wedi gweld cynnydd o 70% yn nifer y teithwyr yn dilyn gwelliannau i'r rhwydwaith, ail-frandio ac ymgyrchoedd marchnata.<br>• Yn ogystal, mae gwasanaethau bysiau T10 ac S1 yn cynnwys safle bws o fewn maes parcio'r Awdurdod ym Metws y Coed sy'n rhoi cyfle i barcio a theithio i rannau eraill o'r Parc Cenedlaethol.<br>• Mae Grŵp Ogwen yn cyfarfod yn fisol ac wedi gweithio'n llwyddiannus ac wedi gweithredu gwelliannau megis llinellau melyn dwbl, arwyddion digidol, a rheolaeth well sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ardal.<br>• Yn edrych ar y posibiliadau o gynnal peilot parcio a theithio yn yr ardal, gan ddefnyddio safle parc busnes Bryn Cegin, Bangor – gyda'r gobaith y bydd y peilot ar waith yn ystod 2026.<br>• Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru i gael Swyddog Heddlu ar leoliad o fewn gweithlu'r Awdurdod (tan fis Mehefin 2026), er mwyn gwella dealltwriaeth yr Heddlu o'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod.<br>• Gwaith partneriaeth yn arwain at Gyngor Gwynedd yn gosod llinellu melyn dwbl yn ardal Llangywer ac yn creu ffordd glir i rwystro ceir rhag parcio'n anghyfrifol.<br>• Treialu camerâu ANPR yn Llyn Tegid, Llangywer a safle Betws y Coed gan edrych ar opsiynau gorfodi.<br>• Creu a rhannu cynnwys digidol gyda phartneriaid. Negeseuon am ymweliadau cyfrifol, diogelwch, gan gynnwys parcio a theithio cynaliadwy. Gan gynnwys fan hysbysebu Heddlu Gogledd Cymru "ADVAN" Mentra'n Gall/Adventure Smart Wales a pharcio cyfrifol.<br>• Mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Chonwy rydym wedi datblygu modiwlau hyfforddi ar gyfer busnesau lleol ar negeseuon diogelwch a thwristiaeth gynaliadwy – mae hyn yn cynnwys dysgu ar-lein trwy ein modiwlau Llysgenhadon a sesiynau wyneb yn wyneb a drefnir trwy gyllid SPF. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PP4 | Cydweithio â phartneriaid allweddol fel Cadw a Trafnidiaeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth. | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | % o'r Hawliau Tramwy ar agor (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2,742.6km Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Eryri<br><br>59.86% o ardal ACPEryri gyda mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW)<br><br>Km o hawliau tramwy wedi'u gwella neu eu creu*. (sylwer – NID yw hyn yn cynnwys adfer na chynnal a chadw parhaus ar gyfer hawliau tramwy. MAE'N cynnwys rhannau lle mae gwelliannau i'r arwyneb wedi cael eu gwneud i gynyddu hygyrchedd, lle mae camfeydd wedi'u disodli â gatiau (gan gynnwys nifer ohonynt), lle defnyddiwyd Seilwaith Gwyrdd neu ddulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol.<br><br>*Dylid mesur hyn fel pellter i'r rhwystr nesaf neu 1km i gyfeiriad parhaus, pa un bynnag sy'n fyrraf. | Enghreifftiau naratif gan gynnwys nifer yr ymwelwyr i safleoedd diwylliannol rydych chi'n eu gweithredu, treftadaeth anniriaethol fel sgiliau traddodiadol, a gwaith i frwydro yn erbyn troseddau treftadaeth<br>Abergwynant: 1643m o lwybr Mynediad i Bawb wedi'i osod wedi'i dargedu'n benodol at ddefnyddwyr gwasanaeth cerbydau tramper yr Awdurdod.<br>Mynydd Moel, ger copa Cader Idris: 500m o gerrig wedi'u gosod i atal erydiad<br>Rhyd Ddu: Gosod 3 draen croes newydd a draeniad (50m) a gosod giât newydd.<br>Capel Curig: 2 ddraen croes newydd wedi'u gosod i wella draeniad a mynediad.<br>Crib y Ddysgl: Meini wedi'u gosod gan lifft hofrennydd i gau llwybr peryglus a hyrwyddo mynediad mwy diogel i'r Wyddfa.<br><br>Mae'r Ysgwrn yn safle diwylliannol o arwyddocâd cenedlaethol sy'n gwireddu blaenoriaethau diwylliannol LlC trwy ofalu am adeiladau, casgliadau ac ymgysylltu pobl â threftadaeth ddiwylliannol ddiriaethol ac anghyffyrddadwy. Cynhaliwyd dathliadau dydd Gŵyl Dewi, gan hyrwyddo blaenoriaethau LlC ar gyfer diwylliant.<br><br>Mae cyllid cynllun TCLIC, LlC, yn galluogi rhaglen sgiliau traddodiadol yn canolbwyntio ar sgiliau adeiladu traddodiadol a ffiniau traddodiadol. Mae 2 brentisiaeth sgiliau adeiladu traddodiadol ar fin cael eu lansio mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflwyno rhaglen sgiliau traddodiadol, trwy brosiect TCLIC, LLC, Datgarboneiddio Ardal Hanesyddol Dolgellau. Bydd 2 brentisiaeth sgiliau traddodiadol (22 mis yr un, Cynnal a Chadw Adeiladau Lefel 3) yn cael eu lansio ym mis Mehefin mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai a thrwy weithio gyda nifer o gontractwyr arbenigol.<br><br>Mae'r Awdurdod wedi sefydlu perthynas waith gyda Heddlu Gogledd Cymru ynghylch troseddau treftadaeth. Bydd y maes gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Eryri. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Partneriaeth ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Chonwy ac mae'n cynnwys y sector busnes twristiaeth a chymunedau lleol i gyflawni Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy 2025 ar gyfer Gwynedd ac Eryri. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr ardal ac am y tro cyntaf mae'n cynnwys y sector Twristiaeth a chymunedau'r ardal gan greu cynllun gweithredu blynyddol. |
| PP5 | Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â *Cymraeg 2050*: *Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif i'w darparu pan fydd y corff wedi cefnogi Cymraeg 2050 yn uniongyrchol. PEIDIWCH â chynnwys gofynion statudol fel cyfieithu dogfennau, dwyieithrwydd o fewn y corff ac ati.<br><br>➢ Ar 31.03.26., roedd gan yr Awdurdod 139 o staff ac roedd 132 neu 95% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg i'r lefel disgwyliedig o fewn eu rôl.<br>➢ Fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau i lywio adolygiad Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol), cynhaliwyd Gweithdy "Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant" ar 20.01.26, lle nododd y cyfranogwr yr iaith Gymraeg fel elfen allweddol i berthyn yn Eryri, a chynigion nhw fewnwelediadau gwerthfawr i sut y gallwn gyfrannu at ei chadwraeth a'i thwf.<br>➢ Bydd mewnbwn o'r Gweithdy ynghyd â'r 3 phrif gyfle a nodwyd yn adroddiad "Ein Hamser i Weithredu: Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2021-25", Comisiynydd y Gymraeg, yn cael ei ymgorffori yn adolygiad Cynllun Eryri ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn ogystal â datblygu polisi yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri.<br>➢ Gweithredu Polisi DP 18 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri, gan sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd. Yn osgytal ag annog pob arwydd gan gyrff cyhoeddus a chwmniau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig.<br>➢ Safoni enwau tirweddau Eryri, gan weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae argymhellion ar enwau rhaeadrau, copaon a chopaon mynyddoedd, llynnoedd a bylchau ymhlith y rhai sydd bellach wedi'u cyflwyno i'r Arolwg Ordnans, er mwyn diweddaru data mapio a hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o enwau tirweddau yn y Gymraeg.<br>➢ Mae enwau tirweddau hefyd yn cael eu casglu mewn cydweithrediad â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cynhaliwyd 16 gweithdy yng nghymunedau Eryri, gan gasglu dros 6,500 o enwau tirweddau hyd yn hyn. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PP6 | Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli | Data + Naratif, tueddiadau hirdymor | Nifer y cyfranogwyr mewn gweithgareddau sy'n cael eu rhedeg/cefnogi gan awdurdod parc cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, allgymorth a chynyddu mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br><br>Cynllun Ad-dalu cymunedol – 6 diwrnod gwaith<br>• Llyn Tegid – 1 diwrnod gwaith a fynychwyd gan 1 cyfranogwr<br>• Afon Mawddach – 1 diwrnod gwaith a fynychwyd gan 2 gyfranogwr<br>• Ysgwrn - 4 diwrnod gwaith a fynychwyd gan rhwng 1 a 5 cyfranogwr y sesiwn<br><br>Gwaith partneriaeth i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc digartref a/neu agored i niwed yng Ngwynedd: 4 Gweithgaredd a gynhaliwyd a fynychwyd gan 4-6 ym mhob sesiwn<br>Prosiectau i gael gwared ar rwystrau mynediad ffisegol.<br>2025: Llogi Tramper: 63<br>Enghreifftiau naratif | Enghreifftiau naratif<br><br>Gyda phenodiad Swyddog Pobl Ifanc newydd, rydym yn gobeithio datblygu rhaglen hirdymor a fydd yn datblygu'r sgiliau a'r cyfleoedd ymhellach trwy hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli, cymwysterau o fewn y sector cadwraeth a gweithgareddau awyr agored.<br><br>Ar draws yr holl weithgareddau lles a ddarparwyd yn ystod 2025, cymerodd cyfanswm o 166 o gyfranogwyr ran.<br><br>Symposiwm Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant – a fynychwyd gan 56 o ynigolion o wahanol sefydliadau a chefndiroedd. Gyda'r bwriad o greu polisi newydd ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol er mwyn mapio partneriaiad posibl a chydnabod grwpiau targed a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn Eryri. |
| PP7 | Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | Data + Naratif, tueddiadau hirdymor | Nifer y cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>Cynllun Llysgenhadon Eryri – dyma nifer y Llysgenhadon achrededig ar hyn o bryd: (yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers ei sefydlu):<br>ee 2024: Efydd 67; Arian 3, Aur 81<br>2026: Efydd 1436; Arian 1110; Aur 980<br><br>Hyfforddiant Sgiliau Traddodiadol:<br>• Gosod teiau/pileri llechi - 3 chwrs wedi'u harchebu'n llawn a mynychwyd gan 24 o bobl. | Enghreifftiau naratif<br>Yn 2025 ail-lansiwyd Cynllun Ceidwaid Ifanc Eryri a'i ehangu i gynnwys cynllun yr Arweinwyr Ifanc. Mae dros 40 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau misol a gynigir mewn gwahanol ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol, gydag ymrwymiad gan ein partneriaethau i ddatblygu'r cynllun yn ehangach. Rydym wedi recriwtio 9 o bobl ifanc i fod yn arweinwyr ar gyfer y cynllun.<br><br>COPA 1 (2024) a COPA 2 (2026): Cynhaliwyd COPA 1 mewn partneriaeth â Cadw Cymru'n Daclus wedi'i gynllunio i rymuso pobl ifanc i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol sy'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Plastro calch - 8 o bobl<br>• Effeithlonrwydd mewn adeiladau Traddodiadol – 20 o bobl<br>• Codi waliau cerrig sych – uwchsgilio un contractwr i gymhwyso fel hyfforddwr i'w gynnal<br>• x 4 crawiau<br>• x 2 Calch<br>Gyda mwy i'r cynnal<br><br>Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>1 x Hyfforddeion Coed a Choetiroedd (+50%)<br>2 x sgiliau Traddodiadol<br><br>Nifer yr oriau gwirfoddol a ddarparwyd (% -/+ o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)<br>2024: Dros 5000 awr<br>2025: Dros 6000 awr +20%<br><br>Oriau Gweithredu Cymdeithasol a gyfrannwyd<br><br>*Gweithredu cymdeithasol yw pobl sy'n dod at ei gilydd i fynd i'r afael â phroblem, cefnogi pobl eraill, neu wella eu hardal leol. Mae'n cynnwys pobl yn rhoi eu hamser ac adnoddau eraill er lles cyffredin, mewn amrediad o ffyrdd – o wirfoddoli i wasanaethau sy'n eiddo i'r gymuned, a rhwydweithiau cymheiriaid i drefnu cymunedol. | wynebu'r Wyddfa gyda ffocws sylfaenol ar leihau llygredd plastig untro fel rhan o brosiect "Yr Wyddfa Di-Blastig". Ar sail llwyddiant COPA 1 mae trefniadau'n symud ymlaen i gynnal COPA 2 yn 2026 ar y thema Coed Glaw Celtaidd.<br><br>Drwy raglenni fel Caru Eryri a'r Cynllun Warden Gwirfoddol, mae unigolion o bob oed a chefndir yn rhoi eu hamser a'u hegni i gefnogi gwaith yr Awdurdod ym meysydd cadwraeth, mynediad ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r rolau hyn yn cynnig profiad ymarferol o reoli cefn gwlad, cynnal llwybrau a chefnogi ymwelwyr – gan gynnig profiadau gwerthfawr a chyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n ehangu cyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Triniaethau ffenestri a thoeau traddodiadol:<br>Cwblhawyd gwerthusiad o'r prosiect hwn, sy'n sail i waith maes pellach yn ac o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.<br><br>Addysg:<br>Mae Eryri yn cynnig llwyfan addysgol gwych, gan feithrin dysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae cynlluniau prentisiaeth o fewn y Parc yn darparu cyfleoedd amhrisiadwy i unigolion ymgysylltu'n uniongyrchol â natur, hanes ac arferion cadwraeth. Drwy weithio ochr yn ochr â wardeiniaid, haneswyr a gwyddonwyr, mae'r unigolion hyn yn ennill sgiliau ymarferol wrth ddyfnhau eu dealltwriaeth o stiwardiaeth amgylcheddol a threftadaeth ddiwylliannol. Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, sy'n bartneriaeth o sefydliadau sy'n gweithio ar gynllun 5 mlynedd i helpu i ddiogelu treftadaeth y Carneddau, yn cynnig Prentisiaethau. Gweler rhagor o wybodaeth am y prosiect yma gan gynnwys Gair gan ein Prentis / A Word from our Apprentice - blog a ysgrifennwyd gan Eleri Turner (2021/22) a Sophie Davies (2022/23). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Drwy’r Cynllun hwn, mae rhaglen hyfforddi sgiliau traddodiadol hefyd, gan gynnwys codi waliau traddodiadol, plannu gwrychoedd a gwaith coed. Mae cynllun y Carneddau hefyd yn cynnig hyfforddiant sborion. |
| PP8 | <u>Blaenoriaethau Ategol:</u><br>Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Cyfraniad cyfyngedig. Bydd mentrau ar y cyd yn cael eu datblygu gyda chynhyrchwyr lleol fel rhan o ddathliadau 75 mlynedd APCEryri. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PP9 | Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Dim dyfroedd wyneb dynodedig ar y tir.<br><br>Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC): Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy yw’r cyrff cymeradwyo SDC a rhaid iddynt gymeradwyo cynlluniau SDC cyn dechrau’r gwaith adeiladu. Mae’r broses o gymeradwyo cynlluniau draenio ar wahân i dderbyn caniatâd cynllunio; fodd bynnag, mae’r Awdurdod yn annog datblygwyr i ystyried y ddau broses gyda’i gilydd gan y gall un effeithio ar y llall. |
| PP10 | Bod yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br><br>Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu’n weithredol â’r gwaith hwn ac yn ei gefnogi pan fydd cyfleoedd yn codi. |

**RHAN C: Llywodraethiant a Chydweithredu**

| Cyf | Blaenoriaethau Craidd: | Y MATH o Dystiolaeth i'w chyflwyno bob blwyddyn | Naratif ategol, tueddiadau wedi'u gweld, esboniadau o ddata meintiol<br>CWBLHEWCH YR ADRAN HON Â DATA ANSODDOL |
|---|---|---|---|
| GC1 | Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethiant gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant a'i gilydd | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Gwaith a wnaed i ymgorffori Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 drwy ffurfioli cyfranogiad undebau llafur mewn datblygu polisi strategol drwy'r Cyd Weithgor Lleol (Pwyllgor ffurfiol Aelodau'r Awdurdod a Chynrychiolwyr Undebau). Fel rhan o hyn, cytunodd 2 gynrychiolydd undeb staff (un Unison, un GMB) i fod yn Hyrwyddwyr Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer yr Awdurdod, ac maent wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein gofynnol.<br><br>Gweithiodd Eryri ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a'r 2 APC arall yng Nghymru ar Lywodraethu Aelodau Effeithiol yn ystod chwarter olaf 2025/26. Bwriedir cyflwyno hyn i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Canolbwyntiodd Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru (Hydref 2025) a drefnwyd a'i gynnal gan Eryri, ar rannu arfer gorau mewn Cadwraeth Natur. Roedd hyn yn cynnwys mewnwelediadau i sut y gall strwythurau llywodraethu cryf a ymgorfforwyd mewn rheoli prosiectau hwyluso a galluogi'r canlyniadau gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael. |
| GC2 | Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Er mai dim ond dylanwadu ymylol sydd gan yr Awdurdod ar ddewis ein Haelodau, gallwn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu ceisio a'u bwydo i'n prosesau gwneud penderfyniadau mewn meysydd eraill.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn gwahodd ceisiadau ar gyfer y tymor aelodau nesaf ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol Gogledd Eryri a De Eryri. Mae hyrwyddo a hysbysebu wedi canolbwyntio ar amrywio cynrychiolaeth.<br><br>Awdurdod Llawn<br>Oedran cyfartalog cymedrig Aelodau'r Awdurdod: 60<br>Benyw: 10 (56%)<br>Gwryw: 8 (44%)<br><br>Tim Arweinyddiaeth:<br>Benyw: 3 (75%) Gwryw: 1 (25%) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| GC3 | Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>➢ Mae APCE yn cyfrannu at gyfarfodydd a rhaglen waith Tirweddau Cymru (TC)<br>➢ Cyfarfu Timau Arweinyddiaeth PCCymru ym mis Hydref y llynedd i drafod rhaglen waith strategol a phrosiectau cydweithredol. Mae Eryri yn bwriadu cynnal sesiwn arall ym mis Medi/Hydref 2026.<br>➢ Gwaith cydweithredol Prosiect Nos, mae swyddog Awyr Dywyll Eryri yn gweithio ar draws Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru.<br>➢ Gwaith cydweithredol Ffermio Bro, mae Eryri yn gweinyddu Ffermio Bro ar ran y 2 Dirwedd Genedlaethol gyfagos, Ynys Môn a Llŷn - mae'r model hwn yn ymddangos yn gweithio'n dda.<br>➢ Cydweithio ar danau gwyllt (ar lefel y DU a Chymru) – mae canllawiau yn y cyfnod paratoi cynnar<br>➢ Mae Eryri yn gweithio gyda LlC ac APCau eraill at atebolrwydd Aelodau |
| GC4 | Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, darpariaeth hyfforddi a phecynnau cymorth, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau | Data ar ymgysylltu â hyfforddiant Llywodraethu, Enghreifftiau naratif, tueddiadau hirdymor | % yr aelodau sydd wedi mynychu pob un o'r pedair sesiwn hyfforddiant ar-lein ar lywodraethu neu wedi gwylio'r recordiadau<br>Hyfforddiant ar-lein wedi'i drefnu'n uniongyrchol gan LIC. Aelodau wedi cofrestru'n uniongyrchol gyda LLC.<br>Enghreifftiau naratif<br>➢ Mae pob aelod o APCE wedi derbyn copi o Lawlyfr Llywodraethu'r Aelodau<br>➢ Bydd Aelodau newydd yn derbyn copi fel rhan o'u pecyn sefydlu, a chaiff materion llywodraethu eu trafod yn eu Sesiwn Sefydlu. Derbyniodd 4 aelod newydd lawlyfr a mynychu sesiwn sefydlu yn 2025-26. Mynychodd 2 o'r aelodau newydd sesiwn sefydlu PCyDU hefyd. |
| GC5 | Rhannu profiad a'r arferion gorau wrth i'r broses ddynodi ar gyfer creu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddi. | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>➢ Cyngor a chymorth cychwynnol a rhannu arfer da wedi ei roi i Gyfoeth Naturiol Cymru ar y ffordd orau o gynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyflwyno'r PC newydd arfaethedig.<br>➢ Ymateb i ymgynghoriadau LlC<br>➢ Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd i drafod cynnydd, rhannu arfer da ac ati gyda swyddogion LlC. |
| GC6 | <u>Blaenoriaethau Ategol:</u> Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy gydweithio ar lefel | Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir | Enghreifftiau naratif<br>Mae aelod wedi'i benodi ar ran yr Awdurdod i eistedd ar Bwyllgor y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth a'r Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant.<br><br>Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol bellach wedi dechrau gweithio ar drydydd elfen ei gylch gorchwyl, sef cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r cytundeb cyflawni ar gyfer y CDS wedi'i gytuno ac mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo. Bydd swyddogion yn parhau i rannu tystiolaeth yn ôl yr angen. Mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ranbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyniad i gynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn a seilwaith gwyrdd). | | Eryri hefyd yn y broses o adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol a chytunwyd ar y Cytundeb Cyflawni gyda Llywodraeth Cymru yn Hydref 2025. Felly, bydd amserlen y ddau gynllun yn rhedeg ochr yn ochr gan roi cyfle i rannu gwybodaeth a dylanwadu ar gynnwys y ddau gynllun. Bydd hyn yn rhoi cyfle i roi mwy o bwyslais ar rwydweithiau ecolegol gwydn a seilwaith gwyrdd. |

**Eitem Rhif 17**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Prosiect Datblygu Plas Tan y Bwlch** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Rheoli Tir |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau ar ddatblygiad y prosiect a gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno cais cyfnod datblygu i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Ers dechrau 2025, mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar brosiect i sefydlu dyfodol cynaliadwy i Blas Tan y Bwlch.

1.2. Cyflwynwyd Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Mawrth 2025 a Chwefror 2026.

1.3. Bydd cais cyfnod datblygu yn cael ei gyflwyno ym mis Awst 2026 a bydd penderfyniad ar y cais erbyn Rhagfyr 2026.

1.4. Cynigir i'r prosiect datblygu gynnwys:

- Sefydlu defnydd cynaliadwy ar gyfer un o adeiladau a gerddi hanesyddol pwysicaf Eryri.
- Sefydlu oriel newydd o gelf hanesyddol Gymreig, gan weithio gydag Amgueddfa Cymru a Peter Lord. Bydd yr elfen hon yn cynnwys partneriaethau gyda sefydliadau eraill sy'n gofalu am gasgliadau arwyddocaol o gelf Gymreig, i ddarparu arddangosfeydd sy'n dehongli hanes Eryri a Chymru i gynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Darparu gofod ar gyfer defnydd cymunedol ac ymwelwyr.
- Cyflwyno prosiect esiampl sy'n dangos yr hyn sy'n bosibl o ran adeilad modern, addas i'w bwrpas, ecogyfeillgar sy'n cyd-fynd â'i leoliad o fewn adeilad rhestredig, Safle Treftadaeth y Byd a thirwedd ddynodedig, gan gyfarch adferiad natur, datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd.
- Mannau dysgu ar gyfer darganfod ac archwilio Parciau Cenedlaethol, unigedd, bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd, darparu hyfforddiant sgiliau a thargedu cynulleidfaoedd allweddol gan gynnwys cymunedau, teuluoedd, darparwyr addysg, busnesau, cyrff traws-sector ac ymwelwyr.
- Gweithgarwch masnachol ar y safle, gan gynhyrchu ffrydiau incwm amrywiol.

- Darparu pencadlys i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (o fewn ffin y Parc), gan ddod â'r Awdurdod yn agosach at gymunedau a rhanddeiliaid.

## 2. Y STORI ERS HAF 2025

2.1. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd tîm dylunio dan arweiniad Cymdeithion Donald Insall (Conwy) i weithio gyda'r Awdurdod i ddatblygu cynlluniau cychwynnol ar gyfer Plas Tan y Bwlch a fydd yn llywio'r cais cyfnod datblygu.

2.2. Mae grant o £7,500 a dderbyniwyd gan Cadw yn Hydref 2025 wedi galluogi'r Awdurdod i gomisiynu Donald Insall Associates i gynhyrchu Cynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer gerddi rhestredig Plas Tan y Bwlch, gan osod y weledigaeth a'r egwyddorion hirdymor ar gyfer eu hadfer a'u cynnal.

2.3. Mae APCE wedi derbyn grant Creu gwerth £50,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gyflwyno prosiect Artist mewn Gwasanaeth. Penodwyd y bardd Meleri Davies yn Artist mewn Gwasanaeth, i ymgysylltu â chymunedau, yr Awdurdod, y Tîm Dylunio ac artistiaid llawrydd, er mwyn sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar ddatblygiad Plas Tan y Bwlch.

## 3. YMGYSYLLTU

3.1. Mae cyfleu llais cymunedau Eryri, ac yn benodol y rhai agosaf at Blas Tan y Bwlch (Maentwrog, Ffestiniog, Talsarnau, Penrhyndeudraeth a Phorthmadog), yn hanfodol i'r prosiect datblygu. Mae cymunedau wedi'u hymgysylltu drwy sesiynau galw heibio er mwyn casglu barn a syniadau a rhannu cynlluniau cychwynnol. Cynhaliwyd rhai gweithgareddau cychwynnol sy'n cyfarch meysydd sy'n benodol berthnasol i'r prosiect, megis gweithdy i gasglu enwau tirweddol a darlithoedd ar Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a chelf hanesyddol Gymreig. Derbyniodd y sesiynau gefnogaeth gref gan gymunedau lleol ac mae'r farn a fynegwyd yn dangos cefnogaeth i ethos a chyfeiriad y prosiect datblygu.

3.2. Mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned Maentwrog, Ffestiniog, Talsarnau, Penrhyndeudraeth a Phorthmadog. Mynegodd pob Cyngor eu cefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

3.3. Mae swyddogion a'r Tîm Dylunio wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid a chyllidwyr, gan gynnwys: grwpiau a chyrff cymunedol, Rheilffordd Ffestiniog, Cyngor Gwynedd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cadw, Llywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, National Grid a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

3.4. Mae staff ac Aelodau wedi cyfrannu at siapio'r prosiect drwy sesiynau galw heibio, diweddariadau Grŵp Gwaith a Diwrnod Datblygu Aelodau. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio gymunedol ym mis Mai 2026 i'w diweddaru ar y cynlluniau a gwahodd adborth.

3.5. Rhannwyd erthyglau hefyd mewn papurau bro lleol, *Yr Wylan* a *Llafar Bro*. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i erthyglau yn y ddau gyhoeddiad.

## 4. CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL A MATERION ARIANNOL

4.1. Mae swyddogion a'r Tîm Dylunio ar hyn o bryd yn gweithio ar y cais Cyfnod Datblygu. Disgwylir i werth y cais hwn fod tua £550,000, a bydd yr Awdurdod yn gofyn am grant o 90% tuag at y costau hyn. Bydd yr Awdurdod yn darparu'r arian cyfatebol ac mae opsiynau ar gyfer cyllid partneriaethol posib ar gyfer y cyfnod datblygu yn dal i gael ei archwilio.

4.2. Mae swyddogion wedi cwrdd â swyddogion y Gronfa Dreftadaeth sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae'r Gronfa'n deall yn llawn arwyddocâd y prosiect i'r Awdurdod. Bydd swyddogion y Gronfa yn ymweld â Phlas Tan y Bwlch cyn i'r cais cyfnod datblygu gael ei gyflwyno.

4.3. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd cyfnod datblygu dwy flynedd yn dilyn i gynhyrchu cynlluniau manwl, llawn. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno cais cyfnod cyflawni i'r Gronfa Dreftadaeth i wireddu'r weledigaeth a'r cynlluniau, yn ogystal â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Os bydd y cais cyfnod cyflawni yn llwyddiannus, bydd cyfnod cyflawni o bum mlynedd yn dilyn. Disgwylir i werth y cais cyfnod cyflawni fod tua £15,396,250 a bydd yr Awdurdod yn gofyn am hyd at 80% o'r costau gan y Gronfa Dreftadaeth. Mae trafodaethau ynghylch cyllid cyfatebol yn parhau gyda sawl cyllidwr, ond mae'n rhy gynnar i gadarnhau manylion.

4.4. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn Haf 2034

4.5. Mae rhagolygon costau refeniw tymor hir ar gyfer rhedeg Plas Tan y Bwlch ar ôl cwblhau'r prosiect yn cael eu hadolygu a'u craffu.

## 5. RISGIAU

5.1. Mae'r Awdurdod yn wynebu risgiau sylweddol wrth ymgymryd â phrosiect o'r raddfa hon. Mae swyddogion a'r Tîm Dylunio yn pwyso a mesur y risgiau hyn yn barhaus yn erbyn y cyfleoedd a ddarperir gan y prosiect a'r risg barhaus sy'n gysylltiedig â Phlas Tan y Bwlch, os na wneir dim byd.

5.2. Risgiau ariannol ac enw da yw'r prif rai. Er eu bod yn sylweddol, ystyrir eu bod yn rheoladwy ar hyn o bryd.

## 6. CAMAU NESAF

6.1. Parhau i graffu ar gostau'r prosiect a'r costau rhedeg hirdymor (cyfalaf a refeniw).

6.2. Parhau i weithio gyda'r Tîm Dylunio a phartneriaid tuag at gyflwyno'r cais cyfnod datblygu.

6.3. Cwblhau a chyflwyno'r cais cyfnod datblygu i'r Gronfa Dreftadaeth.

6.4. Parhau i ymgysylltu â staff, Aelodau, y gymuned a rhanddeiliaid drwy gydol y broses.

## 7. ARGYMHELLIAD

I Aelodau gymeradwyo'r prosiect i'w gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ffurf cais cyfnod datblygu ym mis Awst 2026, gyda diweddariad pellach i'w gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2027.

**Eitem Rhif 18**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026 – 2031** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gwasanaeth Eiddo |
| **PWRPAS** | Derbyn a mabwysiadu Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026 – 2031 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau blaenorol wedi diweddu ei gyfnod ac wedi cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i fireinio i adlewyrchu diweddariadau polisi, deddfwriaeth a chanllawiau.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Mae'r Cynllun Asedau newydd wedi ei rannu yn dair rhan, gan amlinellu yn gyntaf y polisi ac aliniad gyda deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau eraill. Mae'r ail ran yn nodi'r cyfeiriad strategol ac yna'r drydedd rhan yn manylu ar y Cynllun Rheoli Asedau am y cyfnod 2026 hyd 2031.

2.2 Trafodwyd drafft o'r Cynllun Asedau gyda'r Is-grŵp Asedau ar y 29ain o Ebrill 2026. Cytunwyd ar addasiadau priodol gyda drafft terfynol i gael ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth ac argymhelliad yr Is-grŵp Asedau i'r Awdurdod fabwysiadau'r cynllun newydd yn ei gyfarfod nesaf.

2.3 Fel y nodir yn y ddogfen bydd cynllun gweithredu blynyddol yn deillio i sicrhau cyflawniad a diweddariadau ac adolygiad blynyddol gan yr Is-grŵp Asedau ar gynnydd y cynllun newydd.

## 3. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2026 – 2031

3.1 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau newydd wedi ei atodi yn Atodiad 1 a bydd yn weithredol ar ei fabwysiadu.

## 4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

4.1 Mae cyfnod ariannol heriol yn parhau i'r Awdurdod, ac fel y nodir yn y Cynllun Rheoli Asedau mae gwaith ar y gweill i wella gwytnwch ariannol i allu ail fuddsoddi a chynnal ein heiddo ac i gynnal yn ddarbodus y gronfa wrth gefn. Bydd y gwaith yma yn parhau trwy gyfnod y Cynllun newydd.

## 5. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a mabwysiadu'r ddogfen ynghlwm "Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau 2026-2031" fel yr argymhellir gan yr Is-grŵp Asedau.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

# Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau

# Asset Management Policy, Strategy and Plan

2026-2031



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru

# **RHAN UN:** POLISI RHEOLI ASEDAU
# **PART ONE:** ASSET MANAGEMENT POLICY

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn rheoli portffolio amrywiol o asedau tir ac eiddo ar draws Tirwedd Ddynodedig fwyaf Cymru. Mae'r Polisi Rheoli Asedau hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n llywodraethu sut mae'r Awdurdod yn caffael, rheoli, cynnal a gwaredu ei asedau. Mae'n darparu'r sylfaen y mae'r Strategaeth a'r Cynllun Rheoli Asedau yn llifo ohoni. Mae'r polisi'n berthnasol i bob ased tir ac adeilad sy'n eiddo i'r Awdurdod neu'n cael ei brydlesu ganddo, gan gynnwys canolfannau ymwelwyr, meysydd parcio, swyddfeydd, coetiroedd, cronfeydd dŵr, strwythurau treftadaeth, cyfleusterau cyhoeddus a chyfleusterau gweithredol eraill.

### 1.2 Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi

Datblygwyd y polisi hwn yn unol â ac i gefnogi:

- Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n sefydlu dau ddiben statudol Parciau Cenedlaethol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'n gynaliadwy a gwella llesiant Cymru
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod ynghylch bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
- Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol Llywodraeth Cymru 2021-2026 (yn gosod gweledigaeth gyffredin ar gyfer Ystadau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru)
- Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri)

### 1.1 Introduction

Eryri National Park Authority (ENPA) manages a diverse portfolio of land and property assets across Wales's largest Designated Landscape. This Asset Management Policy sets out the overarching principles that govern how the Authority acquires, manages, maintains and disposes of its assets. It provides the foundation from which the Asset Management Strategy and Plan flow.
The policy applies to all land and property assets owned or leased by the Authority, including visitor centres, car parks, offices, woodlands, reservoirs, heritage structures, public conveniences and other operational facilities.

### 1.2 Legislative and Policy Framework

This policy has been developed in accordance with and in support of:

- Environment Act 1995 establishing the two statutory purposes of National Parks
- Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requiring public bodies to act sustainably and improve the well-being of Wales
- Environment (Wales) Act 2016 placing duties on the Authority regarding biodiversity and resilience of ecosystems
- Historic Environment (Wales) Act 2023
- Welsh Government Corporate Asset Management Policy 2021–2026 (setting shared vision for Ystadau Cymru working in partnership across the public sector in Wales)
- Cynllun Eryri (Eryri National Park Management Plan)

- Cynllun Datblygu Lleol Eryri
- Rhaglen Waith Corfforaethol APCE (a adolygir yn flynyddol) a Datganiad ac Amcanion Llesiant (fel y'u mabwysiadwyd yn 2021 ac a adolygwyd)

Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i Ganllawiau CIPFA 'Canllaw i Reoli Asedau Awdurdodau Lleol a'r Sector Cyhoeddus'.

### 1.3 Dibenion y Parc Cenedlaethol

Rhaid i bob penderfyniad rheoli asedau wasanaethu dau ddiben statudol yr Awdurdod, fel y nodir yn Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

1. Cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Eryri
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

Lle mae'r dibenion hyn yn gwrthdaro, mae Egwyddor Sandford yn berthnasol: bydd cadwraeth yr amgylchedd naturiol yn cael blaenoriaeth.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cario dyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc.

### 1.4 Ymrwymiadau Polisi

Polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw:

**i. Alinio asedau â dibenion craidd**

Sicrhau bod pob ased eiddo yn cael ei reoli, ei ddatblygu neu ei waredu mewn modd sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gallu i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, y Cynllun Corfforaethol ac amcanion cynllun rheoli Cynllun Eryri.

- Eryri Local Development Plan
- ENPA Corporate Work Programme (reviewed annually) and Well-being Statement and Objectives (as adopted in 2021 and reviewed)

In addition regard has been had to the CIPFA Guidelines 'A Guide to Local Authority and Public Sector Asset Management'.

### 1.3 National Park Purposes

All asset management decisions must serve the Authority's two statutory purposes, as set out in Section 61 of the Environment Act 1995:

1. To conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of Eryri
2. To promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of the National Park by the public

Where these purposes conflict, the Sandford Principle applies: the conservation of the natural environment shall take priority.

The Authority also carries the duty to seek to foster the economic and social well-being of local communities within the Park.

### 1.4 Policy Commitments

It is the policy of Eryri National Park Authority to:

**i. Align assets with core purposes**

Ensure that all property assets are managed, developed or disposed of in a manner that directly supports the delivery of National Park purposes, the Corporate Plan and the Cynllun Eryri management plan objectives.

**ii. Cymhwyso dull gwerth cyhoeddus**

Rheoli asedau tir ac adeiladau fel adnodd corfforaethol i gyflawni canlyniadau gwerth cyhoeddus i drigolion, ymwelwyr a chymunedau, gan gyfrannu at saith nod llesiant Cymru.

**iii. Gweithredu arfer dylunio a rheoli ystadau da**

Cynnal asedau i safon sy'n ddiogel, yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn addas at y diben ac yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Awdurdod fel ceidwad tirwedd ddynodedig. Dylunio lleoedd gan ddilyn egwyddorion y siarter 'Creu Lleoedd Cymru' y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt.

**iv. Dilyn cynaliadwyedd, adfer natur a datgarboneiddio**

Rheoli'r ystâd mewn ffordd sy'n cyfrannu'n weithredol at uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru, gan leihau carbon o adeiladau a gweithrediadau'r Awdurdod, gwella gwerth bioamrywiaeth a chyfrannu at y cynllun gweithredu adfer natur ar yr holl dir a ddelir.

**v. Nodi cyfleoedd incwm ac effeithlonrwydd**

Rheoli'r ystâd yn effeithiol ac effeithlon a cheisio cyfleoedd i gynhyrchu incwm a rhyddhau cyllid cyfalaf a refeniw drwy'r portffolio, lle mae hyn yn gyson â dibenion y Parc Cenedlaethol ac nad yw'n tanseilio'r amgylchedd naturiol na diwylliannol yn unol â pholisi Gwaredu a Chaffael Asedau APCE a fabwysiadwyd ac a ddiwygiwyd ac yn cynnig cost a buddion i'r Awdurdod (gweler Atodiad 1)

**ii. Apply a public value approach**

Manage land and property assets as a corporate resource to deliver public value outcomes for residents, visitors and communities, contributing to the seven well-being goals of Wales.

**iii. Implement good design and estate management practice**

Maintain assets to a standard that is safe, legally compliant, fit for purpose and reflective of the Authority's responsibilities as steward of a designated landscape. Placemaking design following the principles of the 'Placemaking Design Charter' which the Authority has adopted.

**iv. Pursue sustainability, nature recovery and decarbonisation**

Manage the estate in a way that actively contributes to the Welsh Government's net-zero ambitions, reducing carbon from the Authority's buildings and operations, improve the biodiversity value and contribute to the nature recovery action plan across all land held.

**v. Identify income and efficiency opportunities**

Manage the estate effectively and efficiently and seek opportunities to generate income and release capital and revenue funding through the portfolio, where this is consistent with National Park purposes and does not compromise the natural or cultural environment as per the ENPA Asset Disposal and Acquisition policy adopted and as amended which offers cost benefits to the Authority (see Appendix 1)

**vi. Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg**

Sicrhau bod penderfyniadau rheoli asedau yn cydnabod ac yn amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol Eryri ac yn cefnogi'r Iaith Gymraeg yn weithredol fel rhinwedd arbennig y Parc Cenedlaethol.

**vii. Sicrhau tryloywder a llywodraethu da**

Bydd pob penderfyniad sylweddol ynghylch asedau, gan gynnwys caffaeliadau, gwarediadau a buddsoddiad cyfalaf grant sylweddol, yn destun craffu priodol gan yr Aelodau drwy'r Is-grŵp Asedau a'r Awdurdod llawn, gyda phenderfyniadau wedi'u dogfennu a'u hadrodd yn glir yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod.

**viii. Cefnogi mynediad cynhwysol**

Sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli a'u datblygu mewn ffordd sy'n hyrwyddo mynediad cynhwysol i bob aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai ag anableddau, ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau sy'n byw ac yn ymweld ag Eryri.

**vi. Promote cultural heritage and the Welsh Language**

Ensure that asset management decisions recognise and protect the cultural heritage of Eryri and actively support the Welsh Language as a special quality of the National Park.

**vii. Ensure transparency and good governance**

All significant asset decisions including acquisitions, disposals and grant capital investment shall be subject to appropriate Member scrutiny through the Assets Sub-Group and full Authority, with decisions clearly documented and reported in line with the Authority's Standing Orders.

**viii. Support inclusive access**

Ensure that assets are managed and developed in a way that promotes inclusive access for all members of the public, including those with disabilities, and reflects the diversity of communities who live within and visit Eryri.

# **RHAN DAU:** STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU
# **PART TWO:** ASSET MANAGEMENT STRATEGY

### 2.1 Gweledigaeth

"***Bydd asedau tir ac eiddo'r Awdurdod yn cael eu rheoli fel ystâd gydlynol, gynaliadwy sy'n adlewyrchu gwerthoedd Eryri: adfer natur a lliniaru effeithiau newid hinsawdd, gwarchod tirwedd eithriadol, galluogi pobl i'w phrofi a'i deall, a chefnogi cymunedau a ffyniant yr iaith Gymraeg, nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol***."

### 2.2 Cyd-destun Strategol

Mae'r cyfnod 2026-2031 yn cyflwyno cyfleoedd a heriau sylweddol ar gyfer rheoli asedau yn Eryri. Mae niferoedd ymwelwyr wedi rhoi pwysau cynyddol ar safleoedd a seilwaith allweddol. Mae newid hinsawdd yn cyflymu dirywiad rhai asedau tra hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ystâd chwarae rhan fwy mewn adfer natur ac atafaelu carbon. Mae cyfyngiadau cyllidebol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fod yn gynyddol strategol ynghylch buddsoddiad cyfalaf ac i wneud y mwyaf o werth ei ystâd.

Mae'r ystâd yn amrywiol. Mae'n cynnwys cyfleusterau eiconig i ymwelwyr fel y rhai ar Yr Wyddfa ac Ogwen, meysydd parcio gweithredol a chyfleusterau cyhoeddus mewn lleoliadau â nifer uchel o ymwelwyr, adeiladau hanesyddol a rhestredig, coetiroedd, cronfeydd dŵr, tir amwynder a phori, swyddfeydd gweithredol ac eiddo ar brydles. Mae'r amrywiaeth hon yn gofyn am ystod eang o sgiliau rheoli asedau a fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau.

### 2.1 Vision

***"The Authority's land and property assets will be managed as a coherent, sustainable estate that exemplifies the values of Eryri: nature recovery and mitigating climate change effects, conserving an outstanding landscape, enabling people to experience and understand it, and supporting thriving Welsh-speaking communities — now and for future generations."***

### 2.2 Strategic Context

The period 2026–2031 presents significant opportunities and challenges for asset management in Eryri. Visitor numbers have placed increasing pressure on key sites and infrastructure. Climate change is accelerating the deterioration of some assets while also requiring the estate to play a greater role in nature recovery and carbon sequestration. Budget constraints require the Authority to be increasingly strategic about capital investment and to maximise the value of its estate.

The estate is diverse. It includes iconic visitor facilities such as those at Yr Wyddfa and Ogwen, working car parks and public conveniences at high-footfall locations, historic and listed buildings, woodlands, reservoirs, amenity and grazing land, operational offices and leased premises. This diversity requires a broad range of asset management skills and a clear framework for decision-making.

## 2.3 Blaenoriaethau Strategol 2026-2031

***(noder bod yr holl flaenoriaethau yn gyfartal, nid oes un gyfuwch na'r gweddill)***

Mae'r strategaeth wedi'i gosod o amgylch pum blaenoriaeth strategol, pob un wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r ymrwymiadau Polisi a amlinellir yn Rhan Un uchod.

**Blaenoriaeth 1: Adfer Natur a Bioamrywiaeth**

Rheoli asedau tir gan gynnwys coetiroedd, cronfeydd dŵr/llynnoedd a thir amwynder i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at fioamrywiaeth, adfer mawndir ac adfer natur, yn gyson â thargedau Cynllun Eryri a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri a Chymru.

**Blaenoriaeth 2: Seilwaith Ymwelwyr Addas at y Diben**

Buddsoddi mewn asedau sy'n wynebu ymwelwyr megis Meysydd parcio, cyfleusterau cyhoeddus, cyfleusterau dehongli a seilwaith sy'n ddiogel, o ansawdd uchel, yn gynaliadwy ac yn gyson â chymeriad tirwedd Eryri. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r safleoedd sydd dan bwysau a gwella seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy.

**Blaenoriaeth 3: Datgarboneiddio'r Ystâd Adeiledig**

Rhaglen barhaus i asesu a lleihau ôl troed carbon pob adeilad a feddiannir gan ENPA, gan flaenoriaethu asedau defnydd ynni uchel. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i ffabrig adeiladau, trosglwyddo i ffynonellau ynni adnewyddadwy a lleihau'r defnydd o ynni gweithredol yn unol â thargedau sero net Llywodraeth Cymru.

**Blaenoriaeth 4: Cadwraeth Asedau Treftadaeth**

Datblygu rhaglen glir ar gyfer cynnal a chadw a gwella adeiladau rhestredig a threftadaeth o fewn y portffolio, gan sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a, lle bo'n briodol, cynhyrchu incwm i gynorthwyo neu gyfrannu at eu costau rhedeg.

## 2.3 Strategic Priorities 2026–2031

***(note that all priorities are equal, none outweighs the others)***

The strategy is set around five strategic priorities, each linked directly to the Policy commitments outlined in Part One above.

**Priority 1: Nature Recovery and Biodiversity**

Managing land assets including woodlands, reservoirs/lakes and amenity land to maximise their contribution to biodiversity, peatland restoration and nature recovery, consistent with the Cynllun Eryri targets together with Eryri and Wales's Nature Recovery Action Plan.

**Priority 2: Fit-for-Purpose Visitor Infrastructure Investment in visitor-facing assets**

Car parks, public conveniences, interpretation facilities and infrastructure that are safe, high quality, sustainable and consistent with the landscape character of Eryri. This includes addressing the pressure on oversubscribed sites and improving sustainable transport infrastructure.

**Priority 3: Decarbonisation of the Built Estate**

A continuous programme to assess and reduce the carbon footprint of all ENPA occupied buildings, prioritising high energy use assets. This includes building fabric improvements, transitioning to renewable energy sources and reducing operational energy consumption in line with Welsh Government's net-zero targets.

**Priority 4: Heritage Asset Conservation**

Developing a clear programme for the maintenance and enhancement of listed and heritage buildings within the portfolio, ensuring these assets are preserved for future generations and, where appropriate, generate income to assist with/offset their running costs.

**Blaenoriaeth 5: Adolygu Ystadau a Chynhyrchu Incwm**

Cynnal adolygiad rheolaidd o'r holl asedau i nodi'r rhai sydd yn weddill i'r angen, sy'n tanberfformio neu nad ydynt bellach yn cyd-fynd â dibenion yr Awdurdod. Ystyried caffaeliadau yn unol â pholisi mabwysiedig a'u rhwymedigaethau adnoddau hirdymor. Bydd cyfleoedd gwaredu, prydlesu neu ail-bwrpasu yn cael eu dilyn lle maent yn darparu gwerth cyhoeddus ac yn cefnogi lles cymunedol fel yr amlinellir yn y broses gwneud penderfyniadau polisi.

**2.4 Trefniadau Llywodraethu**

Mae'r penderfyniadau dros asedau yn nwylo'r Awdurdod llawn yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Mae swyddogaeth Aelodau'r Is-grŵp Asedau yn cynnwys craffu, goruchwylio, adolygu a datblygu polisïau ac argymhellion manwl ar bob mater eiddo. Mae swyddogion o'r Adran Eiddo yn arwain ar yr ystâd adeiledig a'r cyfleusterau; mae'r Adran Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yn arwain ar asedau coetiroedd. Cymerir dull trawsadrannol i sicrhau bod penderfyniadau asedau yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion gwasanaeth.

Mae Pennaeth Gwasanaethau Eiddo yn darparu adroddiadau i'r Is-grŵp Asedau ac i'r Awdurdod llawn ar benderfyniadau rheoli asedau. Trafodir a chytunir ar benderfyniadau strategol a blaenoriaethau ar gyfer cyfleoedd ariannu gan y Tîm Rheoli. Bydd cynnydd y cynllun hwn yn cael ei adrodd yn y Rhaglen Waith Corfforaethol chwarterol.

**Priority 5: Estate Review and Income Generation**

Undertaking regular reviews of all assets to identify those that are surplus to requirements, underperforming or not aligned with the Authority's purposes. Consider acquisitions in line with adopted policy and long term resource obligations. Disposal, leasing or repurposing opportunities will be pursued where they deliver public value and support community well-being as outlined in the policy decision making process.

**2.4 Governance Arrangements**

The authority for asset management decisions rests with the full Authority as per the Standing Orders. The Assets Sub-Group of appointed Members provides detailed scrutiny, oversight and recommendations on all property matters. Officers from the Property Section lead on the built estate and facilities; the Conservation, Woodland and Agriculture Section lead on woodland assets. A cross-departmental approach is taken to ensure that asset decisions reflect service priorities and needs.

The Head of Property Services provides regular reports to the Assets Sub-Group and to the full Authority on asset management decisions. Strategic decisions and priorities for funding opportunities are discussed and agreed by the Management Team. Progress of this plan will be reported in the quarterly Corporate Work Programme.

## 2.5 Fframwaith Adnoddau

Bydd penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn cael eu llywio gan arolygon cyflwr, asesiadau risg ac anghenion gwasanaeth. Bydd yr Awdurdod yn mynd ar drywydd cyllid allanol gan gynnwys grantiau Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Loteri Genedlaethol, ac unrhyw ardoll rheoli ymwelwyr a allai ddod ar gael i ategu cyllidebau cyfalaf craidd. Bydd cyllidebau Refeniw blynyddol y Gwasanaeth Eiddo ar gyfer cynnal a chadw yn cael eu halinio â gofynion y cynllun hwn i sicrhau nad yw asedau'n dirywio i'r pwynt lle mae angen ymyrraeth cyfalaf anghymesur arnynt. Bydd defnydd darbodus o'r gronfa gyfalaf wrth gefn wedi ei neilltuo i asedau er mwyn sicrhau bod hon yn ddigonol ar gyfer unrhyw waith brys neu annisgwyl.

## 2.6 Rheoli Risg

Bydd risgiau rheoli asedau allweddol yn cael eu hymgorffori yng nghofrestr risg gorfforaethol yr Awdurdod a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Methiant strwythurol neu risg iechyd a diogelwch adeiladau sy'n heneiddio neu adeiladau rhestredig
- Dirywiad seilwaith ymwelwyr oherwydd tanariannu
- Difrod i seilwaith ac asedau tir sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
- Risg i enw da oherwydd cyfleusterau ymwelwyr o ansawdd gwael
- Diffyg cydymffurfio â rheoliadau (diogelwch tân, asbestos, diogelwch trydanol, diogelwch dŵr)
- Colli cyfleoedd ariannu grantiau sy'n effeithio ar raglenni cyfalaf.
- Risgiau sy'n effeithio ar weledigaeth a gwaith y cynllun gweithredu adfer natur cyfredol.

## 2.5 Resource Framework

Capital investment decisions will be informed by condition surveys, risk assessments and service needs. The Authority will pursue external funding including Welsh Government grants, Heritage Lottery Fund, National Lottery, and any visitor management levies that may come available to supplement core capital budgets. The Property Service's annual Revenue budgets for maintenance will be aligned with the requirements of this plan to ensure that assets do not deteriorate to the point where they require disproportionate capital intervention. Prudent use of the reserve capital fund allocated to assets will ensure that it is sufficient for any urgent or unexpected work.

## 2.6 Risk Management

Key asset management risks will be incorporated into the Authority's corporate risk register and reviewed regularly. These include:

- Structural failure or health and safety risk of aging or listed buildings
- Deterioration of visitor infrastructure due to underfunding
- Climate-related damage to infrastructure and land assets
- Reputational risk from poor-quality visitor facilities
- Regulatory non-compliance (fire safety, asbestos, electrical safety, water safety)
- Loss of grant funding opportunities affecting capital programmes.
- Risks affecting the vision and work of the current nature recovery action plan.

# **RHAN TRI:** CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2026-2031
# **PART THREE:** ASSET MANAGEMENT PLAN 2026–2031

**3.1 Diben**

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn nodi sut y bydd y polisi a'r strategaeth yn cael eu cyflawni rhwng 2026 a 2031. Mae'n darparu rhaglen o gamau gweithredu, blaenoriaethau a buddsoddiad penodol ar draws ystâd yr Awdurdod, gydag atebolrwydd clir ac amserlenni dangosol.

**3.2 Y Portffolio Asedau**

Mae ystâd APCE yn cynnwys y categorïau asedau allweddol canlynol:

- **Cyfleusterau ymwelwyr** gan gynnwys canolfannau ymwelwyr, meysydd parcio, cyfleusterau cyhoeddus a seilwaith dehongli
- **Seilwaith mynediad** llwybr aml-ddefnyddiwr, llwybrau pren, pontydd a chwlfertiau.
- **Tiroedd** yn cynnwys coetiroedd hanesyddol a brodorol, tir amaethyddol a thir amwynder.
- **Adeiladau treftadaeth hanesyddol** i gynnwys adeiladau rhestredig a strwythurau o arwyddocâd diwylliannol.
- **Safleoedd gweithredol** swyddfeydd a chyfleusterau depo a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau'r Awdurdod
- **Cronfeydd Dŵr a Llynnoedd**
- **Eiddo ar brydles** gyda buddiannau prydles mewn lleoliadau allweddol

**3.1 Purpose**

This Asset Management Plan sets out how the policy and strategy will be delivered between 2026 and 2031. It provides a programme of specific actions, priorities and investment across the Authority's estate, with clear accountability and indicative timescales.

**3.2 The Asset Portfolio**

The ENPA estate comprises the following key asset categories:

- **Visitor facilities** including visitor centres, car parks, public conveniences and interpretation infrastructure
- **Access infrastructure** multi user path, boardwalks, bridges and culverts.
- **Woodland and land** managed woodlands, agricultural land, amenity land.
- **Heritage and historic buildings** listed buildings and structures of cultural significance
- **Operational premises** offices and depot facilities used for Authority operations
- **Reservoirs and Lakes**
- **Leased propertie**s leasehold interests in key locations

Bydd pob ased yn destun arolygon cyflwr rheolaidd a byddant yn cael eu categoreiddio gan ddefnyddio system graddio cyflwr safonol (A-D) i flaenoriaethu buddsoddiad. Y meini prawf graddio sy'n parhau fel y rhai a fabwysiadwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau blaenorol yw:

A = Rhagorol

B = Da

C = Digonol

D = Gwael

### 3.3 Rhaglen Asedau yn ôl Blaenoriaeth Strategol

***(noder bod yr holl flaenoriaethau yn gyfartal, nid oes un gyfuwch na'r gweddill)***

**Blaenoriaeth 1: Adfer Natur a Bioamrywiaeth**

Amcan: Sicrhau bod pob ased tir yn cyfrannu'n weithredol at wella bioamrywiaeth ac adfer natur erbyn 2031.

Camau Gweithredu:

- Cynnal asesiad gwaelodlin bioamrywiaeth o'r holl dir sy'n eiddo ac yn rheolaeth yr Awdurdod erbyn diwedd 2027, gan nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth.
- Datblygu cynlluniau rheoli coetiroedd ar gyfer yr holl goetiroedd a reolir gan yr Awdurdod erbyn 2027, yn unol ag amcanion coetir a choedwigaeth Cynllun Eryri.
- Datblygu cynlluniau gwella cynefinoedd ar gyfer ymylon cronfeydd dŵr ochr yn ochr â gwaith gwella diogelwch cyfalaf i'w gynnal yn Llyn Mair a Llyn Dywarchen yn 2026 - 2028.
- Cyflwyno enillion net bioamrywiaeth fel gofyniad safonol ar gyfer pob prosiect cyfalaf ar dir yr Awdurdod.
- Parhau gyda'r gwaith gwaredu rhododendron a rhywogaethau ymledol eraill ar ddaliadau tir yr Awdurdod.

All assets will be subject to regular condition surveys and will be categorised using a standard condition grading (A–D) to prioritise investment. The grading criteria remaining as those adopted in the previous Asset Management Plan:

A = Excellent

B = Good

C = Adequate

D = Poor

### 3.3 Asset Programme by Strategic Priority

***(note that all priorities are equal, none outweighs the others)***

**Priority 1: Nature Recovery and Biodiversity**

Objective: Ensure all land assets actively contribute to biodiversity improvement and nature recovery by 2031.

Actions:

- Undertake a biodiversity baseline assessment of all Authority-owned land by end of 2027, identifying priority areas for intervention.
- Develop woodland management plans for all Authority-managed woodlands by 2027, aligned with the Cynllun Eryri woodland and forestry objectives.
- Develop habitat enhancement plans for reservoir margins alongside capital safety improvement works to be carried out at Llyn Mair and Llyn Dywarchen in 2026 – 2028.
- Introduce biodiversity net gain as a standard requirement for all capital projects on Authority land.
- Continue with the eradication programme for rhododendron and other invasive species on Authority land holdings.

Arweinir gan: Adran Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth

Targed: Gwelliant bioamrywiaeth fesuradwy wedi'i gofnodi ar bob ased tir sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod erbyn 2031.

**Blaenoriaeth 2: Seilwaith Ymwelwyr Addas at y Diben**

Amcan: Sicrhau bod asedau at ddefnydd y cyhoedd yn ddiogel, o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn gyson â chymeriad Eryri erbyn 2031.

Camau Gweithredu:

- Cynnal arolwg cyflwr cynhwysfawr o'r holl feysydd parcio, cyfleusterau cyhoeddus a seilwaith erbyn diwedd mis Mawrth 2027, gan gynhyrchu amserlen fuddsoddi wedi'i blaenoriaethu a'i diweddaru.
- Datblygu a gweithredu rhaglen dreigl o wella ac ailosod seilwaith cyfleusterau cynaliadwy yn ôl yr angen ar draws safleoedd â nifer uchel o ymwelwyr.
- Adolygu cyflwr wyneb meysydd parcio, draenio ac arwyddion ym mhob maes parcio a reolir; cynhyrchu rhaglen ail-wynebu blaenoriaeth pum mlynedd erbyn canol 2026 wedi'i hariannu o refeniw meysydd parcio wedi'i ail-fuddsoddi.
- Adolygu hygyrchedd yr holl adeiladau at ddefnydd y cyhoedd a chynhyrchu amserlen gwella mynediad yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 erbyn diwedd mis Mawrth 2027.
- Cyflwyno safonau arwyddion cyson ar draws yr holl safleoedd a reolir gan yr Awdurdod.

**Arweinir gan:** Pennaeth Gwasanaeth Eiddo ynghyd â'r Gwasanaeth Cyfathrebu ar gyfer arwyddion

**Targed:** Pob prif ased ymwelwyr wedi'i raddio'n Dda (cyflwr B) neu uwch erbyn 2029

Lead: Conservation, Woodland and Agriculture Section

Target: Measurable biodiversity improvement recorded on all primary land assets by 2031

**Priority 2: Fit for Purpose Visitor Infrastructure**

Objective: Ensure visitor facing assets are safe, high quality, accessible and consistent with the character of Eryri by 2031.

Actions:

- Undertake a comprehensive condition survey of all car parks, public conveniences and infrastructure by end of March 2027, producing an updated prioritised investment schedule.
- Develop and implement a rolling programme of sustainable toilet infrastructure improvement and replacement as required across high-footfall sites.
- Review car park surface conditions, drainage and signage at all managed car parks; produce a five-year priority resurfacing programme by mid-2026 funded from re-invested car park revenue.
- Review accessibility of all visitor-facing assets and produce an access improvement schedule in line with the Equality Act 2010 by end of March 2027.
- Introduce consistent signage standards across all Authority-managed sites.

**Lead:** Head of Property Services along with Communications Service for signage

**Target:** All primary visitor assets rated Good (condition B) or above by 2029

**Blaenoriaeth 3: Datgarboneiddio'r Ystâd**

Amcan: Lleihau allyriadau carbon o adeiladau a thiroedd a feddiannir gan yr Awdurdod o leiaf 30% erbyn 2031, yn gyson ag ymrwymiad sero net Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus.

Camau Gweithredu:

- Comisiynu Tystysgrifau Ynni Arddangos (DECs) lle bo angen ac archwiliadau ynni ar gyfer yr holl adeiladau a feddiannir erbyn canol 2026 i nodi safleoedd ymyrraeth â blaenoriaeth.
- Parhau â'r Rhaglen Lleihau Carbon ar gyfer yr ystâd adeiledig a naturiol, gyda thargedau penodol i adeiladau a chynigion buddsoddi ar gyfer ceisiadau ariannu allanol pellach erbyn Ionawr 2027.
- Blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ym Mhlas Tan y Bwlch o fewn cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer ail-bwrpasu a gwella'r Adeilad Rhestredig fel ased enghreifftiol ar gyfer y dyfodol.
- Parhau i ymgorffori gwelliannau i inswleiddio a ffabrig adeiladau mewn swyddfeydd gweithredol a chanolfannau ymwelwyr pan fydd gwaith cynnal a chadw arferol neu osodiadau newydd yn cael eu gwneud yn ogystal â gwelliannau draeniad cynaliadwy mewn unrhyw waith isadeiledd.
- Cynllunio a gosod paneli ffotofoltäig solar pellach ar adeiladau addas sy'n eiddo i'r Awdurdod erbyn 2029, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau costau gweithredol.
- Adrodd ar gynnydd blynyddol yn erbyn targedau lleihau carbon i'r Grŵp Ffocws Allyriadau Carbon a ffurflenni Net Sero blynyddol Llywodraeth Cymru.
- Cynnal a gwella adnoddau naturiol sy'n amsugno neu storio carbon.

**Priority 3: Decarbonisation of the Estate**

Objective: Reduce carbon emissions from Authority occupied buildings and land by at least 30% by 2031, consistent with Welsh Government's net-zero public sector commitment.

Actions:

- Commission Display Energy Certificates (DECs) where required and energy audits for all occupied buildings by mid-2026 to identify priority intervention sites.
- Continue with Carbon Reduction Programme for the built estate, with building-specific targets and investment proposals for further external funding bids by January 2027
- Prioritise Energy efficiency and renewable energy generation at Plas Tan y Bwlch within Heritage Lottery Fund bid for the re-purposing and enhancement of the Listed Building as an exemplar asset for the future.
- Continue to incorporate improvements to insulation and building fabric at operational offices and visitor centres when routine maintenance or fixtures replacement are undertaken as well as sustainable drainage improvements in any infrastructure work.
- Plan and install further solar photovoltaic panels on suitable Authority-owned buildings by 2029, generating renewable energy and reducing operational costs.
- Report annual progress against carbon reduction targets to the Carbon Emissions Focus Group and annual Welsh Government Net Zero returns.
- Maintain and improve natural resources that absorb or store carbon.

Arweinir gan: Pennaeth Gwasanaeth Eiddo / Swyddog Carbon

Targed: Gostyngiad o 30% mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladau erbyn 2031/32 yn erbyn llinell sylfaen Net Sero ac Aquaterra ar gyfer 2019/20

**Blaenoriaeth 4: Cadwraeth Asedau Treftadaeth**

Amcan: Sicrhau bod pob adeilad rhestredig a threftadaeth o fewn y portffolio yn cael eu cynnal a'u cadw i safon sy'n atal dirywiad ac yn cadw eu harwyddocâd.

Camau Gweithredu:

- Comisiynu arolwg asedau treftadaeth lawn ac asesiad cyflwr ar draws y portffolio erbyn diwedd 2026, gan gynnwys nodi unrhyw asedau sydd mewn perygl.
- Datblygu arolygon adeiladau pum mlynedd ar gyfer pob adeilad rhestredig, gyda'r cylch cyntaf wedi'i gwblhau erbyn 2027.
- Paratoi Rhaglen Cadwraeth Treftadaeth â blaenoriaeth gydag amserlenni ymyrraeth wedi'u costio.
- Mynd ar drywydd cyllid Grant Amgylchedd Hanesyddol gan CADW a ffynonellau eraill ar gyfer atgyweiriadau treftadaeth â blaenoriaeth.
- Adolygu defnydd a meddiannaeth adeiladau treftadaeth i sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddibenion y Parc Cenedlaethol ac yn cynhyrchu incwm priodol lle bo modd, a thiroedd cysylltiedig yn cyfrannu at adfer natur.
- Archwilio trefniadau defnydd cymunedol neu bartneriaeth ar gyfer adeiladau treftadaeth nad oes eu hangen at ddibenion gweithredol.

  **Arweinir gan:** Pennaeth Gwasanaeth Eiddo / Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol

  **Targed**: Dim adeilad rhestredig sy'n eiddo i'r Awdurdod wedi'i osod ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl Cadw yn ystod cyfnod y cynllun

Lead: Head of Property Services / Carbon Officer

Target: 30% reduction in building-related carbon emissions by 2031/32 against the 2019/20 Net Zero and Aquaterra baseline

**Priority 4: Heritage Asset Conservation**

Objective: Ensure all listed and heritage buildings within the portfolio are maintained to a standard that prevents deterioration and preserves their significance.

Actions:

- Commission a full heritage asset survey and condition assessment across the portfolio by end of 2026, including identification of any assets at risk.
- Develop quinquennial building surveys for all listed buildings, with the first cycle completed by 2027.
- Prepare a prioritised Heritage Conservation Programme with costed intervention schedules.
- Pursue Historic Environment Grant funding from CADW and other sources for priority heritage repairs.
- Review the use and occupation of heritage buildings to ensure they are contributing to National Park purposes and generating appropriate income where possible, and associated land contributes to nature recovery.
- Explore community-use or partnership arrangements for heritage buildings not required for operational purposes.

  **Lead:** Head of Property Services / Head of Cultural Heritage

  **Target:** No Authority-owned listed building placed on the Cadw Buildings at Risk Register during the plan period

**Blaenoriaeth 5: Adolygu Ystadau a Chynhyrchu Incwm**

Amcan: Sicrhau bod yr ystâd yn addas i bwrpas, yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn cynhyrchu incwm priodol erbyn 2031.

Camau Gweithredu:

- Yr Is-grŵp Asedau i gwblhau ymarfer herio ac adolygu asedau cynhwysfawr ar draws y portffolio llawn erbyn Hydref 2026, gan asesu pob ased yn erbyn meini prawf: aliniad â dibenion y Parc Cenedlaethol; cyflwr; costau rhedeg; potensial incwm; ac angenrheidrwydd strategol
- Nodi asedau sydd dros ben i'w hangen a datblygu rhaglen waredu neu ail-bwrpasu, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau, gyda'r elw'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwella ystadau.
- Adolygu'r holl drefniadau prydles, y rhai lle mae APCE yn landlord a lle mae'r Awdurdod yn denant, i sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am arian ac yn parhau i fod yn addas at y diben gydag asiantau allanol arbenigol yn ôl yr angen.
- Cyflogi gwasanaethau asiantau gosod masnachol i ddatblygu strategaeth incwm rhent ar gyfer asedau a osodir i drydydd parti, gan sicrhau bod rhenti'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad wrth aros yn gyson ag amcanion y Parc Cenedlaethol.
- Archwilio cyfleoedd i gynyddu incwm parcio ceir trwy docynnau digidol a rheolaeth well, ailfuddsoddi refeniw mewn cynnal a chadw a gwella safleoedd i gynyddu gwydnwch ariannol a lleihau'r galw ar gyllideb cynnal a chadw craidd.
- Adolygu'r potensial ar gyfer cyfleusterau caffi, manwerthu neu lety newydd neu well mewn safleoedd allweddol i gynhyrchu incwm sy'n cefnogi gwaith ehangach yr Awdurdod yn dilyn asesiad o gost a buddion.

**Priority 5: Estate Review and Income Generation**

Objective: Ensure the estate is fit for purpose, efficiently managed and generating appropriate income by 2031.

Actions:

- The Assets Sub-group to Complete a comprehensive asset challenge and review exercise across the full portfolio by Autumn 2026, assessing each asset against criteria of: alignment with National Park purposes; condition; running costs; income potential; and strategic necessity (List of categorised assets following last review included at Appendix 2 below).
- Identify assets that are surplus to requirements and develop a disposal or repurposing programme, subject to Member approval, with proceeds reinvested in estate improvement.
- Review all lease arrangements, both those where ENPA is landlord and where ENPA is tenant, to ensure they represent value for money and remain fit for purpose with specialist external agents as required.
- Employ the services of commercial letting agents to develop a rental income strategy for assets let to third parties, ensuring rents reflect market rates while remaining consistent with National Park objectives.
- Explore opportunities for increased car parking income through digital ticketing and improved management, reinvesting revenue in site maintenance and improvement to increase financial resilience and reduce demand on core maintenance budget.
- Review the potential for new or enhanced café, retail or accommodation facilities at key sites to generate income that supports the Authority's wider work following an assessment of cost benefit analysis.

**Arweinir gan:** Pennaeth Gwasanaeth Eiddo

**Targed:** Cynyddu incwm net o'r ystâd 15% erbyn 2031; o leiaf dri ased dros ben wedi'u hadolygu a'u datrys erbyn 2028

### 3.4 Fframwaith Arolygu a Chynnal a Chadw Asedau

Cynhelir rhaglen arolygu asedau systematig ar draws y portffolio llawn. Bydd amlder yr arolygiadau yn seiliedig ar risg:

- Asedau sy'n denu llawer o ymwelwyr (meysydd parcio, toiledau, canolfannau ymwelwyr, llwybrau ac isadeiledd mynediad ym mherchnogaeth yr Awdurdod): yn cael eu harchwilio'n fisol, gydag asesiad cyflwr ffurfiol yn flynyddol
- Adeiladau gweithredol (swyddfeydd, depos): arolwg cyflwr ffurfiol bob tair blynedd, bob pum mlynedd ar gyfer adeiladau rhestredig
- Cronfeydd Dŵr: Arolygiadau 6 misol gan beirianwyr goruchwylio, arolwg 10 mlynedd peiriannydd cronfeydd, arolygiadau diogelwch wythnosol gan swyddogion gydag arolygiadau brys ar ôl storm yn ôl yr angen
- Coetiroedd: adolygiad ecolegol, cyflwr a diogelwch rheolaidd

Bydd pob canfyddiad arolygu yn cael ei gofnodi yn gronfa ddata rheoli asedau'r Awdurdod.

Bydd ôl-groniad cynnal a chadw wedi'i raddio â risg yn cael ei gynnal a'i adrodd i'r Is-grŵp Asedau yn flynyddol.

**Lead:** Head of Property Services

**Target:** Net income from the estate increased by 15% by 2031; at least three surplus assets reviewed and resolved by 2028

### 3.4 Asset Inspection and Maintenance Framework

A systematic asset inspection programme will be maintained across the full portfolio. Inspection frequencies will be risk-based:

- High-footfall visitor assets (car parks, toilets, visitor centres, footpaths and access infrastructure in the Authority's ownership): inspected monthly, with formal condition assessment annually
- Operational buildings (offices, depots): formal condition survey every three years, quinquennial for listed buildings
- Reservoirs: Supervising engineers 6 monthly inspections, officer weekly safety inspections with post-storm emergency inspections as required
- Woodlands: regular ecological, condition and safety review

All inspection findings will be recorded in the Authority's asset management database.

A risk rated maintenance backlog will be maintained and reported to the Assets Sub-Group annually.

### 3.5 Dangosyddion Perfformiad

Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- Cynnydd yng nghanran yr asedau mewn cyflwr gradd A neu B
- Lleihau carbon (% yn erbyn llinell sylfaen 2019-20)
- Canran yr adeiladau rhestredig gydag arolygon pum mlynedd gyfredol
- Incwm net o'r ystâd (£)
- Nifer y cyfleusterau hygyrch sy'n bodloni safonau hygyrchedd cyfredol
- Targed gwerth ôl-groniad cynnal a chadw (£) i'w leihau o flwyddyn i flwyddyn

### 3.6 Crynodeb Ariannol

Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn gofyn am gyfuniad o gyllideb gyfalaf craidd, cyllid cynnal a chadw refeniw a grantiau allanol. I wella gwytnwch ariannol hirdymor mae adolygiadau ar waith i gynyddu incwm ac ail fuddsoddi cyfran o'r incwm hwnnw yn asedau megis meysydd parcio i'w gwneud yn fwy hunan cynhaliol fel yr amlygir yn 3.7 isod. Mae cronfa wrth gefn penodol wedi ei ddatblygu yn ogystal i gynorthwyo gydag unrhyw waith brys neu gostau annisgwyl, a bydd cynnal y gronfa hon yn parhau yn flaenoriaeth i leihau risgiau ariannol i'r Awdurdod. Bydd rhaglen ariannol ddangosol yn cael ei datblygu yn dilyn y rhaglen arolwg cyflwr yn 2026/27. Bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu:

- Gwaith iechyd, diogelwch a chydymffurfiaeth statudol a ariennir o gyllideb refeniw blynyddol craidd
- Datgarboneiddio: cyllid Llywodraeth Cymru a chyllid grant allanol, wedi'i ategu gan gyfalaf

### 3.5 Performance Indicators

Progress against this plan will be measured using the following key performance indicators:

- Increase in percentage of assets in condition grade A or B
- Carbon reduction (% against 2019-20 baseline)
- Percentage of listed buildings with up-to-date quinquennial surveys
- Net income from the estate (£)
- Number of accessible facilities meeting current accessibility standards
- Maintenance backlog value (£) target to reduce year on year

### 3.6 Financial Summary

The delivery of this plan will require a combination of core capital budget, revenue maintenance funding and external grants. To improve long-term financial resilience, reviews are underway to increase income and reinvest a portion of that income into assets such as car parks to make them more self-sustaining as highlighted in 3.7 below. A designated reserve fund has also been developed to assist with any urgent work or unexpected costs, and maintaining this fund will continue to be a priority to reduce financial risks to the Authority. An indicative financial programme will be developed following the condition survey programme in 2026/27. The Authority will prioritise:

- Health, safety and statutory compliance works funded from core annual revenue budget
- Decarbonisation: Welsh Government and external grant funding, supplemented by capital

- Seilwaith ymwelwyr: cyfuniad o Gronfa Asedau cyfalaf craidd a grantiau allanol (e.e., Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant a Rennir y DU)
- Cadwraeth treftadaeth: grantiau Cadw ac Amgylchedd Hanesyddol
- Adfer natur: Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, cyllid y Loteri Genedlaethol ac unrhyw ffynhonnell berthnasol arall.

**3.7 Blaenoriaethau Cynnal a Chadw a Chyfalaf Cyfredol**

Mae pwysau chwyddiant cost uwch llafur a deunyddiau wedi arwain at orfod blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw hanesyddol wedi'i amserlennu, gyda gwaith i wneud asedau'n ddiogel ac atgyweiriadau brys yn flaenoriaeth. Gyda phwysau cyllidebol parhaus, bydd hyn yn parhau ond nod y cynllun hwn yw lleihau'r ôl-groniad o flwyddyn i flwyddyn trwy ailfuddsoddi refeniw o asedau sy'n cynhyrchu incwm.

Yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig diwygiedig, mae ôl-groniad atgyweirio a chynnal a chadw o tua £150,000 ar hyn o bryd (ac eithrio costau amcangyfrifedig arolwg cyflwr Plas Tan y Bwlch o £3M dros 10 mlynedd). Mae'r rhain yn deillio o Ddepo Penrhyndeudraeth, Storfa Abergwynant, cronfa Llyn Dywarchen a Blwch Signal Llynpenmaen yn bennaf.

Bydd gwelliannau i gyfleusterau a chynllunio gwaith diogelwch cronfeydd dwr yn ffocws y rhaglen waith blynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth statudol.

Bydd gwaith cyfalaf i ailosod neu wella safleoedd presennol yn cael eu cynllunio a'u blaenoriaethu yn seiliedig ar eu brys neu argaeledd cyllid grant allanol.

- Visitor infrastructure: combination of core capital Assets Reserve and external grants (e.g., Welsh Government, UK Shared Prosperity Fund)
- Heritage conservation: Cadw and Historic Environment grants
- Nature recovery: Natural Resources Wales, Welsh Government, National Lottery funding and any other relevant sources.

**3.7 Current Maintenance and Capital priorities**

The inflation pressure of increased cost of both labour and materials have led to historic scheduled maintenance work having to be prioritised, with works to make assets safe and emergency repairs being a priority. With ongoing budgetary pressures this will continue but the aim of this plan is to reduce the year on year backlog with reinvestment of revenue from income generating assets.

Based on revised estimated costings there is currently a repair and maintenance backlog of approximately £150,000 (excluding Plas Tan y Bwlch condition survey estimated costings at £3M over 10 years). These arise primarily from Penrhyndeudraeth Depot, Abergwynant Stores, Llyn Dywarchen reservoir and Penmaenpool Signal Box.

Improvements to facilities and the planning of water reservoir safety work will be the focus of the annual work program to ensure statutory compliance.

Capital works of replacement or enhancements to existing sites will be planned and prioritised based on their urgency or external grant funding availability.

### 3.8 Adolygu ac Adrodd

Bydd yr Is-grŵp Asedau yn adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn flynyddol, gydag adolygiad canol tymor llawn yn 2028 ac adolygiad cynhwysfawr i lywio'r cynllun olynydd yn 2030. Bydd y polisi'n cael ei adolygu ar ddiwedd cyfnod y cynllun neu'n gynt os bydd newid sylweddol yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod neu'r cyd-destun deddfwriaethol.


Cyflwynir adroddiadau perfformiad chwarterol fel rhan o gylchred y rhaglen Waith Corfforaethol.

### 3.8 Review and Reporting

This Asset Management Plan will be reviewed annually by the Assets Sub-Group, with a full mid-term review in 2028 and a comprehensive review to inform the successor plan in 2030. The policy will be reviewed at the end of the plan period or sooner in the event of a significant change in the Authority's Corporate Plan or legislative context.

Quarterly performance reports will be presented as part of the Corporate Work programme cycle.


# **ATODIAD 1.** POLISI GWAREDU A PRYNU/DERBYN FEL Y MABWYSIADWYD AC ADOLYGWYD




2.0 Diwygwyd a mabwysiadwyd Mehefin 2026


# POLISI PRYNU / DERBYN EIDDO

## AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI




2.0 Diwygwyd a mabwysiadwyd Mehefin 2026

# **APPENDIX 1.** DISPOSAL AND ACQUISITION POLICY AS ADOPTED AND AMENDED




2.0 Amended and adopted June 2026

## PROPERTY ACQUISITION POLICY

## ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

NO

YES

Does the Property contribute to Park purposes, duties, nature restoration, or business?

Has the property potential to contribute to the Park purposes, duties, nature restoration, or business?

1. Does ownership offer value for money and support a strong business case?

and/or

2. Does ownership contribute to the Health and Wellbeing objectives and/or the Well-being of Future Generations Act of the Authority?

and/or

3. Does ownership play a strategic role in Low Carbon Wales / Decarbonised Authority targets and the Eryri / Wales Nature Recovery Action Plan?

and/or

4. Does the assessment of the long term repair and maintenance obligations together with resources physical and financial, justify the Authority's control / ownership of the Property?

Are there any other compelling reasons for the Authority to acquire control / ownership ?

**NOT TO ACQUIRE / NOT TO RECEIVE**

**PURCHASE / RECEIVE**

2.0 Amended and adopted June 2026

**Eitem Rhif 19**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu 2026-31** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **PWRPAS** | Dyma strategaeth am y 5 mlynedd nesa. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y bydd technogleg yn cefnogi yr Awdurdod i gyflawni ei amcanion, gwella effeithlonrwydd ac yn darparu gwasanaethau yn effeithiol a dibynadwy. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Dyma strategaeth am y 5 mlynedd nesa. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y bydd technogleg yn cefnogi yr Awdurdod i gyflawni ei amcanion, gwella effeithlonrwydd ac yn darparu gwasanaethau yn effeithiol a dibynadwy

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Mi fydd rhaglen waith yn cael ei rhoi at ei gilydd ac wedyn fe asesir y goblygiadau a bwydo yn ôl i'r tim arweinyddiaeth

## ARGYMHELLIAD:

Mabwysiadu'r strategaeth systemau gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf

# Strategaeth TGCh ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2026-31

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 3
Cyflwyniad: Rôl TG mewn Awdurdod Modern ........ 4
1. Gweledigaeth ac Amcanion Strategol ........ 4
   1.1 Gweledigaeth ........ 4
   1.2 Amcanion Strategol ........ 4
2. Y Sefyllfa Bresennol a'r Heriau Allweddol ........ 4
3. Blaenoriaethau Strategol (2026-2031) ........ 5
   3.1 Moderneiddio Seilwaith a Systemau TG ........ 5
4. Pensaernïaeth Technoleg ........ 6
5. Datblygu Sgiliau Digidol ........ 6
6. Trawsnewid Digidol a Rheoli Cofnodion ........ 6
7. Llywodraethu Data, Diogelwch a Chydymffurfiaeth ........ 7
8. TG Gwyrdd a Chynaliadwyedd ........ 7
9. Paratoi ar gyfer Heriau'r Dyfodol ........ 7
   9.1 Symud Adeilad ac Adleoli ........ 7
   9.2 Gwella Capasiti TG ........ 7
10. Casgliad ........ 8

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Strategaeth TG yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer defnyddio gwasanaethau a chynhyrchion technoleg gwybodaeth i gefnogi dau bwrpas statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:
1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau Rhinweddau Arbennig Parciau Cenedlaethol

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu **map ffordd pum mlynedd** a gynlluniwyd i foderneiddio systemau, gwella'r dull o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, a gwella profiad y defnyddiwr a chydweithio â phartneriaid. Mae hefyd yn anelu at gryfhau'r strategaethau cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r adran TGCh yn chwarae rhan ganolog wrth alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, gwella effeithlonrwydd gweithredol, a sicrhau seiberddiogelwch cadarn. Mae'r cynllun strategol hwn yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd (2026-2031) ac mae'n anelu at foderneiddio seilwaith TGCh, grymuso staff, optimeiddio gwasanaethau digidol, a gwella llywodraethu data. Mae'r strategaeth yn ystyried tueddiadau technoleg sy'n esblygu, bygythiadau seiberddiogelwch, a'r angen cynyddol am wasanaethau digidol o fewn y sefydliad.

Wrth i'r Awdurdod addasu i heriau newydd, bydd y cynllun hwn yn tywys yr Awdurdod i fanteisio ar dechnolegau digidol i gefnogi gweithrediadau mewnol a gwasanaethau cyhoeddus. Drwy ganolbwyntio ar seilwaith, sgiliau digidol, rheoli cofnodion a darparu gwasanaethau gwell, bydd yr adran TGCh yn helpu'r Awdurdod i ddod yn fwy hyblyg, cadarn ac effeithlon.

# Cyflwyniad: Rôl TG mewn Awdurdod Modern

Fel Parc Cenedlaethol, rhaid i'r Awdurdod lywio'r un disgwyliadau statudol o ran diogelwch data, tryloywder, mynediad cyhoeddus, a darparu gwasanaethau digidol â sefydliadau mwy, ond gyda llai o adnoddau. Mae'r swyddogaeth TGCh yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau hanfodol, o gynllunio statudol a monitro amgylcheddol i ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus a rheoli gweithwyr. Er bod y seilwaith TGCh presennol yn effeithiol, mae'r dechnoleg sy'n esblygu'n barhaus yn golygu mai dim megis rownd y gornel y mae newid byd o ran technoleg mewn gwirionedd. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu map ffordd i wella cadernid digidol a sicrhau cydymffurfiaeth, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd gweithredol.

# 1. Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

## 1.1 Gweledigaeth

Gweithredu ystâd TGCh ddiogel, fodern, gadarn a chymesur sy'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, cefnogi staff yn effeithiol, a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

## 1.2 Amcanion Strategol

a) **Galluogi Rheolaeth Amgylcheddol sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth**: Defnyddio technoleg i gasglu a dadansoddi data amgylcheddol, gan wella ymdrechion a chanlyniadau cadwraeth.

b) **Gwella Mynediad Digidol ac Ymgysylltiad Defnyddwyr**: Manteisio ar offer digidol ar gyfer profiad defnyddiwr gwell a mynediad mwy effeithlon at wasanaethau.

c) **Cryfhau Effeithlonrwydd Gweithredol a Symudedd y Gweithlu:** Gwella prosesau mewnol a chefnogi gweithlu hyblyg a symudol.

d) **Gwella Cydweithio Ar Draws Sefydliadau Partner:** Meithrin cydweithrediad digidol cryfach gyda phartneriaid allanol.

e) **Sicrhau Seiberddiogelwch a Diogelu Data Cadarn:** Datblygu a gweithredu arferion seiberddiogelwch cryf, gan leihau agoredrwydd i fygythiadau seiber.

# 2. Y Sefyllfa Bresennol a'r Heriau Allweddol

Er bod yr Awdurdod wedi adeiladu amgylchedd TG modern a diogel, mae sawl her yn parhau:

- **Tîm TGCh Bach:** Mae'r tîm TGCh ar hyn o bryd yn cynnwys pump aelod llawn amser ac yn ehangu i chwech yn y dyfodol agos. Mae'r dechnoleg sy'n ehangu'n barhaus yn golygu bod y gallu i reoli seilwaith TGCh cynyddol gymhleth yn aml yn cael ei gyrraedd a bod angen ymgynghori allanol.
- **Systemau a Seilwaith sy'n Heneiddio:** Mae sawl system yn cyrraedd diwedd eu hoes, ac mae angen disodli neu foderneiddio systemau etifeddol e.e. system gyllid

- **Risgiau Seiberddiogelwch:** Mae dibyniaeth gynyddol ar systemau digidol yn cynyddu'r risg o seiber-ymosodiadau ac achosion o gamddatgelu / dorri-rheolau data.
- **Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes:** Mae angen gwell cynllunio ar gyfer adfer ar ôl trychineb a chadernid systemau i sicrhau parhad pan fo aflonyddwch yn digwydd.

Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy amlinellu blaenoriaethau a fydd yn moderneiddio'r dirwedd TG ac yn paratoi ar gyfer gofynion y dyfodol.

# 3. Blaenoriaethau Strategol (2026-2031)

## 3.1 Moderneiddio Seilwaith a Systemau TG

- **Adolygu ac Uwchraddio Caledwedd:** Canolbwyntio ar seilwaith hanfodol fel switshis rhwydwaith, waliau tân, a batris UPS.
- **Microsoft 365:** Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi ac yn meddu ar y cyfarpar i fanteisio ar botensial llawn Microsoft 365.
- Datblygu a gweithredu **system rheoli dogfennau (a adwaenir yn gryno yn y diwydiant fel DMS) ymhellach** i drefnu ac adfer dogfennau mewnol yn well, gan leihau'r amser a dreulir yn chwilio.
- **Desgiau Poeth:** Galluogi amgylcheddau gwaith hyblyg gyda seilwaith priodol, gan gynnwys pŵer a chysylltedd. Gallai hyn fod yn orfodol os byd ein cynnig i symud i Blas Tan y Bwlch yn llwyddiannus.
- **Pontio System Ffôn:** Adolygu ein system ffôn ar ddiwedd y contract yn 2027.
- **Cydnerthedd a Pharhad:** Datblygu cynllun adfer ar ôl trychineb cadarn a gwella cydnerthedd y system, gan sicrhau y gall gweithrediadau barhau pan fo aflonyddwch yn digwydd.
- **Cynllun Seiberddiogelwch:** Diweddaru mesurau seiberddiogelwch, cynnal asesiadau risg rheolaidd, a darparu hyfforddiant parhaus ar ddiogelu data. Cael Ardystiad Hanfodion Seiber
- **Gwella Mynediad Digidol ac Ymgysylltiad Defnyddwyr:** Manteisio ar offer digidol i greu profiadau deniadol a gwella mynediad at wasanaethau i ddefnyddwyr.
- **Ehangu Galluoedd GIS ar gyfer Dadansoddi Gofodol:** Gwella systemau data daearyddol ar gyfer dadansoddi gwell a phenderfyniadau a dehongliad gwybodus. Gallai hyn olygu defnyddio system GIS gorfforaethol newydd a fyddai â goblygiadau cost. Unwaith y bydd asesiad o'r gofynion wedi'i wneud, cynhelir ymchwiliad pellach i'r opsiwn.
- **Defnyddio Gorsafoedd Tywydd:** Casglu data amgylcheddol amser real ar gyfer rhagweld / darogan y tywydd a gwneud penderfyniadau gwell
- **Adrodd a Dangosfyrddau Gwell:** Darparu dangosfyrddau greddfol sy'n caniatáu dadansoddi metrigau amgylcheddol allweddol mewn amser real. Ynghyd â systemau adrodd awtomataidd sy'n diweddaru mewn amser real

- **Cofleidio DA (Deallusrwydd Artiffisial) -** Cyflwyno offer sy'n cael eu gyrru gan DA a all gynorthwyo staff gyda thasgau dyddiol, cynyddu cynhyrchiant a meithrin datblygiad sgiliau
- **Cydymffurfio â Safonau Hygyrchedd (a adwaenir yn gryno yn y diwydiant fel WCAG):** Sicrhau bod pob rhyngwyneb digidol yn bodloni canllawiau hygyrchedd gwe, gan wneud ein gwasanaethau'n gynhwysol i bawb.
- **Gwella Systemau Digidol:** Cefnogi'r newid i systemau digidol i wella cyfathrebu, cynorthwyo cynllunio eu profiadau e.e. sgriniau cyffwrdd, Codau QR

## 4. Pensaernïaeth Technoleg

Bydd ein pensaernïaeth hybrid bresennol yn esblygu tuag at seilwaith modiwlaidd, sy'n seiliedig ar y cwmwl. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Glanhau Data:** Adolygu a glanhau data yn rheolaidd i sicrhau cyfanrwydd cyn symud i'r cwmwl.
- **Defnyddio / Symud i'r Cwmwl:** Trosglwyddo systemau allweddol i'r cwmwl er mwyn cynyddu graddfa, diogelwch a chost-effeithlonrwydd.
- **Seilwaith Graddadwy a Chadarn:** Buddsoddi mewn pensaernïaeth cwmwl sydd a'r gallu i gynyddu graddfa i ddarparu ar gyfer twf a sicrhau dibynadwyedd system.
- Sicrhau mabwysiadu **strategaeth aml-gwmwl** er mwyn osgoi cloi i mewn gan werthwyr a chynyddu cadernid y system.

## 5. Datblygu Sgiliau Digidol

- **Hyfforddiant Mewnol:** Hyfforddiant rheolaidd i staff ar ddefnyddio Microsoft 365 ac offer hanfodol eraill yn effeithiol.
- **Hyfforddiant Seiberddiogelwch:** Addysg barhaus ar fygythiadau seiberddiogelwch ac arferion diogelu data.
- **Hyfforddiant Allanol:** Annog staff i ddilyn ardystiadau a rhaglenni allanol i wella eu llythrennedd digidol.
- **Cydymffurfiaeth â Pholisïau:** Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau TGCh i leihau risgiau seiber a gwella effeithlonrwydd systemau.

## 6. Trawsnewid Digidol a Rheoli Cofnodion

- **Mudo Data:** Trosglwyddo data etifeddol i blatfformau modern sy'n seiliedig ar y cwmwl fel OneDrive, Teams, a SharePoint.
- **Gweithio Hyblyg:** Cefnogi gweithio o bell drwy ddarparu mynediad at wasanaethau digidol o unrhyw ddyfais, unrhyw le.
- **Llywodraethu Data:** Gweithredu arferion gorau ar gyfer rheoli data i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR a gofynion rheoleiddio eraill.

# 7. Llywodraethu Data, Diogelwch a Chydymffurfiaeth

Bydd dull yr Awdurdod o lywodraethu data a seiberddiogelwch yn cyd-fynd ag arferion gorau cenedlaethol:

- **Dilysu Aml-Ffactor (a adwaenir yn gryno yn y diwydiant fel MFA)** ar gyfer staff a phartneriaid.
- **Archwiliadau Diogelwch Rheolaidd:** Gweithredu asesiadau risg ac archwiliadau rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR a rheoliadau seiberddiogelwch.
- **Ardystiad Hanfodion Seiber ac Ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy:** Cyflawni a chynnal ardystiad i ddangos ymlyniad i arferion gorau seiberddiogelwch.
- **Diogelu Pwynt Terfynol:** Sicrhau fod pob dyfais sy'n cyrchu'r rhwydwaith wedi'i diogelu rhag bygythiadau posibl.

# 8. TG Gwyrdd a Chynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i strategaeth TG yr Awdurdod. Bydd mentrau'n cynnwys:

- **Caledwedd sy'n Effeithlon o ran Ynni:** Blaenoriaethwch brynu offer sy'n effeithlon o ran ynni.
- **Mudo i'r Cwmwl:** Cynnal asesiad o fanteision / anfanteision storio cwmwl oddi ar y safle o'i gymharu â storio ar y safle. Byddai hyn yn cynnwys ôl troed carbon.
- **Mynd yn Ddi-bapur:** Dileu prosesau sy'n seiliedig ar bapur trwy gofleidio offer a llifau gwaith digidol.
- **Ailgylchu a Gwaredu Cyfrifol:** Sicrhau bod offer sydd wedi dyddio yn cael ei waredu'n briodol trwy ailgylchu a rhoddi asedau defnyddiadwy i eraill.

# 9. Paratoi ar gyfer Heriau'r Dyfodol

## 9.1 Symud Adeilad ac Adleoli

Un o'r heriau gweithredol mwyaf yw'r posibilrwydd o symud i adeilad arall. Bydd y camau'n cynnwys:

- Asesu gofynion pŵer, oeri a ffibr ar gyfer y cyfleuster newydd.
- Datblygu cynllun mudo fesul cam i leihau'r aflonyddwch yn ystod y symud.
- Sicrhau cyllideb a chefnogaeth allanol ar gyfer y cyfnod pontio.

## 9.2 Gwella Capasiti TG

Er mwyn bodloni gofynion moderneiddio a symud yr adeilad, bydd yr Awdurdod yn ystyried:

**Goblygiadau Adnoddau**
Er mwyn bodloni gofynion moderneiddio yn yr amgylchedd technolegol sy'n newid yn barhaus a chan ystyried y posibilrwydd o adleoli'r pencadlys, efallai y bydd angen i'r Awdurdod ailasesu capasiti yn ystod cyfnod y strategaeth 5 mlynedd. Gall hyn gynnwys:

- **Niferoedd Staff:** asesu gofynion i gefnogi anghenion cynyddol yr Awdurdod.
- **Contractwyr Arbenigol:** Dod ag arbenigwyr allanol i mewn ar gyfer prosiectau mawr.
- **Cydweithio Traws-awdurdodau:** Cydweithio â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru i rannu adnoddau ac arbenigedd.

# 10. Casgliad

Mae'r strategaeth TGCh hon yn amlinellu cynllun cynhwysfawr ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gyda'r nod o wella seilwaith TGCh yr Awdurdod, gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau, a sicrhau seiberddiogelwch. Drwy fynd i'r afael â heriau amgylchedd TGCh sy'n heneiddio, y galw cynyddol am wasanaethau digidol, a risgiau seiberddiogelwch cynyddol, mae'r strategaeth yn darparu llwybr clir ymlaen.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i adeiladu ystâd TGCh fodern a chadarn sy'n cefnogi ei genhadaeth i warchod yr amgylchedd, ymgysylltu â defnyddwyr, a chydweithio â phartneriaid. Drwy drawsnewid digidol effeithiol a buddsoddiadau strategol, bydd yr adran TGCh yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol wrth baratoi ar gyfer cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

Yn dilyn cymeradwyo'r Strategaeth hon, bydd rhaglen waith fanwl 5 mlynedd yn cael ei datblygu mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, a fydd yn cynnwys adolygiad treigl o ofynion y gyllideb bob blwyddyn i gefnogi cyflawniad y blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn y strategaeth.

**Eitem Rhif 20**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 10 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | **Meysydd Parcio – Oriau Agor** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | I ofyn am gyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch oriau gweithredu meysydd parcio |

## 1. CEFNDIR

2. Mae'r papur hwn yn ceisio caniatâd i gynnal adolygiad o oriau gweithredu meysydd parcio'r Awdurdod. Mae'n dilyn sawl pryder a godwyd gan wahanol grwpiau defnyddwyr ac unigolion ynghylch oriau gweithredu meysydd parcio arfaethedig a chyfnodau cau yn y nos. Cododd llawer o bobl bryderon ynghylch y posibilrwydd o gau yn ystod y nos a'r effeithiau ar bobl sy'n cael mynediad at y Parc Cenedlaethol ac yn ei fwynhau ar gyfer sêr syllu, teithiau cerdded wrth iddi wawrio ac ar fachlud haul ac ati. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn cefnogi gweithgareddau o'r fath.

3. Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio cymeradwyo'r papur a gyflwynwyd gan y Pennaeth Eiddo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025 yn argymell diwygio tariffau parcio ceir mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod yn ogystal â chyflwyno treial ANPR ym meysydd parcio Llyn Tegid, Llangywer a Betws-y-coed. Dyma'r adolygiad cyntaf o dariffau meysydd parcio ers 2018 gan eu gwneud yn unol ag eraill a bydd yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r her ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio adolygu un rhan benodol o'r adroddiad hwnnw - sef oriau gweithredu meysydd parcio'r Awdurdod.

4. Roedd paragraff 3.9 o adroddiad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr yn cyfeirio at fabwysiadu oriau gweithredu newydd mewn meysydd parcio er mwyn annog pobl i beidio â gwersylla dros nos. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio'n benodol at osod cyfyngiadau parcio ceir rhwng 22:01 a 02:59 ym mhob safle ac eithrio Cae Llan, Pen-y-pass a Nant Peris a fydd yn parhau i weithredu 24 awr y dydd fel y mae ar hyn o bryd, ac eithrio Llyn Tegid a Llangywer a fyddai'n mabwysiadu cyfnod cyfyngedig rhwng 22:01 a 05:59 bob dydd.

5. Wrth gwrs, bydd yr aelodau'n gyfarwydd iawn â phroblemau gwersylla dros nos (mewn faniau cysgu, cartrefi modur ac ati) yn ein meysydd parcio – gall hyn arwain at broblemau sy'n ymwneud â sbwriel, gwastraff, ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â pheidio â chefnogi safleoedd carafanau a gwersylla cyfreithlon presennol sy'n gweithredu yn yr ardal leol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddod o hyd i ateb i'r broblem hon, er nad yw'n syml.

6. Ar ôl ystyried y mater hwn dros yr wythnosau diwethaf, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol oedi'r broses o adolygu oriau agor y meysydd parcio yn y rhan fwyaf o'n safleoedd er mwyn ystyried yn llawn y canlyniadau i ddefnyddwyr.

7. Mae'n bwysig ystyried mwynhad y Parc Cenedlaethol i lawer o ddefnyddwyr sy'n mynd allan i weld y wawr / machlud neu i fwynhau'r awyr dywyll yn y nos yn Eryri.

8. Fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael â'r nifer o effeithiau negyddol o wersylla dros nos yn ein meysydd parcio hefyd er mwyn amddiffyn yr amgylchedd (rhag gwastraff, sbwriel ac ati) a chymunedau lleol (rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, colli incwm mewn safleoedd gwersylla swyddogol).

9. Ym mhob amgylchiad, rhaid ystyried hefyd unrhyw effeithiau dadleoli o symud problem gwersylla o'n meysydd parcio i fannau eraill fel cilfannau a meysydd parcio. Yn ddelfrydol, dylid ceisio datrysiad cyfannol i'r broblem gwersylla dros nos.

10. **RHEOLI GWERSYLLA DI-AWDURDOD MEWN MEYSYDD PARCIO'R AWDURDOD (A MEYSYDD PARCIO ERAILL)**

11. Mae hwn yn fater cymhleth heb unrhyw ddatrysiad cyflym a hawdd. Bydd angen amser, ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhai atebion creadigol.

12. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae rhai o'r tasgau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni i ddechrau yn cynnwys:

    a. Cynnal deialog pellach gydag amrywiol sefydliadau a defnyddwyr y Parc Cenedlaethol

    b. Datblygu gwell dealltwriaeth o effeithiau dadleoli posibl

    c. Asesu cost / budd comisiynu swyddogion gorfodi yn mynd allan o bryd i'w gilydd i fonitro meysydd parcio'r Awdurdod yn y nos

    d. Asesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r strategaeth gyfathrebu i fynd i'r afael â hyn yn well - gellid cynnal 'ymgyrchoedd' amlasiantaethol i annog gwersylla mwy cyfrifol

    e. Fel ateb tymor canolig, asesu a oes unrhyw opsiynau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn e.e. datblygu Aires, darparu seilwaith ychwanegol (biniau, toiledau ac ati) ac a ddylid newid polisïau presennol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) neu gyflwyno polisïau newydd i hwyluso hyn drwy adolygiad y CDLl.

13. Yng ngoleuni hyn, hoffai swyddogion ofyn am ragor o amser dros y misoedd nesaf i ddatblygu dull gweithredu cyd-gysylltiedig ac amlasiantaethol o fynd i'r afael â'r mater hwn, cyn adrodd yn ôl i'r Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn/dechrau'r Flwyddyn Newydd. Mae'n annhebygol y bydd un ateb neu ateb cyflym, ond byddwn yn sicrhau dull gweithredu cyd-gysylltiedig ac os na ellir dod o hyd i ateb llawn yna bydd lliniaru pellach o'r broblem yn cael ei archwilio.

14. **EITHRIAD POSIBL YM MAES PARCIO LLYN TEGID A LLANGYWER**

15. Efallai fod achos dros fabwysiadu dull gweithredu gwahanol ym meysydd parcio'r Awdurdod yn Llyn Tegid a Llangywer – ac o bosibl, treialu hyn fel cynllun peilot eleni. Y prif reswm dros hyn yw nad ystyrir bod parcio yn y meysydd parcio hyn yn ystod y nos yn hanfodol ar gyfer mwynhad cyffredinol y Parc Cenedlaethol – ac felly mae'n debygol y bydd yr effaith ar ail bwrpas statudol y Parc Cenedlaethol yn ddibwys. Prif ddefnydd y meysydd parcio hyn yw mynediad at Lyn Tegid a'r ardal gyfagos yn ystod y dydd. Efallai y bydd rhai mathau o ddefnydd yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos ar gyfer cerddwyr cŵn, padlfyrddwyr, pysgotwyr, nofwyr a gwylio'r wawr / machlud haul, ond mae'n debygol y bydd y defnydd gwirioneddol yn ystod oriau tywyll yn gyfyngedig.

16. Bu problemau gyda gwersylla dros nos yn y ddau leoliad hyn, ac mae Cyngor Cymuned Llangywer a Chyngor Tref y Bala wedi codi'r pryderon hyn dro ar ôl tro gyda'r Awdurdod.

17. Felly, cynigir y gellid cymhwyso cyfnod cau treial cyfyngedig ar gyfer defnydd yn ystod y nos yn y ddau faes parcio – gallai hyn fod rhwng 01:00 a 03:00 er enghraifft. Byddai unrhyw un yn y maes parcio rhwng yr amseroedd hyn yn wynebu dirwy gosb. Bydd treialu camerâu ANPR yn Llyn Tegid a Llangywer yn helpu i orfodi hyn.

18. Er ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn effeithio ar fwynhad pobl o'r Parc Cenedlaethol o'r lleoliad hwn, dylid cydnabod bod risg y gallai symud y broblem i rywle arall (cilfannau cyfagos a lleiniau eraill neu dir sydd ar gael). Mae hyn eisoes wedi'i drafod a'i amlygu yn ystod trafodaethau gyda'r cynghorau tref a chymuned briodol. Gan mai prosiect peilot arfaethedig yw hwn, gellid monitro'r effeithiau dadleoli hyn a'u hadrodd yn ôl i'w hadolygu yn y dyfodol.

19. **GOBLYGIADAU ADNODDAU**

20. Mae'n annhebygol y bydd cael gwared ar y cyfyngiadau parcio ceir yn ystod y nos yn newid unrhyw ran o ragolygon incwm yr Awdurdod a nodir yn y papur a gymeradwywyd yng nghyfarfod Awdurdod mis Rhagfyr yr Awdurdod.

21. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol yn deillio o'r atebion y byddwn yn eu harchwilio – ond mae'n debygol y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Awdurdod cyn cymryd unrhyw gamau sylweddol ar raddfa fwy.

22. **ARGYMHELLIAD**

23. I’r Aelodau gymeradwyo’r argymhellion canlynol, sef:

    a. Parhau i ddefnyddio'r maes parcio 24 awr y dydd ledled y Parc Cenedlaethol (ac eithrio (c) isod);

    b. Cynnal adolygiad aml-asiantaeth trylwyr o barcio ceir ledled y Parc Cenedlaethol, gyda'r nod o ddod o hyd i atebion i reoli a lliniaru effeithiau gwersylla dros nos mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod (ac o bosibl meysydd parcio eraill) - adrodd hyn yn ôl i'r Aelodau erbyn diwedd y flwyddyn;

    c. Cau meysydd parcio Llyn Tegid a Llangywer am 2 awr yng nghanol y nos (er enghraifft, rhwng 01:00 a 03:00) fel astudiaeth beilot 12 mis, gyda'r bwriad o geisio rheoli gwersylla dros nos yn y lleoliadau penodol hyn. Byddai casgliad yr astudiaeth beilot yn cael ei adrodd yn ôl i'r Aelodau'r flwyddyn nesaf.

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 11 MAWRTH 2026
Swyddfa’r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, John Pughe Roberts, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai’r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai’r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau’r Cadeirydd**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes a Dr Salamatu Fada.

2. **Datgan Diddordeb**
   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**
   *Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Taflen Weithredu**
   *Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

   *Argymhellwyd*: –

   - bod *Eitem 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru* (PacA 12.07.23) yn cael ei thynnu o’r daflen weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;
   - bod *Eitem 8. Arallgyfeirio Incwm* (PacA 29.11.23) yn cael ei thynnu o’r daflen

weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;

- bod *Eitem 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25* (PacA 09.07.25) yn parhau ar y Daflen am y tro; roedd y Pennaeth Eiddo'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau hyd yma.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad.

## 5. Deddf Rhyddid Gwybodaeth

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd*:

- bod 50 o geisiadau wedi dod i law yn ystod y flwyddyn 2025: 28 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 22 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;
- bod, o'r ceisiadau hyn:
  - 17 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth oedd yn berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny;
  - 11 cais yn ymwneud â gwybodaeth ynghylch contractau amrywiol yr Awdurdod ar gyfer offer a meddalwedd yn bennaf,
  - 4 cais yn ymwneud â gwybodaeth Adnoddau Dynol ynghylch niferoedd a chostau staff a hyfforddiant,
  - 2 wedi gofyn am gopi o ymatebion i'r ymgynghoriad, a
  - 2 gais yn ymwneud â gwybodaeth am daliadau cyflenwyr

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

## 6. Cofrestr Risg yr Awdurdod

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod 19 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr: 1 wedi'i dosbarthu fel risg Uchel, 14 wedi'u dosbarthu fel risgiau Canolig a 4 wedi'u dosbarthu fel risg Isel;
- bod dau risg newydd ar y Gofrestr yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, sef Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 a Sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru.;
- bod y Tim Arweinyddiaeth wedi ail-edrych ar y risgiau yn dilyn sylwadau a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, a bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn lefelau llawer o'r risgiau;
- bod camgymeriad yn y gofrestr Gymraeg: roedd canlyniad gweddill risg rhif 3 (*Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor*) wedi ei gofnodi fel "Coch" ond â chylch ambr, ac mai "Ambr" a chylch ambr ddylai fod.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Diweddariad ar Gyllideb 2025/26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno dair gwaith y flwyddyn ac mai hwn oedd y cyflwyniad terfynol cyn cau'r gyllideb a chyflwyno adroddiad Alldro yn yr haf;
- bod y gyllideb wedi ei gosod yn Chwefror 2025;
- bod:
  - Llywodraeth Cymru, yn Chwefror 2026, wedi dyrannu £1,003,300 ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ar draws 29 o brosiectau,
  - £30,600 ychwanegol wedi'i dderbyn mewn cyllid refeniw i gefnogi pwysau capasiti,
  - cyllid ychwanegol o £635k hefyd wedi ei ddyrannu ddechrau Mawrth er mwyn cwrdd â'r diffyg o fewn y flwyddyn;
- nad oedd y ffigyrau yma wedi eu hadlewyrchu yn y tablau oherwydd i'r arian gael ei dderbyn ar ôl y cyfnod adroddir arno (sef hyd at 31 Ionawr 2026);
- bod camgymeriad yn 2.3 yn yr adroddiad: caed **tan**wariannau "bach mewn sawl gwasanaeth" oedd yn gywir, ac nid **gor**wariannau.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1. Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26
2. Cymeradwyo'r symudiad o £103,000 ar gyfer Terfynau Traddodiadol

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y trydydd (a'r pedwerydd) chwarter i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod llithriant wedi bod mewn tair eitem, a thynnwyd sylw'r Aelodau atynt:
  - AC1.5 ac AC 1.6: Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri
  - AC1.10: Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030
  - CW 1.4 Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ein systemau technegol
- bod y mwyafrif llethol o'r amcanion yn wyrdd (yn mynd rhagddynt ac o fewn yr amserlen) a bod hyn yn adlewyrchu'n dda ar y swyddogion.

*Nodwyd*:

- bod y Fforwm Staff yn fodd i aelodau drafod polisïau, mynegi eu barn a chyflwyno syniadau er mwyn sicrhau nad oedd yr holl amcanion yn cael eu harosod oddi uchod.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn trafod a nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. **Adroddiad Diweddaru ar Grantiau Arian Allanol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr.

*Adroddwyd*:

- nad oedd y blaenoriaethau ar gyfer y prosiectau wedi newid;
- bod Atodiad 2 yn dangos y dull cymeradwyo prosiectau oedd wedi ei fabwysiadu fel Awdurdod, ond ei fod yn cael ei adolygu'n fewnol ar y pryd, a byddai adroddiad pellach ar hynny'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau petai'n cael ei newid mewn unrhyw ffordd;
- bod y prosiect Carneddau wedi dod i ben ond dylid cydnabod pwysigrwydd gwaddol y prosiect, bod partneriaethau bellach yn cyd-weithio'n naturiol lle nad oedd y partneriaethau'n bodoli cyn cychwyn y prosiect;
- bod prosiect datblygu Plas Tan y Bwlch yn llyncu adnoddau ac yn hawlio llawer o waith, a byddai sesiwn ar y Plas yn cael ei gynnal ddiwedd yr wythnos yn Niwrnod Hyfforddi'r Aelodau i ddiweddaru'r Aelodau;
- na fyddai'r Awdurdod yn symud ymlaen gyda phrosiect Dŵr Gwyllt Eryri a byddai'r arian, gwerth £200K, yn cael ei golli; roedd hyn am fod yr amser a roddwyd i'r prosiect yn rhy gyfyng, ac roedd sylwadau'n amlygu hyn wedi mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru.

*Nodwyd*:

- dylid ceisio ariannu meithrinfa goed i gael tyfu coed a phlanhigion brodorol i adnewyddu gwrychoedd, gan ddechrau gyda'r Plas.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1 Nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf.

2 Adolygu a chytuno blaenoriaethau ar gyfer cynigion grant (Atodiad 1)

3 Nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau (Atodiad 2

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn 2025: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

*Adroddwyd*:

- bod nifer Materion y Wasg yn llai yn 2025 nag yn 2024 am fod 2024 yn brysur gyda materion Plas Tan y Bwlch, penodi Prif Weithredwr newydd, a'r newid i ddefnyddio'r enwau Eryri a'r Wyddfa'n unig;
- bod ystadegau defnydd y wefan wedi codi;
- bu mwy o arbrofi ar y cyfryngau cymdeithasol yn 2025 gan ffocysu mwy ar ansawdd y cynnwys yn hytrach nag ar nifer yr eitemau a gyhoeddwyd;
- bod patrwm wedi datblygu, sef cynhyrchu ar themâu ymwelwyr rhwng Ebrill a Hydref, a rhinweddau eraill y Parc Cenedlaethol yn ystod misoedd y Gaeaf;
- bod cydweithio da wedi bod gyda phob tîm achub mynydd oedd yn gweithredu yn Eryri;
- bod y rhan fwyaf o'r gwaith ffilmio'n cael ei wneud yn fewnol ond, pan gaed arian grant, bod yr Awdurdod yn defnyddio 3 neu 4 cwmni proffesiynol arbenigol, yn dibynnu ar natur y prosiect;

- bod codi ystadegau sianel Youtube wedi bod yn nod yn 2025;
- ei fod yn fwriad gwneud 3 ffilm 10 munud o hyd yn ystod eleni: ar Gadair Idris, Llyn Tegid a Thaith Fer trwy'r Parc Cenedlaethol;
- bod 5 darn o waith oedd yn rhan o Strategaeth Ddigidol APCE 2026 yn cael eu cynhyrchu ar y cyd rhwng yr adran gyfathrebu ac adran Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod:
    - Strategaeth Gyfathrebu
    - Strategaeth TG
    - Cyfathrebu Mewnol
    - Polisi Deallusrwydd Artiffisial
    - Strategaeth Cyfryngau Digidol

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:07**

**GWEITHGOR AELODAU**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 25 Mawrth 2026

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jon Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Angela Jones, Edward Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

   Yn absenoldeb Cadeirydd y Gweithgor Aelodau, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen.

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall.

2. **Datgan Diddordeb**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026.

   *Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Diweddariad Byr ar (1) Y Swydd Rheolwr Masnachol a (2) Crynodeb yn archwilio ffynonellau incwm masnachol posibl eraill**

   *Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr

   *Adroddwyd*:

   - bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn edrych yn well nag y bu oherwydd y cynnydd yn y grant craidd a dderbyniwyd ac oherwydd y cynnydd mewn incwm a ddisgwylid gan y meysydd parcio;

- ei fod wedi dod i'r casgliad ei fod yn rhy gynnar i benodi Rheolwr Masnachol am nifer o resymau gan gynnwys:
    - na fyddai'n bosibl cystadlu gyda swyddi tebyg yn y sector breifat,
    - bod profiad Parciau Cenedlaethol eraill o gael Rheolwr Masnachol ar y cyfan wedi bod yn negyddol,
    - bod Plas Tan y Bwlch yn fwy o flaenoriaeth ar y pryd ac yn hawlio egni swyddogion,
    - bod potensial yn natblygiadau Yr Hen Stablau a chanolfan Pen-y-pass ond byddai angen buddsoddiad mawr ynddynt, a phrosiectau tymor canolig i hir oeddynt,
- a dylid canolbwyntio ar brosiect Plas Tan y Bwlch yn benodol cyn edrych at benodi Rheolwr Masnachol rhag gwasgaru adnoddau ac egni'n rhy eang.

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- bod risg penodi'r person anghywir yn Rheolwr Masnachol a gallai hynny wneud pethau'n waeth
- dylid edrych i weld a oedd modd cael mwy o berthynas rhwng y Rheolwr Partneriaethau a thenantiaid masnachol yr Awdurdod i hybu gwell cydweithrediad a chydfynd â phwrpasau'r Parc.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n trafod yr adroddiad ac, yn benodol, yn:

a) Peidio ag arddel y posibiliad o rôl Rheolwr Masnachol yr Awdurdod am y tro,
b) Parhau i ddatblygu opsiynau a syniadau ar gyfer Yr Hen Stablau – ond gyda'r nod o'u harddel ymhen 3-5 mlynedd (yn ddarostyngedig y sicrheir cyllid allanol),
c) Cydnabod y potensial sylweddol ar gyfer ailddatblygu Pen-y-pass, ond cydnabod bod hwn yn debygol o fod yn brosiect hirdymor,
d) Gwneud buddsoddiad uniongyrchol ar raddfa lai (ym meysydd cyhoeddus ac ati) yn Yr Hen Stablau a Phen-y-pass,
e) Defnyddio gwasanaethau Asiant Gosod Masnachol allanol ar gyfer unrhyw un o'n heiddo rhent yn hytrach na rheoli hyn yn fewnol (lle mae capasiti dan bwysau).

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

5. **Adroddiad Terfynol Cynllun Eryri 2020-25**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Partneriaethau

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad terfynol yma'n nodi diwedd cyfnod;
- bod yr adroddiad yn cynnwys crynhoad o uchafbwyntiau'r pum mlynedd diwethaf.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n

1. Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni Cynllun Eryri 2020-25; a
2. Rhoi unrhyw sylwadau ar yr adroddiad terfynol cyn iddo fod ar gael i'r cyhoedd.

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

6. **Diweddariad ar Eitem 20 Cofrestr Risg Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo

*Adroddwyd*:

- bod dau rybudd ffurfiol wedi eu derbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymwneud a'n heiddo.

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- y dylid cael sgwrs gyda'r cwmni peirianwyr gwreiddiol ynglŷn â cholledion (ariannol ac enw da) a brofwyd gan yr Awdurdod yn dilyn eu cyngor diffygiol;
- wrth drafod yr ail rybudd cytunwyd bod angen gwaith dros dro i atal y gallu i fynd y tu ôl i'r adeiladau i rwystro pobl rhag llygru a bod trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ar y mater yn digwydd.

*Argymhellwyd*: – bod

1. yr Aelodau'n nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed eisoes o reoli a lliniaru'r risgiau;
2. yr Aelodau'n nodi'r angen am gais cynllunio diwygiedig maes o law;
3. Swyddogion yn diweddaru neu amlygu unrhyw ddatblygiadau o bwys ar leoliadau eraill fel bo'r angen;
4. yr Adran Eiddo yn parhau i
    - gynnal a gwasanaethu systemau trin
    - monitro ac asesu digonolrwydd isadeiledd presennol systemau carthion preifat ledled yr ystâd
    - archwilio posibilrwydd derbyn rhyw fath o ad-daliad am golledion (ariannol ac enw da) yn dilyn y cyngor diffygiol a dderbyniwyd gan y cwmni peirianwyr;
    - sicrhau cyfathrebu da ynglŷn â'r problemau a'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w datrys.

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:15**

**GWEITHGOR AELODAU**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 13 Mai 2026

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jon Cawley, Iwan Jones, Bethan Hughes, Keira Sweenie, Naomi Jones, Edward Jones, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Cynghorodd y Darpar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

   Yn absenoldeb Cadeirydd y Gweithgor Aelodau, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen.

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Rhys Evans.

2. **Datgan Diddordeb**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026.

   *Nodwyd* bod y Cynghorwyr Delyth Lloyd Griffiths a Meryl Roberts yn bresennol yn y cyfarfod ond nad oedd ei henwau wedi eu cofnodi yn y cofnodion.

   *Mabwysiadwyd* cofnodion y cyfarfod yn amodol ar y cywiriad uchod ac arwyddodd y Cadeirydd y cofnodion wedi'u cywiro.

4. **Cyfyngiad Parcio Dros Nos ym Meysydd Parcio APCE**

   *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr

   *Adroddwyd*:

- i adroddiad ar “Cynhyrchu Incwm – Adolygu Ffioedd Parcio” gael ei gyflwyno i Awdurdod fis Rhagfyr ac i’r adroddiad gyfeirio at gyfyngiadau parcio dros nos i atal gwersylla dros nos;
- mai’r hyn a basiwyd oedd bod y meysydd parcio ar gau rhwng 10 a 3 (heblaw am faes parcio Llyn Tegid a fyddai ar gau rhwng 10 a 6);
- bod hyn wedi creu gwrthwynebiad cryf gan rai defnyddwyr meysydd parcio (rhai oedd yn dymuno mynydda a mwynhau awyr dywyll yn benodol);
- bod llawer o bobl yn dymuno defnyddio’r Parc, ac felly’n dymuno defnyddio’r meysydd parcio, bedair awr ar hugain y dydd;
- mai amcan y cyfyngu oedd rhwystro gwersylla dros nos a gwaredu’r problemau a ddeuai gyda hynny - gwastraff, llygredd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ayyb;
- bod perygl mai dim ond disodli’r broblem gwersylla i lefydd eraill byddai cau’r meysydd parcio’n ei wneud;
- mai’r bwriad heddiw oedd cytuno i gyflwyno adroddiad i Awdurdod mis Mehefin yn gofyn i oedi cyflwyno cyfyngiadau parcio dros nos er mwyn rhoi amser i ystyried y goblygiadau yn llawn ac i ddatblygu polisi newydd ar y mater.

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- bod angen cyd-weithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddelio â’r broblem;
- dylid ystyried talu asiantaethau diogelwch preifat a chyd-weithio gyda’r heddlu;
- bod creu llefydd Aires wedi eu treialu a bod arwyddion eu bod yn gweithio, er bod treial mewn Parc Cenedlaethol wedi bod yn gymysg;
- nad oedd polisi presennol yr Awdurdod yn caniatáu cynnal parciau *Aires*, ond gellid ystyried newid hyn yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- gallai ymddangos yn annheg petai’r Awdurdod yn rhoi’r hawl i’w hun i agor meysydd gwersylla ac yn gwrthod estyn yr un hawl i amaethwyr neu i dirfeddianwyr eraill preifat;
- mai Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy oedd yn trwyddedu meysydd gwersylla a charafanau.

*Crynhodd* y Prif Weithredwr deimlad y cyfarfod:

- roedd y broblem yn un cymhleth;
- dylid parhau i adael pobl oedd yn mynydda barcio dros nos – rhwystro gwersylla dros nos oedd yr amcan;
- gellid ystyried eithrio Llyn Tegid a Llangywer am nad oedd rheswm i fynyddwyr barcio dros nos yn y mannau hynny, ond byddai angen rhagor o ymchwil cyn cyrraedd casgliad er mwyn osgoi gorfod gwneud tro pedol arall;
- bod gorfodaeth yn gallu bod yn ddefnyddiol;
- bod perygl o ddisodli’r broblem gan symud pobl i lecynnau eraill, llai diogel;
- bod angen polisi gan yr Awdurdod ar gyfer meysydd *Aires*, ond datrysiad tymor hir fyddai hynny oherwydd yr angen i ddiwygio polisi'r Cynllun Datblygu Lleol;
- bod y Gweithgor yn hapus i gefnogi oedi’r penderfyniad yn yr Awdurdod nesaf.

*Argymhellwyd***:** – nodi’r sefyllfa a chytuno cyflwyno papur i gyfarfod Awdurdod mis Mehefin yn gofyn cael gohirio’r penderfyniad ar fater aros dros nos ym meysydd parcio’r Awdurdod i gyfarfod diweddarach a defnyddio’r amser yma i ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol.

*Penderfynwyd:—* **derbyn** yr Argymhelliad.

5. **Datblygiad Prosiect Plas Tan y Bwlch**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir

*Adroddwyd* ymhellach:

- bod noson agored wedi ei chynnal ar gynlluniau a datblygiadau Plas Tan y Bwlch yng Ngwesty'r Oakeley'r noson gynt, ei bod hi'n noson lwyddiannus a'i bod yn dda gweld bod cymaint wedi mynychu;
- bod yr elfen risg yn amlwg yn yr adroddiad gan fod y prosiect yn gynhenid llawn risg:
  - gwerth y cais gwreiddiol oedd £10M – swm oedd ddwywaith maint grant craidd yr Awdurdod,
  - bod ychwanegu'r oriel at y prosiect wedi cynyddu'r risg eto, ond disgwylid y byddai'n lleihau'r risg yn y tymor hir;
  - bod y Gronfa Dreftadaeth wedi bod yn gefnogol i'r cais ac wedi gwahodd yr Awdurdod i gynyddu'r cynnig yn uwch na'r trothwy arferol;
- mai cynlluniau cychwynnol oedd y cynlluniau oedd wedi eu cyflwyno gan Donald Insall, a'u bod wedi eu cyhoeddi'n gynt nag arfer er mwyn ceisio deall y risg a rheoli disgwyliadau;
- bod y cynlluniau wedi eu dangos i staff, i Aelodau ac i'r gymuned a bod yr ymateb wedi bod yn galonogol ac yn gefnogol;
- nad oedd ateb hawdd i'r her parcio a gallai orfodi newid agwedd tuag at y ffordd o weithio ac at y ffordd o gyrraedd y gwaith;
- bod £50,000 wedi ei dderbyn gan gronfa Creu Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu prosiect blwyddyn Artist Mewn Gwasanaeth:
  - bod Meleri Davies wedi ei phenodi'n Artist mewn Gwasanaeth;
  - byddai'r Awdurdod yn cydweithio hefyd gyda'r cwmni theatr, Frân Wen, ar y prosiect;
  - prosiect blwyddyn ydoedd yn y lle cyntaf, ond y gobaith oedd y byddai'n gweithio fel prosiect peilot ac y câi ei ymgorffori i'r cyfnod cyflawni;
- nad oedd wedi bod yn bosib cadarnhau hyd yma faint byddai costau refeniw'r Plas ond byddai ffigyrau mwy cadarn yn dod gerbron yr Awdurdod yn y cyfarfod nesaf;
- bod dwy gyllideb wahanol ar hyn o bryd – un ar gyfer rhedeg y Pencadlys ac un ar gyfer rhedeg y Plas – a'r nod oedd lleihau cyfanswm y ddwy gyllideb;
- mai £400K oedd y costau rhedeg presennol, a rhagwelid byddai costau rhedeg y Plas ychydig o dan chwarter miliwn o bunnoedd ar ôl cyfnod y Loteri;
- mai'r bwriad oedd dychwelyd i'r Awdurdod ym mis Mehefin i ofyn caniatâd ffurfiol yr Aelodau i gyflwyno cais i'r Gronfa Dreftadaeth erbyn 6ed o Awst; y disgwyliad oedd byddai'r Awdurdod yn clywed erbyn Nadolig a oedd y cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, ac os oedd y cais yn llwyddiannus dylai'r Awdurdod dderbyn caniatâd gan y Loteri i fwrw ymlaen â'r prosiect ryw fis neu ddau'n ddiweddarach;

*Argymhellwyd*: – cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:50**

**COFNODION**
**PWYLLGOR SAFONAU**
DYDD GWENER 27 MAWRTH 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen *(ex officio)*;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Ms Naomi Luhde-Thompson

**Aelodau Annibynnol**
Mr Mark Jones (Cadeirydd), Mr Robert Gwilym Lewis;

**Swyddogion**
Iwan Jones, Bethan Hughes, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

   *Nodwyd:* gan fod y Pwyllgor yn brin o un Aelod Annibynnol, bod y Cynghorydd Nia Owen wedi tynnu nôl rhag mynychu'r cyfarfod i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o aelodau.

2. **Datgan Budd**

   Dim.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Medi 2025.

   *Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

   <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>:

   - *Eitem 1: Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd* -
     Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor yn parhau i fod yn brin o un aelod annibynnol; fod y swydd wedi ei hysbysebu ond mai un cais yn unig a dderbyniwyd ac nad oedd y person hwnnw'n gymwys i gael y swydd (am ei fod yn aelod o gyngor cymuned); fod y swydd ar fin cael ei hysbysebu eto a byddai swyddogion gwasanaethau democrataidd cynghorau siroedd Gwynedd, Conwy a Môn yn cael eu hysbysu o'r swydd er mwyn iddynt basio'r hysbyseb ymlaen at eu Haelodau Annibynnol nhw.

- *Eitem 5: Enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl* – Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau hynny a fynychodd y diwrnod hyfforddi ar Werthuso Swydd ar 8 Hydref ac i'r sesiwn ar gynnal Apêl Gwerthusiad a gynhaliwyd ar 15 Hydref;
- *Eitem 6: Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru* – Cadarnhaodd fod gwybodaeth am yr achos a ddaeth gerbron yr Ombwdsman wedi ei hanfon at Aelodau'r Awdurdod, ynghyd â chynnig o hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad;
- *Eitem 9: Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau* – Cadarnhaodd fod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau wedi ei hysbysu o benodiad Mr Mark Jones yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Safonau.

4. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**

*Cyflwynwyd:* Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- cefndir y ddyletswydd statudol a'r hyn y bwriedid ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

*Nodwyd*:

- bod y Cadeirydd yn fodlon cyflwyno'r adroddiad i'r CCB;
- dylid ychwanegu'r ffaith fod aelodau'r pwyllgor wedi mynychu'r hyfforddiant ar Apeliadau Graddio Statws Sengl at yr adroddiad.

*Argymhellwyd*:–

1. Trafod cynnwys yr adroddiad.
2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.

*Penderfynwyd*: **derbyn** yr Argymhelliad

5. **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**

*Cyflwynwyd:* Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod y nifer o ddatganiadau o fuddiannau'n is nag arfer a bod hyn o bosib oherwydd bod nifer y ceisiadau cynllunio wedi gostwng.

*Argymhellwyd*:– nodi'r adroddiad, er gwybodaeth

*Penderfynwyd*: **derbyn** yr Argymhelliad

6. **Adolygu Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth**

*Cyflwynwyd:* Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd*:

- cefndir creu'r polisi a'r angen i'w adolygu

*Nodwyd*:

- bod y polisi drafft yn hawdd i'w ddarllen a bod yr enghreifftiau oedd yn yr adroddiad yn gymorth mawr.

*Argymhellwyd*:–

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi.
2. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd*: **derbyn** yr Argymhelliad

7. **Adolygu Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)**

*Cyflwynwyd:* Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r un diwethaf;
- bod enghreifftiau wedi eu hychwanegu i'r adroddiad gwreiddiol ym mhwyntiau 3.3 a 3.4 i egluro'r termau ymhellach;
- bod rhai enwau a thermau wedi eu cysoni yn y diweddariad.

*Nodwyd*:

- gellid cysylltu â'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol petai bryder gan rywun am unrhyw agwedd o'r polisi.

*Argymhellwyd*:–

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi
2. Cymeradwyo'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd*: **derbyn** yr Argymhelliad

8. **Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau – Dydd Llun 26 Ionawr 2026**

*Cyflwynwyd* – Adroddiad ar gyfarfod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd 26 Ionawr 2026 gan y Cadeirydd.

*Adroddwyd:*

- bod Mr Mark Jones, cadeirydd y Pwyllgor Safonau, wedi mynychu'r cyfarfod;
- nad oedd cofnodion y cyfarfod wedi eu dosbarthu hyd yma ond y byddant yn cael eu rhannu ymhlith yr aelodau unwaith byddant wedi eu derbyn;
- ei fod yn gyfarfod cynhyrchiol, ond nad oedd popeth a drafodwyd yn berthnasol i'r Awdurdod.

*Argymhellwyd*:– nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

*Penderfynwyd*:— **derbyn** yr Argymhelliad

9. **Unrhyw Fusnes Arall**

*Diolchodd* y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am gyfarfod ag ef i'w gyflwyno i'r swydd o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

*Nododd* hefyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Safonau i Iwan Jones, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Diolchodd iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14:25**

**CYD-WEITHGOR LLEOL**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Gwener 20 Mawrth 2026
**COFNODION**

***PRESENNOL:***

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**
Cynghorwyr Einir Wyn Williams (Cadeirydd) ac Elwyn Edwards, a Naomi Luhde-Thompson;

**Cynrychiolwyr Gweithwyr**
Aled Lloyd (Unsain);

**Yn bresennol**
Jon Cawley, Iwan Jones, Bethan Hughes, Angela Jones, Sion Roberts, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Colin Williams (Unsain), Celia Kelly (GMB).

2. **Datgan Diddordeb**
Dim.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y Cyd-weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Diolchwyd* i Aled Lloyd ac i Celia Kelly am gytuno i fod yn Hyrwyddwyr Partneriaethau Cymdeithasol, ac yn benodol am eu bod wedi cyflawni'r modiwlau a hyfforddiant ar-lein llynedd. Roedd swyddog o Dîm Partneriaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi gofyn eu bod, ynghyd â'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, yn cwblhau'r cyrsiau mewn paratoad at gyfarfodydd o'r Grwpiau Rhannu Ymarfer Da Hyrwyddwyr Partneriaeth Gymdeithasol oedd i'w cynnal pedair gwaith y flwyddyn, yn dechrau mis Mehefin diwethaf. Er cwblhau'r gofynion, nid oedd yr un cyfarfod wedi ei drefnu hyd yma.

*Adroddwyd*:

- bod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gofyn bod yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r undebau wrth

ddatblygu ei Amcanion Llesiant ac unrhyw gynlluniau a phenderfyniadau strategol eraill;

- bod yr adroddiad yn cynnwys yr hyn oedd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

*Argymhellwyd*:

bod y Cyd-weithgor Lleol yn trafod cynnwys yr adroddiad ac, os cytunir, ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr argymhelliad.

5. **Cyfansoddiad y Cyd-weithgor Lleol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- nad oedd y cyfansoddiad wedi ei adolygu na'i ddiweddaru ers nifer o flynyddoedd;
- nad oedd yn sôn am y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a bod hwn yn gyfle i sicrhau fod y ddeddfwriaeth yn rhan o'r cyfansoddiad;
- bod y cyfansoddiad presennol yn cydnabod dau undeb, sef Unsain a GMB, ac yn rhoi'r hawl i dri chynrychiolydd o Unsain ac un cynrychiolydd o GMB ar y Cyd-weithgor, ond nid oedd yn sicr bellach fod hyn yn rhaniad teg o gynrychiolaeth rhwng y ddau undeb a bod angen cadarnhau'r gwir raniad o gynrychiolaeth;

*Argymhellwyd*: –

(i) Derbyn yr adroddiad fel hysbysiad ffurfiol i adolygu'r Cyfansoddiad.

(ii) Trafod a chytuno ar y newidiadau sydd eu hangen yn y Cyfansoddiad. Cytunwyd y byddai angen i Unsain a GMB yn y cyfamser anfon manylion o'u niferoedd neu i gytuno ar sut i rannu eu cynrychiolaeth ar y Cyd-weithgor Lleol.

(iii) Derbyn drafft wedi'i ddiweddaru o'r Cyfansoddiad yn y cyfarfod nesaf.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr argymhelliad.

6. **Diweddariad ar Gynllun Eryri**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau.

*Adroddwyd*:

- bod yr Awdurdod yn adolygu prif gynlluniau'r Parc eleni, sef *Cynllun Eryri* a'r *Cynllun Datblygu Lleol*;
- bod llawer o wybodaeth a thystiolaeth wedi ei chasglu dros y flwyddyn ddiwethaf gan ddechrau gydag Adroddiad Cyflwr y Parc, a oedd yn fyw bellach ac ar gael ar wefan yr Awdurdod;
- yn dilyn casglu'r wybodaeth a gaed yn yr Adroddiad penderfynwyd ar 5 Prif flaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt yn y Cynllun newydd, sef:
    1. Gweithio mewn partneriaeth i gynyddu amrywiaeth helaethrwydd byd natur a gwella gwytnwch ecolegol ledled Eryri (cafwyd symposiwm cychwynnol ym mis Mehefin 2025);
    2. Cydweithio ar draws y Parc Cenedlaethol i gefnogi cymunedau cadarn a ffyniannus;

3. Sicrhau bywiogrwydd parhaus yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yr ardal; (cynhaliwyd Gŵyl Fach Eryri ym Medi a Hydref 2025);
4. Ymateb i'r argyfwng hinsawdd gydag arloesedd ac uchelgais; (cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref 2025);
5. Annog mynediad diogel a chyfrifol i natur a llesiant i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd (cynhaliwyd cynhadledd ym mis Ionawr 2026 i ddechrau'r broses o greu polisïau a fyddai'n sicrhau nad oedd trigolion Eryri'n teimlo fod yna unrhyw rwystrau iddynt gael mynediad);

- bod symposia wedi eu cynnal dros y 6 mis diwethaf i graffu ymhellach ar y blaenoriaethau hyn er mwyn bwydo'r hyn a ddysgid i mewn i'r adolygiad;
- bod cyfarfodydd gyda holl aelodau Fforwm Eryri wedi cael eu cynnal dros y 6 mis diwethaf i glywed beth oeddynt yn dymuno'i gynnwys yn y Cynllun newydd;
- bod prosesau statudol hefyd wedi eu dilyn ar gyfer paratoi'r Cynllun;
- bod fideo ymgynghori wedi ei gynhyrchu yn ogystal;
- yn dilyn y cyfnod o gasglu tystiolaeth bod cyfnod o ddatblygu wedi cychwyn bellach:
    - bod gweithdai staff yn cael eu cynnal i nodi'r hyn roedd aelodau staff yn dymuno gweld o fewn y cynllun ar eu meysydd hwy;
    - byddai Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Cynllun;
    - cafwyd ymgynghoriadau gyda phobl ifanc, plant ysgol, staff, Aelodau a Fforwm Eryri;
    - mai'r gobaith oedd cynhyrchu'r cynllun dros y misoedd nesaf a dod â fersiwn ohono gerbron yr Aelodau i'w fabwysiadu yn yr Hydref.

## 7. Diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol

*Cyflwynwyd* adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio (Polisi).

*Adroddwyd*:

- bod y cynllun presennol yn rhedeg o 2016 – 2031, ac fe'i mabwysiadwyd yn Chwefror 2019;
- ei fod yn ofyniad adolygu'r cynllun bob 4 mlynedd ar ôl ei fabwysiadu;
- bod Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddull o fonitro llwyddiannau / methiannau'r cynllun, a gweld beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer adolygiad;
- bod y camau canlynol wedi'u cwblhau'n barod:
    - 5 Adroddiad Monitro Blynyddol
    - Adroddiad Adolygu
    - Cytundeb Cyflawni
- mai'r cam nesaf oedd "Cyfranogiad cyn-adneuo", sef adnabod prif faterion ac opsiynau ar gyfer adolygiad y cynllun, a chynnal ymgynghoriad yn galw am safleoedd posib ar gyfer datblygu tai ayyb;
- mai gwaith arall o fewn y cynllun oedd paratoi Proffiliau Aneddiadau, sef proffiliau ar gyfer 73 o bentrefi a threfi ar draws Eryri;
- byddai hyn yn helpu ffurfio'r Strategaeth Ofodol a'i fod yn ddechreuad ar yr Asesiad Aneddiadau;
- bod Arcadia wedi'i gomisiynu i wneud gwerthusiad cynaliadwyedd integredig (*integrated sustainability appraisal*) a oedd yn cael ei ymgynghori gyda Chadw a

Chyfoeth Naturiol Cymru a'r gobaith oedd cael ymatebion ganddynt erbyn yr wythnos ganlynol.

*Trafodwyd* yr adroddiad a *nodwyd*:

- bod y Bala a Dolgellau yn parhau'n "drefi twf" yn y cynllun newydd, a bod llawer o'r farn bod gormod o dai (52) wedi'u clustnodi ar gyfer y Bala;
- bod y gwaith o osod hierarchaeth aneddiadau'n parhau a bod y Bala a Dolgellau'n dal ar y brig oherwydd y boblogaeth a'r gwasanaethau oedd yno;
- mai un o'r pethau yr oedd yr adroddiad adolygu wedi ei amlygu oedd nad oedd digon o dai yn cael eu datblygu, ac yn naturiol byddai datblygu o'r fath yn digwydd mewn ardaloedd lle'r oedd y mwyaf o botensial ond bod rhaid gweld beth oedd yn bosibl a'i wireddu (rhoddwyd ardal y Red Lion yn y Bala fel enghraifft a oedd wedi ei glustnodi fel lle i ddatblygu tai ond lle nad oedd dim wedi digwydd);
- mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn a fu unrhyw ymgynghoriad gyda chymunedau lleol ynglŷn â'r cynllun yma, bod swyddogion wedi bod yng Ngŵyl Fach Eryri, bod holiaduron wedi'u dosbarthu, a bod proffiliau aneddiadau wedi'u hanfon at gynghorau cymuned ynghyd â holiadur arall i gael eu barn;
- bod y targedau niferoedd tai'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ac yn cael eu mireinio ar lefel rhanbarthol rhwng y cynghorau;
- bod targedau niferoedd tai'r Parc yn cael ei osod ar wahân ac nad oedd dyraniad bras y Parc wedi ei dderbyn hyd yma;
- bod y math o dai oedd yn cael eu datblygu'n bwysig, ei fod yn her barhaus datblygu tai fforddiadwy a thai canolradd mewn pentrefi gwledig, a bod cymdeithasau tai'n gweld adeiladu mewn pentrefi gwledig yn rhy ddrud;
- bod y tîm polisi wedi creu fforwm tai Eryri lle gallai cymdeithasau tai a chynghorau sir gyfrannu at y math yma o drafodaethau;
- nad oedd tenantiaid rhent cymdeithasol ar y fforwm ar hyn o bryd, ond gellid ystyried eu cynnwys a dilyn patrwm y *Manchester Social Housing Commission* a bod eu cynnwys ar y comisiwn hwnnw wedi arwain at newidiadau yng nghynnwys ei gynllun lleol;
- nad oedd yr un gymdeithas tai'n gosod tai eu hunain bellach ond eu bod yn casglu enwau'r rhai oedd â diddordeb ac yn anfon yr enwau ymlaen at Tai Teg a oedd yn penderfynu pwy fyddai'n cael tŷ;
- dylid ystyried clustnodi tir i bobl breifat allu codi tai (fforddiadwy);
- dylid ystyried edrych ar ddefnyddio ymddiriedolaethau tir cymunedol (*community land trusts*) a chlustnodi tir i ymddiriedolaethau tebyg yn unig;
- bod yr Awdurdod yn cyd-ariannu Hwyluswyr Tai Gwledig a'u bod nhw'n gallu cynnal arolwg penodol ar bentref penodol i roi tystiolaeth i'r tîm polisi;
- bod mentrau penodol wedi'u creu i greu swyddi penodol (e.e. Swyddog Tai Cymdeithasol) ar gyfer pentrefi penodol (e.e. Penmachno);
- bod Safleoedd Tai Eithriadol yn caniatáu datblygu'r ochr draw i ffin datblygu unrhyw bentref os oedd y datblygiad hwnnw'n dai fforddiadwy lleol, ond mai ychydig iawn ohonynt oedd wedi dod ymlaen dros y blynyddoedd;
- bod rhai cwmnïau tai'n cyfrif y nifer o bersonau ar restrau aros tai mewn modd camarweiniol;
- gan fod pris tir mor uchel dylid edrych ar brynu gorfodol fel opsiwn a'i glustnodi at ddefnydd gan ymddiriedolaeth tir cymunedol neu debyg.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:40**